


# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
## y Swyddfa Gyfathrebiadau

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Swyddfa Gyfathrebiadau

## Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012

**© Hawlfraint Ofcom (2012)**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ac eithrio, os ydynt yn bresennol, yr Arfbais Frenhinol a logos adrannau neu asiantaethau eraill) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod mai Ofcom sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os nodwyd bod deunydd yn berchen i drydydd parti, rhaid ceisio caniatâd gan y sawl sy'n berchen ar yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn ofcomcontactcentre@ofcom.org.uk

Gellir llwytho'r ddogfen hon oddi ar y we yn www.official-documents.gov.uk.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr a ailgylchwyd

# Cynnwys

**Adran A**

5 Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud

6 Neges y Cadeirydd

8 Adroddiad y Prif Weithredwr

**Adran B**

11 Golwg gyffredinol ar y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio

12 Perfformiad yn ôl blaenoriaethau ein cynllun blynyddol

27 Ein cyfrifoldebau parhaus a'r adnoddau rydym yn eu rheoli

36 Sut rydym yn rheoli risgiau a sialensiau

38 Sut rydym yn gweithio a phwy rydym yn gweithio gyda nhw

44 Ein gweithwyr

46 Cyfrifoldeb corfforaethol

47 Adroddiad cynaliadwyedd

**Adran C**

49 Datganiad llywodraethu

50 Bwrdd Ofcom

65 Datganiad Cyfrifoldebau

66 Adroddiad taliadau

**Adran Ch**

70 Adolygiad gweithredol ac ariannol

75 Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

76 Datganiad incwm a gwariant

77 Datganiad o'r sefyllfa ariannol

78 Datganiad newidiadau ecwiti

79 Datganiad am y llif arian

80 Nodiadau'r cyfrifon

**Atodiad**

107 Datganiadau rheoleiddio

112 Cwynion darlledu, achosion a sancsiynau

115 Data ystadegol

116 Rhaglen ymchwiliadau

117 Peirianneg a gorfodaeth sbectrwm – dangosyddion perfformiad allweddol

118 Trwyddedu sbectrwm

121 Adroddiad Cynaliadwyedd

123 Geirfa termau

2011/12




“Rydym yn gwneud yn siŵr bod pobl yn y DU yn cael y gorau o’u gwasanaethau cyfathrebu.”





# Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud

## Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yw rheoleiddiwr cyfathrebu annibynnol y DU.

Rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu a radio, telegyfathrebu llinellau sefydlog a symudol, y tonnau awyr mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio ac, er 1 Hydref 2011, gwasanaethau post.

Rydym yn gwneud yn siŵr bod pobl yn y DU yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebu a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag twyll ac arferion cyfrwys, ar yr un pryd â chaniatáu i gystadleuaeth allu ffynnu.

Sefydlwyd Ofcom o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu o dan sawl Deddf Seneddol a nifer o reoliadau, gan gynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, a Deddfau Darlledu 1990 a 1996. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn nodi'r hyn y dylai Ofcom ei wneud a sut y dylem ei wneud. Mae deddfwriaeth sy'n fwy diweddar yn cynnwys Deddf yr Economi Ddigidol 2010 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn datgan mai prif ddyletswydd Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Mae hyn yn sail i lawer o'r hyn rydym yn ei wneud. Mae Deddf Gwasanaethau Post 2011 yn datgan ei bod yn rhaid i Ofcom sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu.

Byddwn yn gosod ac yn cynghori ynghylch rhai o'r agweddau mwy technegol ar reoleiddio, yn ogystal â gweithredu a gorfodi cyfraith cyfathrebu, cyfraith cystadleuaeth a chyfraith defnyddwyr.

Caiff Ofcom ei ariannu drwy ffioedd gan y diwydiant am reoleiddio rhwydweithiau cyfathrebu a darlledu, a chymorth grant gan Lywodraeth y DU am reoleiddio cystadleuaeth ar yr un pryd a rheoli'r sbectrwm radio. Rydym yn gweithio'n annibynnol heb ddylanwad gwleidyddol.

### Beth rydym yn ei wneud

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw sicrhau:

- bod gan y DU ystod eang o wasanaethau cyfathrebu electronig, gan gynnwys gwasanaethau cyflymder uchel, megis band eang;
- bod ystod eang o raglenni radio a theledu o ansawdd uchel ar gael, gan apelio at ystod o ddiddordebau a chwaethau;
- bod gwasanaethau radio a theledu yn cael eu darparu gan ystod o sefydliadau gwahanol;
- bod pobl sy'n gwylio'r teledu ac yn gwrando ar y radio yn cael eu hamddiffyn rhag deunyddiau sy'n achosi niwed neu dramgwydd. Rydym yn delio â chwynion am ddarllediadau radio a theledu ac yn asesu pob cwyn yn ôl y Cod Darlledu neu amodau trwydded neu godau perthnasol eraill;
- bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni teledu a radio, a rhag i'w preifatrwydd gael ei darfu;
- bod y sbectrwm radio (y tonnau awyr sy'n cael eu defnyddio gan bawb o gwmnïau tacsis a pherchnogion cychod, i gwmnïau ffonau symudol a darlledwyr) yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol; a
- bod darparu gwasanaeth post cyffredinol yn effeithlon ac yn gynaliadwy'n ariannol.

### Beth nad ydym yn ei wneud

Mae gan Ofcom bwerau i orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr yn gyffredinol. Nid oes gan Ofcom bŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol am wasanaethau telegyfathrebu, yn wahanol i deledu a radio, ond rydym yn cynghori unigolion sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at y ddau gynllun Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Rydym hefyd wedi cymeradwyo cynllun Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau ar gyfer post.

# Neges y cadeirydd
## Colette Bowe

Mae'r sector cyfathrebu yn bwysicach i'r DU nag erioed o'r blaen. Byddaf yn gweld hyn yn yr wybodaeth fanwl am y farchnad mae Ofcom yn ei chasglu ac yn ei chyhoeddi, a byddaf yn gweld hyn ym mhrofiadau bob dydd defnyddwyr o wasanaethau nad oeddent hyd yn oed yn bodoli ychydig o flynyddoedd yn ôl mewn rhai achosion.

Mae'r twf hwn mewn pwysigrwydd a chyflymder y newid yn rhoi cyfrifoldeb penodol ar ysgwyddau Ofcom i sicrhau bod defnyddwyr yn dal i gael bargen deg lle bynnag maent yn y DU.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dod yn ein blaenau'n dda. Rydym wedi gwahardd contractau sy'n adnewyddu'n awtomatig, rydym wedi helpu i ostwng y ffioedd mae defnyddwyr yn eu hwynebu wrth adael contract yn gynnar, ac rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth awdurdodol newydd am lefelau cwynion a chyflymder band eang. Rydym wedi dod i lawr yn galetach ar arferion torri rheolau sy'n achosi niwed a thrallod, gan dorri ar nifer y galwadau mud neu alwadau sy'n cael eu gadael a lleihau bron i draean ar nifer y cwynion a gawn am gam-werthu gwasanaethau llinellau sefydlog. A gyda'r pwerau newydd gan y Senedd dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn dechrau clirio'r dryswch sy'n wynebu cynifer o bobl ynghylch ffioedd galwadau i rai ystodau rhif, gan ddechrau drwy gynigion i wneud ffonio rhifau 0800 am ddim o ffonau symudol. Mae Ed yn disgrifio rhai o'r camau hyn yn fanylach yn ei adroddiad.

### Gwasanaethau cyfathrebu ledled y DU

Wrth i wasanaethau cyfathrebu ddod yn fwy canolog i fywydau ac i waith pobl, felly hefyd y mae manteision eu hargaeledd eang, gan gynnwys yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast i gyd yn cymryd camau i wella cystadleurwydd a chysylltedd eu gwledydd ac rwyf yn awyddus bod Ofcom yn parhau i weithio'n gynhyrchiol gyda nhw, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon - ac, wrth gwrs, Senedd a Llywodraeth y DU.

Yn hwyr y llynedd dechreuodd Ofcom brosiect mawr newydd i ddeall ac i egluro'n fanwl pam nad yw rhai gwasanaethau cyfathrebu ar gael mor eang â rhai eraill, a'r ymyriadau cyhoeddus sy'n ceisio sicrhau gwell darpariaeth na fyddai'n ymarferol yn fasnachol. Rydym yn disgwyl cyhoeddi adroddiad am y gwaith hwn yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Rydym yn rhoi newidiadau llywodraethu ar waith i sicrhau bod trwyddedu gwasanaethau darlledu newydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael ei wneud gyda mantais cyngor sy'n nes at fuddiannau'r gwledydd hynny. Rwyf hefyd yn falch o ddweud bod ein trydedd rownd o drwyddedu radio cymunedol wedi dechrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ddechrau yng Nghymru a Gorllewin Lloegr. Rydym wedi symud ymlaen gyda thrwyddedu gorsafoedd teledu lleol newydd, gan gynnwys ar gyfer Abertawe, Caerdydd, Belfast, Caeredin a Glasgow. Ym mis Mai roeddem wedi cyhoeddi ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddyfodol trwyddedu sianeli tri a phump – mae'n debyg y bydd y penderfyniad terfynol ynghylch hyn yn effeithio ar ddarpariaeth, yn enwedig newyddion teledu yn y gwledydd datganoledig.

Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i ddarparu £150m i ymestyn darpariaeth symudol llais 2G i ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn wael neu ddim yn bodoli ar hyn o bryd hefyd yn gam mawr ymlaen. Mae'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y gorsafoedd canolog maes o law wedi helpu i'w gwneud yn bosibl i ni gynnig dyletswydd darpariaeth uwch ar un o'r trwyddedau sy'n darparu'r genhedlaeth nesaf o fand eang symudol 4G cyflym, pan fyddwn ni'n dechrau'r broses arwerthiant yn nes ymlaen eleni. Hyd yn oed gan ganiatáu ar gyfer y gyfran uwch o ardaloedd gwledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae potensial i 4G gyrraedd 95 y cant o'r holl gartrefi ym mhob un o'r gwledydd hyn. Hyd yn hyn, bu llawer o'r ffocws ar fuddiannau diwydiant cystadleuol wrth neilltuo sbectrwm. Gan ddisgwyl y bydd gwasanaethau 4G ar gael yn eang yn y flwyddyn nesaf, bydd hyn nawr yn symud i'r manteision enfawr y bydd y dechnoleg hon yn eu cyflwyno'n llythrennol i ddwylo defnyddwyr a dinasyddion.

### Gweithio gyda Llywodraeth

Ac ystyried y newidiadau enfawr rydym i gyd yn eu gweld o ran darparu a defnyddio gwasanaethau cyfathrebu, nid yw'n syndod bod Llywodraeth y DU yn bwriadu symud tuag at Ddeddf Cyfathrebiadau newydd. Ar gyfer Ofcom yn benodol, byddai hyn yn dilyn deddfwriaeth sydd wedi dod i rym dros y flwyddyn ddiwethaf i'n gwneud ni'n gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau post. Mae'n debyg y bydd rhagor o is-ddeddfwriaeth hefyd a fydd yn diwygio ein dyletswyddau o ganlyniad i'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus.

Mae rhan bwysig o'r sylfaen ddeddfwriaethol i'r dyfodol ar gyfer ein sector yn dibynnu ar ganlyniad Ymchwiliad Leveson, y rhoddodd Ed a minnau dystiolaeth iddo ym mis Chwefror. Mae ein gwaith ar asesu lluosogrwydd y cyfryngau yn rhan o'r dystiolaeth bellach ar gyfer yr Ymchwiliad hwnnw.

Mae Senedd y DU yn dal Ofcom i gyfrif am ein gwaith. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhoi tystiolaeth i'r Cyd-bwyllgor ar Breifatrwydd a Gwaharddebau ac i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar luosogrwydd. Yn y cyfamser, roedd Pwyllgor Cyfathrebu'r Arglwyddi wedi edrych ar ddyfodol newyddiaduraeth ymchwiliadol a band eang cyflym iawn. Roeddem wedi cyflwyno tystiolaeth i'r naill ymchwiliad a'r llall, ynghyd ag i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Busnes ac Arloesedd i brisiau stampiau. Roedd pwyllgorau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon i gyd yn edrych ar agweddau ar y sector, a'n swyddogaeth ni o ran sicrhau ei fod yn gweithio'n well i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion.

### Newidiadau i'r Bwrdd

Bu newidiadau i'r Bwrdd yn Ofcom. Ffarweliodd Philip Graf â ni ddiwedd 2011, ar ôl chwe blynedd fel Dirprwy Gadeirydd Ofcom a Chadeirydd y Bwrdd Cynnwys. Hoffwn fynegi fy niolch i Philip am ei gyfraniad i Ofcom yn ystod y cyfnod hwnnw. Roeddem hefyd wedi ffarwelio â Millie Banerjee, un o aelodau gwreiddiol Bwrdd Ofcom. Unwaith eto, roedd cyfraniad Millie yn werthfawr iawn at siapio Ofcom a'n ffordd ni o weithio, ac rwyf yn hynod ddiolchgar am ei chyfraniad neilltuol, ar sawl agwedd wahanol ar waith Ofcom, dros bron i ddeng mlynedd.

Roeddem wedi croesawu dau aelod newydd – Patricia Hodgson a Lynne Brindley. Ymunodd Patricia â ni fel Dirprwy Gadeirydd newydd a Lynne yw Cadeirydd Pwyllgor y Gwledydd. Mae Tim Gardam wedi cymryd lle Philip Graf fel Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys. Rydw i ac aelodau eraill o'r Bwrdd yn manteisio ar y cysondeb a geir drwy sylwadau uniongyrchol ond ystyriol y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a'n pwyllgor cynghori ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac ar gyfer Pobl Hŷn ac Anabl.

### Cerrig milltir arwyddocaol

Mae 2012 yn ddiwedd cyfnod hir mewn darlledu yn y DU wrth i'r broses o newid teledu daearol o analog i ddigidol ddod i ben. Er gwaethaf manteision amlwg i wylwyr ac i eraill – yn enwedig y rheini a fydd yn defnyddio'r gwasanaethau 4G newydd sy'n dibynnu ar y tonnau awyr sy'n cael eu rhyddhau – mae newid i'r digidol yn rhaglen peirianneg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus fawr. Dim ond rhannau o Ogledd Ddwyrain Lloegr, Caint a Sussex, a Gogledd Iwerddon sydd eto i newid. Mae'n glod i'r rheini sy'n ymwneud â hyn yn Ofcom, yn Digital UK ac mewn mannau eraill bod y newid wedi bod mor ddidrafferth hyd yn hyn.

Mae 2012 hefyd yn flwyddyn o gryn sialens i rwydweithiau cyfathrebu Llundain, sydd eisoes ymysg y prysuraf yn y byd, wrth i Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain gael eu cynnal gan roi galw nas gwelwyd o'r blaen ar y sbectrwm radio sydd ar gael ar gyfer yr ystod o eang o wasanaethau di-wifr mae eu hangen i redeg, i ddiogelu ac i ddarlledu'r digwyddiad byd-eang hwn. Mae fy nghydweithwyr yn Ofcom wedi bod yn gweithio'n galed yn cynllunio ac yn profi i wneud yn siŵr bod yr agwedd hollbwysig hon ar lwyddiant y Gemau yn gweithio mor llyfn â phosibl. Ar ran y Bwrdd hoffwn ddiolch iddynt ac i'n holl gydweithwyr am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.



**Colette Bowe**
Cadeirydd

# Adroddiad y Prif Weithredwr

## Ed Richards

Ymhen tair wythnos ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol hwn bydd rhwydweithiau cyfathrebu digidol y DU yn wynebu prawf pwysig.

Gydag oddeutu pedwar biliwn o gynulleidfa'n fyd-eang, bydd llygaid pawb ar Lundain wrth i'r ddinas gynnal Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012. Y tu ôl i'r llenni mae Ofcom yn chwarae rhan bwysig yn dawel, gan sicrhau a rheoli'r sbectrwm sydd ei angen ar gyfer cyfathrebu di-wifr, a fydd yn wynebu galw nas gwelwyd o'r blaen gan oddeutu 20,000 o sefydliadau cyfryngau achredededig a threfnwyr y Gemau.

Dyma fydd y Gemau â'r mwyaf o gysylltiadau digidol erioed. Bydd pobl yn gwylio'r campau ar deledu digidol, dros ryngrwyd band eang ac ar eu ffonau symudol; byddant yn gwrando ar sylwebaeth ar y radio, a byddant yn rhannu eu safbwyntiau a'u lluniau dros safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

Mae tudalen 11 yr adroddiad hwn yn rhoi rhywfaint o'r penawdau o'n hymchwil, gan ddangos i ba raddau mae defnyddwyr heddiw yn defnyddio gwasanaethau digidol.

Mae'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau'n cael ei yrru ymlaen yn rhannol gan fuddsoddiad newydd mewn rhwydweithiau, sef un o nifer o ganlyniadau cadarnhaol y mae Ofcom wedi helpu i'w cyflawni eleni.

### Beth mae ein gwaith wedi'i gyflawni

Ym mhopeth a wnawn rydym yn ceisio gwasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr a darparu canlyniadau cadarnhaol iddynt. Ar adeg o newid mewn technoleg, gyda'r angen am fuddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau newydd, dull Ofcom fu hybu buddsoddiad a chystadleuaeth gynaliadwy a diogelu a grymuso dinasyddion a defnyddwyr ar draws y DU.

Mae fframwaith rheoleiddio newydd gan Ofcom ar gyfer band eang cyflym iawn wedi hybu buddsoddiad sylweddol gan gwmnïau. Mae band eang cyflym eisoes ar gael i oddeutu 63 y cant o'r DU, yn ôl ein hymchwil, sydd wedi cael ei helpu i raddau helaeth gan fuddsoddiadau masnachol mawr gan Virgin Media a BT. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl y bydd band eang cyflym, gyda chefnogaeth arian cyhoeddus, ar gael i o leiaf 90 y cant o boblogaeth y DU erbyn 2015, gan ddarparu'r rhwydwaith gorau yn Ewrop.

Yn ogystal â chyflymder cynt, mae gan ddefnyddwyr ddewis gwell o ran darparwyr telegyfathrebu. Caiff hyn ei wneud drwy broses o'r enw dadfwndelu dolen leol (LLU), sy'n caniatáu i ddarparwyr sy'n cystadlu â'i gilydd gynnig gwasanaethau band eang a ffôn drwy ddefnyddio'r rhwydwaith a reolir gan adran mynediad cyfanwerthu BT, Openreach. Ym mis Ionawr 2012 roedd nifer y llinellau wedi'u dadfwndelu wedi mynd dros wyth miliwn, o 123,000 yn 2005.

Mae defnyddwyr nawr hefyd yn gallu chwilio a chymharu er mwyn manteisio ar y gystadleuaeth hon. Yn 2011/12 roedd Ofcom wedi gwahardd contractau mae modd eu hadnewyddu'n awtomatig sy'n clymu cwsmeriaid i gontractau. Yn dilyn trafodaethau ag Ofcom, mae cwmnïau wedi gostwng y ffioedd a godir pan fydd cwsmer yn gadael contract yn gynnar. Ac rydym wedi darparu ffynonellau newydd o wybodaeth i ddefnyddwyr ar faterion fel lefelau cwynion cwsmeriaid a chyflymder go iawn band eang, gan ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth well.

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael galwadau mud a galwadau wedi'u gadael, sy'n gallu achosi anhwylustod, niwsans a phryder. Roedd hyn yn dilyn pwerau gorfodi newydd i Ofcom a nifer o ymchwiliadau newydd i gwmnïau yr oedd amheuaeth eu bod yn torri'r rheolau.

Rydym wedi lleihau nifer y cwynion a gawn am gam-werthu gwasanaethau llinell sefydlog a 'slamio', math o gam-werthu lle caiff darparwr telathrebu cwsmer ei newid heb eu caniatâd. Mae ein gwaith yn parhau yn y maes hwn ond rydym wedi gweld gostyngiad o 31 y cant yn nifer cyffredinol y cwynion bob mis am gam-werthu llinellau sefydlog.

Un maes sy'n dal i beri pryder yw'r broblem bod defnyddwyr yn cael eu taro gan filiau ffôn sy'n annisgwyl o uchel, yn enwedig wrth deithio dramor. Roedd ymchwil gan Ofcom a gyhoeddwyd yn y flwyddyn dan

sylw yn dangos bod yr hyn a elwir yn 'sioc bil' wedi effeithio ar gynifer â 1.4 miliwn o gwsmeriaid contract ffôn symudol dros gyfnod o chwe mis. Mae Ofcom nawr yn gweithio gyda'r cwmnïau symudol i fynd i'r afael â'r mater, gan gynnwys mesurau 'dewis cymryd rhan' a chapiau ariannol.

Mae cynulleidfaoedd – yn enwedig plant – wedi cael eu hamddiffyn rhag cynnwys niweidiol neu amhriodol ar deledu a radio diolch i'n gwaith ar safonau, sy'n cynnwys cynnal y rheolau yng Nghod Darlledu Ofcom. I atgyfnerthu hyn roeddem wedi cynnal cyfarfodydd ar draws y diwydiant gyda darlledwyr teledu a radio yn ystod 2011/12 i'w hatgoffa o'r rheolau ac i godi pryderon ynghylch cydymffurfio. Mae hi bellach yn haws i gynulleidfaoedd gwyno am gynnwys amhriodol ar ôl gwella gwefan Ofcom a chreu ParentPort, porth ar-lein i rieni, ar y cyd â rheoleiddwyr cyfryngau eraill.

Mae'r gwasanaeth post cyffredinol, sy'n gwarantu danfon am yr un pris i bob cyfeiriad yn y DU chwe diwrnod yr wythnos, wedi cael ei ddiogelu. Roedd hyn yn dilyn ein penderfyniadau ar reoleiddio prisiau stampiau, rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Post Brenhinol – gyda chapiau diogelu angenrheidiol - i osod ei brisiau ei hun.

Mae Sky Sports 1 a 2 yn dal ar gael i ystod o ddarparwyr teledu drwy dalu, gan ddarparu'r cynnwys drwy loeren, cebl a drwy erial teledu. Roedd hyn yn dilyn ein hymchwiliad i'r sector teledu drwy dalu.

## Rhagor o fanteision ar y gweill

Yn ystod 2011/12 roedd Ofcom wedi cynnal llawer o waith a fydd yn arwain at fanteision cadarnhaol i ddefnyddwyr yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cynnwys:

- galluogi'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau symudol 4G, gyda chynlluniau i gynnal arwerthiant o sbectrwm gwerthfawr ar 2.6 GHz a 800 MHz, sef arwerthiant sbectrwm mwyaf y DU, a fydd yn dechrau ddiwedd 2012;
- cynghori ar ddyfodol ITV, STV, UTV a Channel 5, gan gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol am drefniadau trwyddedau yn y dyfodol ar gyfer y sianeli pan ddaw'r trwyddedau presennol i ben ddiwedd 2014;
- paratoi i drwyddedu dros 20 o orsafoedd teledu lleol ar draws y DU erbyn 2015; a
- diogelu cyflenwad o rifau ffôn daearyddol yn y dyfodol i ddarparwyr cyfathrebu a rhoi mwy o eglurder ynghylch cost ffonio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol (fel 08, 09 ac 118).

Yn dilyn ein gwaith i ddeall problemau ardaloedd di-gyswllt ffonau symudol, rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar y ffordd orau o ddyrannu ei chronfa gwerth £150 miliwn i fynd i'r afael â'r broblem. Fel rhan o'n hail ymgynghoriad ar yr arwerthiant sbectrwm 4G, roeddem yn cynnig mesurau i sicrhau y byddai'r arian hwn hefyd yn galluogi cyflwyno gwasanaethau symudol y genhedlaeth nesaf yn yr ardaloedd hyn sy'n anodd eu cyrraedd.

Mae Adran B yr adroddiad hwn, sy'n dechrau ar dudalen 11, yn rhoi rhagor o fanylion am waith Ofcom yn 2011/12 a sut y mae hyn wedi bod o fudd i ddefnyddwyr.

## Ymchwiliadau i'r cyfryngau

Un pwnc sydd wedi bod yn amlwg iawn yn y cyfryngau dros y 12 mis diwethaf fu rheoleiddio'r cyfryngau yn y dyfodol. Arweiniodd honiadau am hacio ffonau at Ymchwiliad Leveson i ddiwylliant, arferion a moeseg y wasg. Mae Ofcom wedi cyflwyno tystiolaeth lafar a nifer o ddatganiadau ysgrifenedig i'r ymchwiliad hwnnw.

Yn ein hadroddiad y llynedd ar y prawf budd cyhoeddus mewn perthynas â chynnig News Corporation i brynu'r cyfranddaliadau yn BSkyB nad yw'n berchen arnynt yn barod, roedd Ofcom wedi awgrymu y dylid adolygu'r fframwaith presennol ar gyfer asesu lluosogrwydd. Ym mis Hydref 2011, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfres o gwestiynau i Ofcom ar asesu lluosogrwydd y cyfryngau. Darparodd Ofcom atebion i'r cwestiynau hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i Ymchwiliad Leveson ac mae'n disgwyl darparu rhagor o waith i'r Ysgrifennydd Gwladol yn 2012/13.

Mae Ofcom yn adolygu'r dystiolaeth sy'n dod i'r fei yn ystod Ymchwiliad Leveson ac mewn mannau eraill, sy'n ymwneud â hacio ffonau a gweithgareddau eraill papurau newydd sy'n berchen i News International, os ystyrir bod hynny'n berthnasol i'n dyletswydd barhaus i sicrhau bod y rheini sy'n dal trwyddedau, fel BSkyB, yn addas ac yn briodol i ddal trwyddedau.

## Lleihau ein gwariant

Mae Ofcom wedi cyflawni ei waith yn 2011/12 gyda chyllideb lai o lawer. Roedd hyn yn dilyn adolygiad mawr y llynedd o wariant Ofcom, er mwyn dod o hyd i arbedion mewn ymateb i'r sialens sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol. Roedd Ofcom yn adeiladu ar ei enw da am dorri ei gyllideb o un flwyddyn i'r llall i leihau ei faich ar drethdalwyr a rhanddeiliaid. Roedd adolygiad mewnol yn dangos bod Ofcom wedi parhau i ddarparu allbynnau i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion (fel y nodir yn Adran B yr adroddiad hwn) ac mae wedi cynnal ansawdd ar yr un pryd â gweithredu o dan gyllideb lai.

2011/12 oedd blwyddyn gyntaf rhaglen pedair blynedd o hyd i leihau cyllideb Ofcom 28.2 y cant mewn termau real, fel sy'n ofynnol gan Drysorlys EM yn dilyn ei Adolygiad o Wariant yn 2010. Mewn ymgais i newid siâp a ffocws y sefydliad, cafodd y rhan fwyaf o'r toriadau eu gwneud yn ystod blwyddyn un.

£115.8m oedd cyllideb graidd Ofcom ar gyfer 2011/12. Ym mis Hydref 2011 ysgwyddodd Ofcom y cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau post. Cyllideb Postcomm ar gyfer yr un flwyddyn ariannol oedd £8.9m.

Roedd alldro archwiliedig Ofcom ar gyfer 2011/12 yn £108.7m, oddeutu 9 y cant yn is na chyllideb Ofcom a ddiwygiwyd i ddarparu ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post o fis Hydref 2011 ymlaen. Roedd y tan wariant yn erbyn y gyllideb yn deillio'n bennaf o fwy o effeithlonrwydd wrth reoleiddio gwasanaethau post ac oedi oherwydd ymgyfreitha ynghylch gweithredu dyletswyddau newydd Ofcom o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol, sydd wedi'i hanelu at fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein.

Mae Adran D yr adroddiad hwn, sy'n dechrau ar dudalen 70, yn rhoi rhagor o fanylion am wariant Ofcom.

## Blaenoriaethau ar gyfer 2012/13

Bydd cyllideb Ofcom ar gyfer 2012/13, sef £121.4m, yn gweld gostyngiad pellach o 6.1 y cant mewn termau real yng nghostau rheoleiddio. Bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio i gyflawni gwaith pwysig ar draws y sector cyfathrebu ac, yn benodol, pum blaenoriaeth strategol. Sef:

- hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys hybu buddsoddiad a chystadleuaeth mewn band eang cyflym iawn yn ogystal â sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y marchnadoedd cysylltedd busnes a llinellau sefydlog;
- hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys rhyddhau rhai o'r darnau gorau o sbectrwm a diogelu'r amleddau angenrheidiol ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain;
- helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl ddarparwyr cyfathrebu'n darparu gwybodaeth glir er mwyn i ddefnyddwyr allu gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth a newid darparwyr yn rhwydd. Bydd gwaith arall yn cynnwys diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol a chanfod anghenion defnyddwyr post. Ar ben hynny, bydd y gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir yng ngwledydd y DU yn cael eu hasesu.
- darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd am safonau. Mae hyn yn cynnwys cynnal adolygiad o reoleiddio fideo ar alwad ac ystyried dulliau yn y dyfodol o reoleiddio cynnwys; a
- chyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan Senedd y DU, a'i weithredu. Mae hyn yn cynnwys cynghori Llywodraeth y DU ar fesur lluosogrwydd y cyfryngau, cyfrannu at Ymchwiliad Leveson a rhoi darpariaethau ar waith sy'n ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein. Mae hefyd yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth y DU i hybu band eang cyflym iawn yn eang a lleihau mannau di-gyswllt ffonau symudol yn y DU.



**Ed Richards**
Prif Weithredwr

# Golwg gyffredinol ar y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio

Mae'r sector cyfathrebu yn chwarae rhan bwysig ym mywydau defnyddwyr a dinasyddion y DU.

Mae bron i hanner yr amser y mae pobl ar ddihun yn cael ei dreulio yn defnyddio cyfryngau a chyfathrebu ac mae defnyddwyr yn rhoi cryn werth ar wasanaethau cyfathrebu wrth gymharu â gweithgareddau eraill.

Mae gan Ofcom ymrwymiad i gynnal a chyhoeddi ymchwil marchnad a defnyddwyr er mwyn cyfrannu at ein gwaith. Mae'r ymchwil hwn yn defnyddio ystod eang o fesuriadau gan edrych ar y nifer sy'n prynu, ac yn defnyddio a bodlonrwydd pobl, sy'n dal yn uchel yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio.

## Teledu

**Gwylio teledu**

242 munud y pen fesul diwrnod yn 2010

▶ **242 munud y pen fesul diwrnod yn 2011**

**Teledu digidol yn y cartref**

93% o gartrefi yn 2010

▲ **94% o gartrefi yn 2011**

**Bodlonrwydd â gwasanaeth teledu daearol digidol**

89% yn 2010

▲ **90% yn 2011**

## Radio

**Gwrando ar y radio**

20.1 awr y pen fesul wythnos yn 2010

▲ **20.4 awr y pen fesul wythnos yn 2011**

**Radio digidol yn y cartref**

34% yn 2010

▲ **40% yn 2011**

Mae'r holl ddata'n seiliedig ar ymchwil Ofcom

## Rhyngrwyd

**Band eang yn y cartref**

75% o gartrefi yn 2010

▲ **76% o gartrefi yn 2011**

**Cyflymder cyfartalog band eang**

6.2Mbit yr eiliad ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2010

▲ **7.2Mbit yr eiliad ym mis Tachwedd 2011**

**Defnyddio'r rhyngrwyd**

15 awr y pen fesul mis yn 2010

▼ **14 awr y pen fesul mis yn 2011**

**Bodlonrwydd â gwasanaeth band eang**

80% yn 2010

▲ **81% yn 2011**

## Post

**Defnyddio (swmp)**

16.0 biliwn eitem yn 2010

▼ **15.2 biliwn eitem yn 2011**

**Bodlonrwydd â chyflymder y gwasanaeth**

**68% yn 2011**

## Ffonau symudol

**Bod yn berchen ar ffôn symudol**

91% o oedolion yn 2010

▶ **91% o oedolion yn 2011**

**Defnyddio ffôn symudol**

125 biliwn munud yn 2010

▼ **124 biliwn munud yn 2011**

**Defnyddio ffôn symudol (negeseuon testun)**

128 biliwn neges yn 2010

▲ **151 biliwn neges yn 2011**

**Bodlonrwydd**

91% yn 2010

▲ **92% yn 2011**

## Ffôn llinell sefydlog

**Ffôn yn y cartref**

86% o gartrefi yn 2010

▼ **84% o gartrefi yn 2011**

**Defnyddio**

129 biliwn munud yn 2010

▼ **116 biliwn munud yn 2011**

**Bodlonrwydd**

88% yn 2010

▲ **89% yn 2011**

# Cynnydd ar gyflawni blaenoriaethau ein cynllun blynyddol



Prif ddyletswydd Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth.

Mae'r prif ddyletswydd hon wedi'i hymgorffori yn ein pum diben strategol, ac o dan y rheini roedd ein 13 blaenoriaeth ar gyfer 2011/12.

Rydym wedi asesu pa mor llwyddiannus roeddem wedi cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer 2011/12 yn ôl y canlyniadau cadarnhaol rydym yn ceisio'u sicrhau i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr. I gyflawni hyn, rydym wedi categoreiddio ein cynnydd tuag at y canlyniadau interim a therfynol a nodwyd, ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau.

Mae canlyniadau'n disgrifio'r hyn rydym yn disgwyl a fydd yn digwydd o ganlyniad i'n gweithredoedd a'n penderfyniadau. Gall canlyniad interim gynnwys nifer o newidiadau llai y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r canlyniad terfynol. O ganlyniad i newid cyflym yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio, ni allwn bob amser reoli canlyniadau ein gwaith yn gyfan gwbl.

Yn y tabl gyferbyn, ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, rydym wedi neilltuo statws ar gyfer pob un o'r cwestiynau canlynol:

- Ydym ni wedi gwneud yr hyn roeddem wedi'i ddweud y byddem yn ei wneud?
- A fu hynny mor effeithiol ag roeddem wedi'i fwriadu?
- Pa gynnydd ydym wedi'i wneud o ran cyflawni'r canlyniad(au) interim?
- Pa gynnydd ydym wedi'i wneud o ran cyflawni'r canlyniad(au) terfynol?

Mae'r colofnau olaf yn rhoi sylw i werth y gwaith a oedd yn y gyllideb, a ragwelwyd a gwerth go iawn y gwaith:

- Gwerth y gwaith yn y gyllideb – Gwerth disgwyliedig y gwaith ar gyfer y gweithgareddau ar 1 Ebrill 2011.
- Rhagolwg hanner blwyddyn o werth y gwaith – Y rhagolwg ar gyfer y flwyddyn lawn ar 30 Medi 2011.
- Gwerth y gwaith wedi'i gwblhau – Gwerth go iawn y gwaith a oedd wedi'i gwblhau hyd at 31 Mawrth 2012.

Mae rhai blaenoriaethau a chanlyniadau a nodwyd yn 2011/12 yn berthnasol i nifer o flynyddoedd, ac maent wedi parhau i 2012/13.

| Blaenoriaeth | Beth rydym wedi'i wneud | Ydym ni wedi gwneud beth roeddem wedi'i ddweud? | A oedd mor effeithiol â'r bwriad? | Canlyniad interim | Canlyniad terfynol | Gwerth y gwaith a gyllidebwyd (£k) | Ail ragolwg o werth y gwaith (£k) | Gwerth y gwaith a gwblhawyd (£k) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diben craidd: Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy** | | | | | | | | |
| Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad i gyflenwi band eang cyflym iawn | • Roedd ein gwaith gyda BT Openreach wedi cyfrannu at ostyngiadau sylweddol mewn prisiau ar gyfer cael mynediad i bibelli a pholion BT (a ddyluniwyd i gefnogi buddsoddiad mewn NGA)<br>• Darparu cymorth parhaus i'r diwydiant ynghylch gweithredu gwasanaethau cyfanwerthu cyflym iawn Openreach | ● (green) | ● (orange) | ● (orange) | ● (teal) | 1,553 | 1,516 | 1,790 |
| | | | | | | Mwy o gymhlethdod mewn Rheolaeth Ffioedd Llinellau Les ac Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes ar y cyd â datblygu rhai agweddau ar y gwaith wedi arwain at wariant uwch yn ystod 2011/12 | | |
| Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth gyflenwi gwasanaethau teledu drwy dalu | • Amddiffyn ein penderfyniad i fynnu bod BSkyB yn cynnig Sky Sports i adwerthwyr ar lwyfannau eraill yn y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth | ● (green) | ● (orange) | ● (orange) | ● (teal) | 2,133 | 2,161 | 1,774 |
| | | | | | | Proses apelio yn erbyn datganiad Teledu drwy Dalu yn hirach na'r disgwyl a heb ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2012. O ganlyniad mae'r gwariant yn 2011/12 yn is na'r disgwyl. | | |
| **Diben craidd: Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon** | | | | | | | | |
| Paratoi ar gyfer arwerthiannau bandiau sbectrwm 600 MHz, 800 MHz a 2.6 GHz | • Ymgynghori ar faterion sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn marchnadoedd symudol sy'n deillio o'r cynigion i ddefnyddio'r sbectrwm<br>• Ymgynghori ynghylch cynigion sydd wedi'u mireinio ymhellach | ● (orange) | ● (orange) | ● (orange) | ● (teal) | 2,423 | 1,963 | 1,685 |
| | | | | | | Mae cynnal ymgynghoriad arall wedi golygu gohirio cyhoeddi'r Memorandwm Gwybodaeth a'r Arwerthiant sydd wedi effeithio ar amseru'r gwariant. | | |
| Clirio sbectrwm yn amserol i alluogi dyfarniadau newydd | • Ymgynghori ar ddiogelu gwasanaethau teledu digidol rhag ymyrraeth<br>• Rhoi cyllid i ddefnyddwyr sianel 69 symud<br>• Cyfleuster profi newydd ar gyfer Dyfeisiau Ystod Byr | ● (orange) | ● (orange) | ● (orange) | ● (teal) | 1,670 | 1,797 | 1,613 |
| Datblygu rhaglen gwaith polisi sbectrwm sy'n edrych tua'r dyfodol, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad a'r galw am sbectrwm yn y dyfodol | • Ymgynghori ynghylch y galw yn y tymor hir<br>• Ymgynghori ynghylch dyfodol band UHF<br>• Cyhoeddi Galwad am Fewnbwn i gyfrannu at benderfyniad ar hyd a lled yr adolygiad o Fand Dolenni Sefydlog ac wedi'u Rhannu | ● (orange) | ● (teal) | ● (teal) | ● (teal) | 2,307 | 2,601 | 2,716 |
| | | | | | | Gwaith a gwariant ar Ardaloedd Di-gyswllt Symudol a Theledu Lleol heb eu cynllunio'n wreiddiol ar gyfer 2011/12. Penderfyniad strategol hefyd wedi cael ei wneud i ganolbwyntio ar UHF. | | |
| Cyflawni gwarant sbectrwm y Llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain | • Adeiladu a phrofi system neilltuo sbectrwm<br>• Adeiladu rhwydwaith synhwyrydd<br>• Dyrannu amleddau sbectrwm<br>• Cymryd rhan mewn digwyddiadau profi | ● (green) | ● (green) | ● (teal) | ● (teal) | 4,054 | 4,337 | 4,624 |
| | | | | | | Wedi cymryd cyfle i gyflymu'r gwaith paratoi ar gyfer Rheoli Ymyrraeth Sbectrwm, logisteg a hyfforddiant cydweithwyr sydd wedi effeithio ar amseru'r gwariant. | | |
| **Diben craidd: Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr** | | | | | | | | |
| Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn gwella hwylustod newid rhwng darparwyr cyfathrebu i ddefnyddwyr | • Gwahardd contractau sy'n adnewyddu'n awtomatig<br>• Ymgynghori ynghylch mesurau i'w gwneud hi'n haws newid darparwyr | ● (orange) | ● (teal) | ● (teal) | ● (teal) | 521 | 596 | 566 |

● (green) Rydym wedi gwneud yr hyn roeddem wedi'i ddweud y byddem yn ei wneud
● (orange) Rydym yn dal i symud ymlaen at gyflawni'r flaenoriaeth
● (red) Nid ydym wedi symud ymlaen cymaint ag oeddem yn meddwl y byddem yn ei wneud
● (teal) Mae hi'n rhy gynnar asesu ein cynnydd

| Blaenoriaeth | Beth rydym wedi'i wneud | Ydym ni wedi gwneud beth roeddem wedi'i ddweud? | A oedd mor effeithiol â'r bwriad? | Canlyniad interim | Canlyniad terfynol | Gwerth y gwaith a gyllidebwyd (£k) | Ail ragolwg o werth y gwaith (£k) | Gwerth y gwaith a gwblhawyd (£k) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diben craidd: Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr** | | | | | | | | |
| Sicrhau bod darparwyr cyfathrebu yn darparu gwybodaeth glir er mwyn i ddefnyddwyr band eang allu gwneud dewisiadau gwybodus | • Cyhoeddi dau adroddiad ar gyflymder ar gyfer band eang sefydlog<br>• Adrodd ar berfformiad band eang symudol<br>• Cyhoeddi prawf cydymffurfiad ar God Ymarfer cyflymder band eang<br>• Cyhoeddi adroddiad ar reoli traffig ac mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i ddeall profiad y defnyddiwr ac a oes angen ymyriad ar dryloywder. | [green] | [green] | [green] | [green] | 839 | 945 | 938 |
| | | | | | | Ton ychwanegol o ymchwil wedi'i gwneud mewn perthynas ag ansawdd band eang gwasanaeth nad oedd wedi'i gynllunio'n wreiddiol yn 2011/12 | | |
| **Diben craidd: Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau** | | | | | | | | |
| Gweithredu gweithdrefnau safonau darlledu wedi'u symleiddio | • Cyhoeddi a gweithredu gweithdrefnau wedi'u diwygio ar gyfer ymchwiliadau a sancsiynau darlledu | [green] | [green] | [green] | [green] | Daeth y gwaith paratoi a'r gwariant i ben yn 2010/11. Cafodd gweithdrefnau newydd eu gwreiddio mewn busnes arferol yn ystod 2011/12 heb gostau ychwanegol. | | |
| Ystyried dulliau rheoleiddio newydd i reoleiddio cynnwys | • Cyhoeddi ymchwil annibynnol ar ddisgwyliadau a blaenoriaethau'r cyhoedd | [green] | [orange] | [orange] | [blue] | 118 | 498 | 539 |
| | | | | | | Roedd y cymhlethdod yn golygu bod angen ymchwil annibynnol ac adnoddau ychwanegol ar ben y cynllun gwreiddiol. | | |
| **Diben craidd: Cyfrannu at bolisi cyhoeddus** | | | | | | | | |
| Paratoi ar gyfer dyletswyddau rheoleiddio mewn perthynas â fframwaith rheoleiddio post a'u cyflawni | • Dod yn gyfrifol am reoleiddio post<br>• Ymgynghori ynghylch a chyhoeddi penderfyniad ar fframwaith rheoleiddio, prisio a diogelwch | [green] | [orange] | [blue] | [blue] | 2,459 | 4,575 | 3,230 |
| | | | | | | Wedi cyflawni arbedion sylweddol yn ystod y broses integreiddio. Mae llai o reoleiddio wedi arwain at arbedion wrth gyflawni ein dyletswyddau parhaus mewn perthynas â gwasanaethau post. | | |
| **Diben craidd: Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd** | | | | | | | | |
| Gweithredu darpariaethau torri hawlfraint ar-lein Deddf yr Economi Ddigidol 2010 | • Yn aros am gymeradwyaeth y Llywodraeth i'n Cod Dyletswyddau Cychwynnol drafft<br>• Bydd cymeradwyaeth yn caniatáu i ni gyhoeddi'r Cod drafft, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd i'w ystyried. Yn dilyn y broses hon, caiff y Cod drafft ei osod gerbron y Senedd.<br>• Ar y cyd, gallwn gyhoeddi ein dogfen ymgynghori ar osod tariffau. | [orange] | [blue] | [blue] | [blue] | 2,974 | 1,149 | 407 |
| | | | | | | Roedd oedi cyn cyhoeddi'r Cod yn sgil Adolygiad Barnwrol o Ddeddf yr Economi Ddigidol ac oherwydd anawsterau wrth gymeradwyo'r Cod. | | |
| Paratoi adroddiad statudol i'r Llywodraeth ar drefniadau trwyddedu ar gyfer sianeli 3 a 5 ar ôl 2014 | • Cyflwyno adroddiad ar drefniadau trwyddedu i'r Ysgrifennydd Gwladol | [green] | [orange] | [blue] | [blue] | 210 | 200 | 233 |

Nodyn: Mae gwerthoedd y gwaith a ddangosir yn seiliedig ar gostau mewnol ac allanol gweithgareddau cysylltiedig (Heb gynnwys unrhyw gyfran o gostau cyffredinol). Caiff rhanddeiliaid eu bilio yn unol â'n Datganiad o Egwyddorion Codi Ffioedd ac nid ar gost uniongyrchol gweithgarwch yn unig.

- [green] Rydym wedi gwneud yr hyn roeddem wedi'i ddweud y byddem yn ei wneud
- [orange] Rydym yn dal i symud ymlaen at gyflawni'r flaenoriaeth
- [red] Nid ydym wedi symud ymlaen cymaint ag oeddem yn meddwl y byddem yn ei wneud
- [blue] Mae hi'n rhy gynnar asesu ein cynnydd

# Cynnydd ar gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol

Ein nod yw cyflawni'r amcanion ym mlaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol. Mae'r adran hon yn egluro ein perfformiad wrth gymharu â'r blaenoriaethau hyn ac yn rhoi manylion ein hamcanion, pa gamau roeddem wedi'u cymryd a beth oedd y canlyniadau i ddefnyddwyr.



## Ein hamcan

### Hybu buddsoddiad a chystadleuaeth i gyflenwi band eang cyflym iawn

Bu buddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau band eang dros y degawd diwethaf, sydd wedi arwain at gystadleuaeth iach, nifer uchel o ddefnyddwyr yn defnyddio'r dechnoleg a chynnydd rheolaidd mewn cyflymder band eang. Fodd bynnag, mae cyflymder band eang wedi cyrraedd pwynt sy'n galw am fuddsoddiad newydd er mwyn cyrraedd y lefel nesaf. Ein nod yw creu amgylchedd sy'n rhoi hyder i ddarpar fuddsoddwyr, gan eu galluogi i gyflwyno achos drwy ddarparu rhwydweithiau cyflym iawn. Ar yr un pryd, rydym yn awyddus i gynnal cystadleuaeth er mwyn i ddefnyddwyr gael dewis o wasanaethau a darparwyr.

### Beth wnaethom ni

Ym mis Hydref 2010, roeddem wedi cyflwyno ein fframwaith rheoleiddio yn y maes hwn. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i BT agor mynediad i'w bibelli a'i bolion, a fyddai'n rhoi'r cyfle i gwmnïau eraill fuddsoddi mewn rhwydweithiau band eang cyflym iawn. Roeddem hefyd wedi mynnu bod BT yn cynnig 'rhith' fynediad wedi'i ddadfwndelu i'w rwydwaith ffibr cenhedlaeth nesaf, er mwyn i eraill allu cystadlu a chynnig gwasanaethau band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr. Rhan allweddol o'n fframwaith rheoleiddio yw rhoi hyblygrwydd prisio i gwmnïau sy'n buddsoddi mewn rhwydweithiau band eang cyflym iawn newydd.

Ar ôl i ni fynnu bod BT yn cynnig mynediad i'w rwydwaith o bibelli tanddaearol a'i bolion telegraff er mwyn caniatáu i gwmnïau gynnig gwasanaethau band eang cyflym iawn, cyhoeddodd BT brisiau ar gyfer y rhain ym mis Hydref 2011. Mae'r prisiau hyn ymysg yr isaf, os nad yr isaf, ar gyfer cynnyrch tebyg mewn llefydd eraill yn Ewrop. Mewn ardaloedd lle nad oes gan BT gynlluniau masnachol i fuddsoddi, bydd mynediad i'r pibelli a'r polion hyn yn caniatáu i ddarparwyr eraill wneud cais am y cyllid a fydd ar gael gan Broadband Delivery UK (BDUK), rhan o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), mewn cystadleuaeth â'i gilydd ac â BT.

Roeddem hefyd wedi cyhoeddi rhagor o ymchwil i gyflymder band eang, sy'n helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus wrth ddewis cyflenwr band eang. Rydym yn bwriadu dal ati i fonitro beth sydd ar gael a faint sy'n ei ddefnyddio drwy gyhoeddi adroddiadau rheolaidd, gan adeiladu ar ein *Hadroddiad Seilwaith* yn 2011.

### Canlyniad

Mae BT ran o'r ffordd drwy fuddsoddi £2.5bn mewn defnyddio mynediad y genhedlaeth nesaf, sy'n ceisio darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn i oddeutu 66 y cant o boblogaeth y DU. Roedd BT wedi cyrraedd dros saith miliwn eiddo yn y DU erbyn mis Mawrth 2012.

Mae Virgin Media wedi parhau i fuddsoddi mewn cynyddu'r capasiti yn ei rwydwaith, gan gynnig gwasanaethau hyd at 100 Mbit yr eiliad. Ym mis Chwefror 2012, dywedodd y cwmni y byddai'n dyblu cyflymder ei fand eang dros y 18 mis nesaf, ac eithrio ei wasanaeth 100 Mbit yr eiliad, a fydd yn cynyddu i 120 Mbit yr eiliad.

Rydym yn amcangyfrif bod band eang cyflym iawn nawr ar gael i oddeutu 63 y cant o'r DU, gyda'r prif gyflymder yn cyrraedd hyd at 100 Mbit yr eiliad. Mae mwy a mwy o ddefnyddwyr – dros 1.1. miliwn ddiwedd mis Rhagfyr 2011 – yn cael gwasanaethau band eang cyflym iawn sydd â chyflymder o 30 Mbit yr eiliad neu fwy.

Erbyn diwedd mis Ebrill 2012 roedd nifer o ddarparwyr cyfathrebu yn defnyddio neu'n profi llinellau ffibr BT i ddarparu gwasanaethau band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr yn y DU. Ar wahân, mae Llywodraeth y DU hefyd yn symud ymlaen gyda'i chynlluniau i roi cymhorthdal ar gyfer darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn mewn ardaloedd lle nad oes dim cynlluniau masnachol ar hyn o bryd. Mae BDUK yn goruchwylio'r broses gaffael ar gyfer hyn.

## Ein hamcan

### Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth gyflenwi gwasanaethau teledu drwy dalu

Ym mis Mawrth 2010, roeddem wedi dweud y byddai defnyddwyr yn elwa petai Sky Sports 1 a 2 yn cael eu cynnig i adwerthwyr a oedd yn gystadleuwyr ar lwyfannau ar wahân i Sky, ac am brisiau wedi'u rheoleiddio ar gyfer fersiynau SD y sianeli. Roeddem hefyd wedi ymgynghori ynghylch cyfeiriad ymchwiliad i'r farchnad i'r Comisiwn Cystadleuaeth ynghylch ffilmiau.



#### Beth wnaethom ni

Roedd ein penderfyniad yn golygu bod y darparwyr teledu drwy dalu Virgin Media, BT Vision a Top Up TV yn gallu adwerthu Sky Sports i wylwyr ar sail y pris cyfanwerthu newydd wedi'i reoleiddio, mewn da bryd ar gyfer tymor 2010/11 Uwchgynghrair Lloegr. Roeddem hefyd wedi cyfeirio gwerthu a dosbarthu ffilmiau teledu drwy dalu premiwm i'r Comisiwn Cystadleuaeth. Mae ffilmiau o Hollywood sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn bwysig ar gyfer nifer o ddefnyddwyr wrth gofrestru ar gyfer gwasanaeth teledu drwy dalu. Rydym yn poeni bod y ffordd mae'r ffilmiau hyn yn cael eu gwerthu a'u dosbarthu wedi creu sefyllfa sy'n golygu bod gan Sky y cymhelliant a'r gallu i ystumio cystadleuaeth – sy'n arwain at lai o ddewis, llai o arloesi a phrisiau uwch i ddefnyddwyr.

#### Canlyniad

Mae ein penderfyniad ar Sky Sports yn destun apêl gan Sky, Uwchgynghrair Pêl-droed Lloegr, Virgin Media a BT i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r penderfyniad mae Sky Sports 1 a Sky Sports 2 eisoes ar gael gan ystod ehangach o adwerthwyr teledu drwy dalu. Yn benodol, gall gwylwyr brynu'r sianeli chwaraeon premiwm hyn drwy eu herial teledu yn hytrach na drwy wasanaethau lloeren neu gebl, sy'n gwella dewis ac yn hybu arloesedd.

Rydym yn disgwyl i'r Comisiwn Cystadleuaeth gyhoeddi ei adroddiad terfynol ar ffilmiau tua diwedd mis Gorffennaf 2012.

# Ein hamcan

## Paratoi ar gyfer arwerthiannau bandiau sbectrwm 600 MHz, 800 MHz a 2.6 GHz

'Sbectrwm' yw'r tonnau awyr sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau di-wifr, fel teledu, radio a ffonau symudol. Mae'n adnodd gwerthfawr oherwydd dim ond hyn a hyn ohono sydd ar gael, ond, drwy gynllunio'n ofalus, bydd dinasyddion a defnyddwyr yn y DU yn elwa'n sylweddol o lansio gwasanaethau newydd drwy ddefnyddio'r sbectrwm hwn.

Mae Ofcom wrthi'n cynllunio'r arwerthiant mwyaf erioed o sbectrwm ychwanegol ar gyfer gwasanaethau symudol yn y DU, mae'n gyfystyr â thri chwarter o'r sbectrwm symudol sy'n cael ei ddefnyddio heddiw, a 80 y cant yn fwy na'r arwerthiant 3G a gynhaliodd Llywodraeth y DU yn 2000.

Mae'r capasiti newydd hwn yn hanfodol er mwyn diwallu'r galw cynyddol am ryngrwyd a data symudol. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cynyddu dros 500 y cant yng Ngorllewin Ewrop dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r capasiti (neu'r 'difidend digidol') yn cael ei greu wrth i'r DU newid o analog i deledu daearol digidol (Freeview) sy'n defnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon. Bydd hyn yn rhyddhau'r tonnau awyr yn y band 800 MHz, y mae Ofcom yn bwriadu ei arwerthu, ynghyd â sbectrwm amledd uwch yn y band 2.6 GHz, o ddiwedd 2012 ymlaen, er mwyn gallu lansio gwasanaethau symudol 4G.

### Beth wnaethom ni

Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2011, roedd Ofcom wedi ymgynghori ynghylch sut roedd defnyddio'r sbectrwm hwn yn debyg o effeithio ar gystadleuaeth yn y dyfodol yn y marchnadoedd telathrebu symudol. Ar sail hyn, roeddem wedi amlinellu nifer o gynigion ar gyfer sut y dylid arwerthu'r sbectrwm.

Roedd yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad hwn a'r dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â dadansoddiad pellach gan Ofcom, wedi ein helpu i ddatblygu a mireinio ein cynigion. Ym mis Ionawr 2012, roeddem wedi cyflwyno cynlluniau pellach ar gyfer sut y dylid darparu sbectrwm yn y DU. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau i ymestyn darpariaeth symudol 4G i o leiaf 98 y cant o boblogaeth y DU a chynlluniau diwygiedig i hybu cystadleuaeth. Er mwyn darparu ar gyfer yr ymatebion i'r ail ymgynghoriad hwn, ynghyd â'n dadansoddiadau ein hunain, rydym wedi gorfod symud yr arwerthiant yn ôl i'w gynnal yn 2012/13 yn hytrach na 2011/12 fel roeddem wedi'i gynnig.

### Canlyniad

Mae Ofcom wedi cwblhau'r cam cyntaf i baratoi ar gyfer rhyddhau mwy o sbectrwm yn y DU nag sydd wedi cael ei ryddhau ers nifer o flynyddoedd. Bydd y cynigion rydym wedi'u hamlinellu yn dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt.

Wrth i'r DU symud i'r genhedlaeth nesaf o gyfathrebu symudol, amcanion Ofcom yw hybu cystadleuaeth effeithiol ac ysgogi buddsoddiad ac arloesedd. Mae'r DU yn elwa o fod yn un o'r marchnadoedd ffonau symudol mwyaf cystadleuol yn Ewrop, yn ôl ein hymchwil . Mae hyn yn golygu bod defnyddwyr yn talu llai am wasanaethau symudol a'u bod yn gallu chwilio a chymharu i ddod o hyd i'r pecynnau sydd fwyaf addas iddyn nhw.

Ar ben hynny, rydym yn cynnig gwella band eang symudol yn sylweddol, gan ymestyn darpariaeth 4G i gyfateb – a hyd yn oed mynd tu hwnt – i ddarpariaeth 2G presennol, gan helpu i wasanaethu nifer o ardaloedd yn y DU nad ydynt wedi cael eu gwasanaethu'n dda gan ddarpariaeth symudol yn draddodiadol.

Gyda golwg ar sbectrwm 600 MHz, rydym yn gweithio i sicrhau bod penderfyniadau tymor agosach ynghylch ei ryddhau yn cyd-fynd â manteision ac amcanion tymor hwy i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion. Rhaid i ni gydbwyso buddiannau mynediad am ddim parhaus i wasanaethau teledu daearol digidol â'r twf yn y galw am wasanaethau band eang di-wifr yn Ewrop, Affrica a'r Dwyrain Canol. Roedd Cynhadledd Radio'r Byd yn 2012 (WRC 12) wedi pasio cynnig i alluogi defnyddio'r band 700 MHz ar gyfer band eang symudol ar ôl Cynhadledd Radio'r Byd nesaf yn 2015. Gallai hyn olygu goblygiadau o ran sut caiff y

[1] Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu Ryngwladol 2011, Dadansoddiad o Feincnodi Prisiau







sbectrwm 600 MHz ei ddefnyddio.

## Ein hamcan

### Sicrhau bod sbectrwm yn cael ei glirio'n amserol i alluogi dyfarniadau newydd

Bydd y sbectrwm newydd bydd Ofcom yn ei arwerthu yn y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz ddiwedd 2012 yn darparu capasiti mawr ei angen ar gyfer technoleg symudol 4G, a fydd yn darparu gwasanaethau band eang symudol cyflymach o lawer – sy'n agos at gyflymder band eang ADSL yn y cartref heddiw.

Fodd bynnag, cyn i gwmnïau ffonau symudol allu defnyddio'r sbectrwm hwn, rhaid ei glirio o'r defnyddwyr presennol. Ar hyn o bryd mae darlledwyr teledu daearol digidol ac analog a defnyddwyr meicroffonau di-wifr yn defnyddio'r sbectrwm hwn. Mae Ofcom yn ymgymryd â rhaglen waith fawr i adleoli'r defnyddwyr hyn i amleddau eraill.

Rhaid i ni hefyd wneud yn siŵr bod defnyddwyr sbectrwm yn y bandiau cyfagos yn gallu cydfodoli'n ddiogel gyda'u cymdogion 4G newydd. Mae dau ddefnyddiwr allweddol yn cynnwys teledu daearol digidol (Freeview) a radar awyrenegol. Mae cyfran uchel o gartrefi'r DU yn dibynnu ar deledu daearol digidol ar gyfer o leiaf rhywfaint o'r teledu maent yn ei wylio, felly rhaid i ni reoli'r newidiadau amledd yn ofalus er mwyn clirio'r band 800 MHz. Yn yr un modd, roeddem wedi dod o hyd i broblem bosibl gydag ymyrraeth mewn radar awyrenegol o wasanaethau symudol yn y dyfodol yn y band 2.6 GHz.

#### Beth wnaethom ni

Er mis Mawrth 2011 ymlaen, rydym wedi dechrau gwneud taliadau o dan y cynllun cyllido i helpu defnyddwyr meicroffonau di-wifr i symud allan o sianel 69, ar frig y band 800 MHz. Bydd y cynllun yn rhedeg tan ddiwedd 2012/13.

Drwy gydol y flwyddyn roeddem wedi parhau i weithio gyda gweithredwyr aml-blecs, Digital UK ac Arqiva, i glirio teledu daearol digidol o sianeli 61 a 62 ar waelod y band 800 MHz, gan asesu ceisiadau a gwneud taliadau a oedd yn berthnasol i'r costau o gyflawni'r gwaith hwn.

Roeddem hefyd wedi parhau i weithio'n agos gyda rhaglen adfer radar Llywodraeth y DU, a oedd yn cynnwys yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yr Adran Drafnidiaeth, y Weinyddiaeth Amddiffyn a chyda chefnogaeth yr Awdurdod Hedfan Sifil ac Ofcom, i gefnogi gweithredwyr radar awyrenegol wrth gynllunio a gweithredu'r newidiadau i'w radar sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i weithredu'n ddiogelu ym mhresenoldeb allyriadau o'r band 2.6 GHz.

Rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2012, roedd Ofcom wedi ymgynghori ar y trefniadau i ddiogelu gwasanaethau teledu daearol digidol presennol rhag ymyrraeth o fand eang symudol. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU ar 21 Chwefror 2012 yn amlinellu nifer o benderfyniadau polisi yn y maes hwn, gan gynnwys penderfyniad i ddyrannu £180m i dalu am atebion defnyddwyr i ymyrraeth i signal teledu sy'n deillio o wasanaethau symudol newydd. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi penderfynu y bydd y cynllun hwn yn cael ei oruchwylio gan gwmni a fydd yn cael ei reoli gan y gweithredwyr sy'n prynu'r sbectrwm 800 MHz. Roeddem wedi ymgynghori ynghylch sut bydd Ofcom yn gweithredu'r penderfyniadau polisi hyn.

Ym mis Mawrth 2012, roeddem wedi darparu cyfleuster profi newydd ar gyfer gweithgynhyrchwyr Dyfeisiau Ystod Byr (SRD). Mae Dyfeisiau Ystodau Byr yn cynnwys ystod eang o gynnyrch sy'n amrywio o feicroffonau di-wifr i larymau cymdeithasol, sy'n gweithredu wrth ymyl brig y band 800 MHz. Cafodd y cyfleuster profi ei sefydlu i roi amgylchedd i'r gweithgynhyrchwyr allu asesu perfformiad eu cynnyrch ym mhresenoldeb signalau symudol 4G.

Mae'r band 862 i 863 MHz, sydd wrth ymyl y sbectrwm 800 MHz byddwn yn ei ddyfarnu, ar gael i wasanaethau brys ac mae'n cefnogi nifer o systemau cyfathrebu a ddefnyddir ledled y DU gan yr heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y Swyddfa Gartref, yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol a'r Gymdeithas Prif Swyddogion Tân i asesu effaith ymyrraeth ar weithrediadau gwasanaethau brys ac i ddatblygu cynlluniau i reoli'r risgiau o ymyrraeth.

#### Canlyniad

Mae Ofcom ar y trywydd iawn i sicrhau bod y bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz ar gael yn eang i'w defnyddio erbyn diwedd 2013. Mewn sawl ardal yn y DU byddant ar gael i'w defnyddio cyn hyn, er mwyn galluogi cwmnïau ffonau symudol i ddechrau cyflwyno rhwydweithiau 4G yn gynharach yn 2013. Mae hyn yn golygu y gallai defnyddwyr fod yn elwa o wella band eang symudol yn sylweddol cyn bo hir.

## Ein hamcan

### Datblygu rhaglen gwaith polisi sbectrwm tymor canolig, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad

Mae sbectrwm yn adnodd prin sy'n chwarae rhan hollbwysig o ran galluogi darparu ystod eang o wasanaethau adloniant a chyfathrebu rydym yn eu defnyddio yn ein bywydau bob dydd. Felly mae'n bwysig ein bod yn edrych i'r tymor hir ar y ffordd orau o ddefnyddio sbectrwm yn y dyfodol, gan ystyried newidiadau mewn technoleg ac ymddygiad defnyddwyr. Rhaid i ni feddwl am y gofynion tebygol yn y dyfodol ar sbectrwm ar gyfer band eang symudol, wedi'i gydbwyso yn erbyn anghenion gwylwyr teledu daearol digidol.

#### Beth wnaethom ni

Yn 2011, roeddem wedi gofyn i randdeiliaid beth oeddent yn credu oedd y galw tymor hir am sbectrwm gwerthfawr yn yr ystod 470 i 790 MHz. Mae ffonau symudol, teledu daearol ac ystod eang o wasanaethau eraill i gyd yn dibynnu ar y sbectrwm hwn – a elwir yn Amledd Uchel Iawn (UHF) Bandiau IV a V – i drosglwyddo gwybodaeth yn ddi-wifr. Mae cryn alw am rywfaint o'r sbectrwm hwn oherwydd mai dim ond hyn a hyn ohono sydd ar gael ac oherwydd ei fod yn gallu cludo gwybodaeth yn bell a drwy waliau.

Yn y dyfodol, gallai ystod cynyddol o wasanaethau gwahanol ddefnyddio'r sbectrwm hwn i ddarparu ystod eang o wasanaethau atyniadol. I sicrhau bod dinasyddion a defnyddwyr yn elwa o'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol, mae Ofcom yn defnyddio'r wybodaeth hon i weithio'r cydbwysedd gorau allan ar gyfer defnyddio'r sbectrwm gwerthfawr hwn.

Gallai cytgordio'r dyraniadau hyn â gwledydd eraill arwain at arbedion maint a gostyngiad mewn prisiau i ddefnyddwyr. Mae Ofcom yn edrych ar weithio gyda rhanddeiliaid i fesur hyd a lled y manteision hyn. Un o brif ganlyniadau Cynhadledd Radio'r Byd yn 2012 oedd dyrannu sbectrwm yn y band 700 MHz i wasanaethau symudol a darlledu yn y gynhadledd nesaf yn 2015. Yng ngoleuni'r datblygiad hwn, roedd Ofcom wedi ymgynghori â rhanddeiliaid ym mis Mawrth 2012 ar ddyfodol UHF Bandiau IV a V. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn trafod goblygiadau rhyddhau'r band 700 MHz ar gyfer defnydd symudol, a'r canlyniadau ar gyfer dyfarnu'r sbectrwm 600 MHz, sy'n cael ei ryddhau yn sgil newid i'r digidol.

#### Canlyniad

Mae Ofcom wedi dechrau datblygu fframwaith i wneud yn siŵr bod defnyddio'r sbectrwm UHF hwn yn arwain at fanteision sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr yn y tymor hir, ar yr un pryd â sicrhau bod yr adnodd prin hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.

Ceir cryn ansicrwydd ynghylch sut bydd marchnadoedd yn datblygu yn y dyfodol a pha benderfyniadau fydd yn cael eu gwneud ar gytgordio'r sbectrwm UHF yn rhyngwladol. Rhaid i ni gydbwyso buddiannau mynediad am ddim cyffredinol i wasanaethau teledu daearol digidol â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau band eang di-wifr.

O safbwynt defnyddwyr, gall y manteision hyn gynnwys mynediad at ystod ehangach o wasanaethau atyniadol a mwy o gystadleuaeth rhwng darparwyr gwasanaeth. Byddwn hefyd yn ystyried y ffordd orau o reoli effaith newid y ffordd caiff sbectrwm ei ddefnyddio yn y dyfodol; er enghraifft, y gofyniad bod pobl yn buddsoddi mewn offer newydd.

## Ein hamcan

### Cyflawni gwarant y Llywodraeth o sbectrwm di-wifr ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain

Bydd y technolegau di-wifr a fydd yn helpu i sicrhau bod Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain yn rhedeg yn llyfn yn mwy na dyblu'r galw ar sbectrwm yn Llundain yn ystod saith wythnos y ddau ddigwyddiad. Mae hyn yn peri sialens logistaidd unigryw nad yw'r DU erioed wedi'i hwynebu o'r blaen.

Mae Ofcom yn gyfrifol am ddod o hyd i'r sbectrwm angenrheidiol; am sicrhau bod amleddau'n cael eu trwyddedu i'r rheini y mae eu hangen arnynt; ac am gadw'r amleddau hynny'n rhydd rhag ymyrraeth. Ein hamcan yw cyfrannu at Gemau diogel a llwyddiannus drwy sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, gan amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr presennol.

#### Beth wnaethom ni

Oherwydd mai dim ond hyn a hyn o sbectrwm sydd ar gael, mae'n bwysig ei fod yn cael ei neilltuo'n ofalus ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon, gyda chyn lleied â phosibl o ymyrraeth. Mae Ofcom wedi adeiladu a phrofi system neilltuo sbectrwm modern iawn a fydd yn rheoli mynediad i sbectrwm, gan ei ddarparu i'r rheini y mae ei angen arnynt a'i gadw'n rhydd rhag ymyrraeth.

Ar ben hynny, rydym wedi adeiladu rhwydwaith synhwyrydd modern ar draws y DU i fonitro'r sbectrwm radio a dod o hyd i unrhyw ffynonellau o ymyrraeth yn gyflym. Mae Ofcom hefyd wedi recriwtio a hyfforddi peirianwyr ychwanegol a fydd yn ein helpu i ganfod a delio ag unrhyw achosion o ymyrraeth yn ystod y Gemau.

Erbyn dechrau'r Gemau, byddwn wedi neilltuo hyd at 20,000 o amleddau i'w defnyddio gan ddarlledwyr a threfnwyr yn Llundain. Mae hyn yn fwy na dwywaith y nifer a neilltuir mewn blwyddyn fel rheol. Roeddem wedi neilltuo cyfran fawr o'r rhain yn ystod 2011/12.

Er mwyn paratoi ar gyfer amgylchiadau arbennig y Gemau, mae Ofcom wedi cymryd rhan mewn cyfres o ddigwyddiadau prawf yn ystod 2011 a 2012. Mae'r rhain wedi cael eu cynnal mewn digwyddiadau proffil uchel megis y briodas frenhinol yn Abaty San Steffan, Grand Prix Fformiwla 1 yn Silverstone a'r digwyddiad Sail for Gold yn Weymouth, yn ogystal â'r gyfres London Prepares o ddigwyddiadau prawf a drefnwyd gan Bwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd (LOCOG).

Ym mis Chwefror 2012, roeddem wedi cyhoeddi diweddariad terfynol y cynllun sbectrwm manwl o'r amleddau a ddefnyddir yn y Gemau.

**Canlyniad**

Bydd rheoli tonnau awyr Llundain yn ofalus yn hanfodol ar gyfer trefnu Gemau 2012 Llundain a rhoi sylw iddynt. Bydd Ofcom yn cyflawni hyn drwy sicrhau bod y sbectrwm di-wifr angenrheidiol yn cael ei drwyddedu i'r rheini y mae ei angen arnynt a'i fod yn cael ei gadw'n rhydd rhag ymyrraeth.

Bydd yr offer, y systemau, y prosesau a'r profiad o Gemau 2012 Llundain yn etifeddiaeth, gan helpu Ofcom yn y dyfodol i gyflawni ei gyfrifoldebau o ddydd i ddydd ar gyfer rheoli sbectrwm yn y DU. Bydd Ofcom yn cefnogi Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014, Pencampwriaethau Athletau'r Byd yn Llundain yn 2017 a digwyddiadau mawr tebyg, gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r profiad a geir o Gemau 2012 Llundain.

contributor to the
Olympic and Paralympic Games



## Ein hamcan

### Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebu

Rhaid i ddefnyddwyr allu newid rhwng darparwyr yn hawdd a sicrhau eu bod yn gallu dewis y gwasanaeth band eang neu ffôn sydd fwyaf addas i'w hanghenion.

Ond mae ymchwil Ofcom yn dangos bod defnyddwyr yn aml yn wynebu anawsterau wrth newid eu darparwr. Mae ein hymchwil yn awgrymu dros y flwyddyn diwethaf bod dros 130,000 o gartrefi wedi wynebu problemau yn ystod y broses newid neu wrth symud tŷ.

### Beth wnaethom ni

Ym mis Chwefror 2012, roeddem wedi cynnig mesurau i'w gwneud hi'n haws newid darparwr band eang a llinell sefydlog a bod y broses yn fwy dibynadwy, ar yr un pryd ag amddiffyn defnyddwyr rhag cael eu newid heb eu caniatâd. Nid yw'r cynigion hyn yn berthnasol i gwsmeriaid cebl ar hyn o bryd. Un o'r dewisiadau rydym yn ei ystyried yw y byddai'r darparwr newydd yn rheoli'r broses newid, wedi'i ddilysu gan drydydd parti annibynnol i ddiogelu defnyddwyr rhag 'slamio'.

Ym mis Rhagfyr 2011, roeddem wedi gwahardd contractau sy'n adnewyddu'n awtomatig. Roedd y contractau 'treigl' hyn yn clymu cwsmeriaid llinell sefydlog i gyfnodau contract sylfaenol ailadroddus oni bai eu bod yn dewis dod allan. Rydym yn parhau i achredu gwefannau achredu pris, sy'n sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth am brisiau sy'n gywir ac yn ddibynadwy.

Mae Ofcom hefyd wedi bod yn gweithio i sicrhau na chodir yn annheg ar gwsmeriaid band eang a llinell sefydlog pan fyddant yn gadael contract. Roeddem wedi symud ymlaen yn sylweddol yn y maes hwn y llynedd, gyda thri o'r darparwyr mawr yn lleihau eu prisiau terfynu cynnar ar gyfer llinellau sefydlog ac ar gyfer gwasanaethau llinell sefydlog a band eang wedi'u cyfuno. Rydym yn parhau â'n gwaith yn y maes hwn yn 2012/13.

### Canlyniad

Dylai ein cynigion sicrhau ei bod yn haws ac yn fwy dibynadwy i ddefnyddwyr newid darparwyr band eang a llinell sefydlog, ar yr un pryd â lleihau nifer yr achosion o slamio. Mae arnom hefyd eisiau sicrhau na fydd prosesau newid yn rhwystro darparwyr sy'n cystadlu i sicrhau manteision i bob defnyddiwr, o ran prisiau is, mwy o ddewis ac arloesedd a gwerth am arian. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein cynlluniau yn nes ymlaen yn 2012.





## Ein hamcan

### Sicrhau bod darparwyr cyfathrebu yn darparu gwybodaeth glir er mwyn i ddefnyddwyr band eang allu gwneud dewisiadau gwybodus

Mae band eang yn chwarae rhan bwysig ym mywydau defnyddwyr ac mae wedi newid y ffordd rydym yn cyfathrebu, y ffordd rydym yn gweithio a'r ffordd rydym yn dod o hyd i adloniant. Roedd gan bron i dri chwarter (74 y cant) o gartrefi'r DU wasanaeth band eang sefydlog ar ddechrau 2011, a oedd wedi codi o 41 y cant yn 2006. Mae'n hanfodol bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth iawn wrth ddewis gwasanaeth band eang.




### Beth wnaethom ni

Roeddem wedi cyhoeddi dau adroddiad ar gyflymder cymharol band eang llinell sefydlog preswyl yn y DU (Gorffennaf 2011 a Chwefror 2012), ac roeddem hefyd wedi cyhoeddi adroddiad ar berfformiad band eang symudol (Mai 2011). Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi'r cyflymder go iawn cyfartalog a gaiff defnyddwyr yn y DU ac roedd yn amlygu'r gwahaniaethau mewn cyflymder a mesuriadau perfformiad eraill rhwng darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd (ISPs) a rhwng technolegau gwahanol.

Roeddem wedi cynnal ymarfer siopwr dirgel a oedd yn edrych ar gydymffurfiad â'r Cod Ymarfer cyflymder band eang gwirfoddol ac wedi cyhoeddi'r canlyniadau ym mis Mai 2012. Roedd Ofcom hefyd wedi cael pwerau newydd mewn perthynas â rheoli traffig rhyngrwyd a niwtraliaeth net ym mis Mai 2011. Roeddem wedi cyhoeddi ein datganiad ym mis Tachwedd 2011, a oedd yn gosod ein safbwyntiau ynghylch sut dylid rhoi gwybodaeth dryloyw i ddefnyddwyr.

### Canlyniad

Canfu ymchwil Ofcom fod cyflymder band eang go iawn cyfartalog yn y DU wedi cynyddu o 6.8 Mbit yr eiliad ym mis Mai 2011 i 7.6 Mbit yr eiliad ym mis Tachwedd 2011. Ar gyfartaledd roedd cyflymder band eang symudol yn 1.5 Mbit yr eiliad yn ystod chwarter olaf 2010.

Roedd canlyniadau ymarfer y siopwr dirgel wedi dangos bod cydymffurfiad â'r Cod wedi gwella'n gyffredinol ers ein hymarfer diwethaf, a bod y rhan fwyaf o gwsmeriaid yn cael amcangyfrifon cywir o gyflymder adeg gwerthu. Ond nid da lle gellir gwell yng nghyswllt darparu amcangyfrifon cyflymder i gwsmeriaid heb iddynt ofyn amdanynt, a byddwn yn parhau â'n trafodaethau ag ISPs i wella'r cydymffurfiad â'r Cod.

Yn dilyn ein hadroddiadau ymchwil blaenorol, a oedd yn dangos bod y cyflymder a oedd yn cael ei hysbysebu yn aml yn wahanol i'r cyflymder go iawn, roeddem wedi gweithio gyda Phwyllgor Ymarfer Hysbysebu (CAP) yr Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) a'r Pwyllgor Darlledu Ymarfer Hysbysebu (BCAP) yn eu hadolygiad i helpu i sicrhau nad yw hysbysebion yn gamarweiniol. Roedd CAP/BCAP wedi cyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio honiadau ynghylch cyflymder wrth hysbysebu band eang, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2012.

Ymysg pethau eraill, mae'r canllawiau'n mynnu y dylai o leiaf deg y cant o sylfaen cwsmeriaid yr ISP perthnasol allu cyflawni'r cyflymder sy'n cael ei honni. Pan fydd cyfran sylweddol o gwsmeriaid yn annhebyg o gyflawni cyflymder sy'n ddigon agos at y cyflymder sy'n cael ei hysbysebu, dylai gwybodaeth arall, fel yr ystod o gyflymder mae modd i'r cwsmeriaid hynny ei gyflawni, gael ei chynnwys yn yr hysbyseb.

## Ein hamcan

### Gweithredu gweithdrefnau safonau darlledu wedi'u symleiddio

Mae Ofcom yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o osod a chynnal safonau ym maes darlledu i helpu i amddiffyn gwylwyr a gwrandawyr. Ym mis Mehefin 2011, roeddem wedi cyhoeddi a gweithredu gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer ymchwiliadau a sancsiynau darlledu. Roeddem wedi symleiddio ein gweithdrefnau, gan ein bod yn credu y byddai modd eu gwella er budd ein holl randdeiliaid. Roedd y newidiadau hyn yn golygu bod modd i ni gynnal ymchwiliadau yn gynt; yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau sy'n fwy ymatebol; yn ein helpu i wneud arbedion effeithlonrwydd a symleiddio rhyngweithio â rhanddeiliaid o ddydd i ddydd.





### Beth wnaethom ni

Roedd y prif newidiadau'n cynnwys symud i fodel 'ar sail materion' i sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion; cyflwyno 'safbwynt rhagarweiniol'; a diddymu'r fecanwaith adolygiad mewnol. Roeddem hefyd wedi diddymu'r Pwyllgor Sancsiynau Darlledu a'i ddisodli â phanel, ac roeddem wedi egluro ein dull gweithredu ar gyfer datgelu'r wybodaeth bydd Ofcom yn ei chasglu yn ystod ymchwiliadau.

### Canlyniad

Mae'r gweithdrefnau diwygiedig yn sicrhau tegwch i'r rheini sy'n rhan o'n hymchwiliadau a'n gweithdrefnau cwyno, ar yr un pryd â chynnal penderfyniadau o ansawdd uchel, a chyflawni gwerth gwell i'n rhanddeiliaid. I gael rhagor o wybodaeth am berfformiad Ofcom wrth asesu cwynion a chwblhau ymchwiliadau yn ystod 2011/12, edrychwch ar yr Atodiad, tudalennau 112 i 114.

## Ein hamcan

## Ystyried dulliau rheoleiddio newydd i reoleiddio cynnwys

Yng ngoleuni'r newidiadau cyflym yn y dechnoleg sydd ar gael i ddosbarthu cynnwys clywedol, gan gynnwys y cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio teledu protocol rhyngrwyd (IPTV) a gwasanaethau teledu ar-lein yn y DU, roeddem wedi cynnig parhau i adolygu ein dull gweithredu rheoliadol ehangach yng nghyswllt rheoleiddio cynnwys, i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben, ei fod yn dal i wasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, a'i fod yn glir i randdeiliaid.

### Beth wnaethom ni

Roeddem o'r farn y dylai ein dull gweithredu rheoleiddio yn y maes hwn fod yn seiliedig ar ddeall disgwyliadau cynulleidfa o ran amddiffyn.

Ym mis Ionawr 2012, roeddem wedi cyhoeddi ymchwil annibynnol (a gynhaliwyd yn ystod haf 2011) ynghylch disgwyliadau a blaenoriaethau cymharol y cyhoedd ar gyfer amddiffyniad ar draws gwasanaethau darlledu, fideo ar alwad a gwasanaethau rhyngrwyd 'agored'. Bwriedir i'r adroddiad fod yn ffynhonnell gyhoeddus o wybodaeth ac yn sylfaen ar gyfer trafodaeth a dadl.

### Canlyniad

Mae canfyddiadau'r ymchwil yn awgrymu bod gwylwyr yn gwerthfawrogi'r rheoliadau sydd wedi'u sefydlu yng nghyswllt teledu darlledu, ond efallai fod eisiau rhagor o sicrwydd arnynt ar gyfer gwasanaethau fideo ar alwad ac ar gyfer gwasanaethau tebyg sy'n dod i'r ystafell fyw drwy setiau teledu cysylltiedig. Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu bod gwylwyr yn chwilio am symlrwydd ac eglurder yn y system rheoleiddio gyffredinol ar gyfer cynnwys.

Ym mis Hydref 2011, roedd Ofcom a rheoleiddwyr cyfryngau eraill y DU wedi dod at ei gilydd i lansio ParentPort: un wefan sy'n rhyngwyneb rhwng rheoleiddwyr a rhieni sy'n pryderu am gynnwys a pha mor addas ydyw i blant. Yn ystod 2012 byddwn yn gwneud rhagor o waith, ar y cyd â chyrff rheoleiddio eraill a drwy ein gwaith gyda Chyngor Diogelwch Plant ar y Rhyngrwyd y DU (UKCCIS), ar ddiogelu plant yn yr amgylchedd ar-lein.

## Ein hamcan

### Paratoi ar gyfer dyletswyddau rheoleiddio mewn perthynas â phost a'u cyflawni

Ar 1 Hydref 2011, dechreuodd Ofcom y gwaith o reoleiddio gwasanaethau post y DU yn lle'r rheoleiddiwr blaenorol Postcomm, a chafodd bwerau cystadleuaeth cyfredol mewn perthynas â phost. Mae Ofcom yn gyfrifol am ddiogelu gwasanaethau post cyffredinol y DU, sy'n rhoi gwarant i ddefnyddwyr y DU o wasanaeth post fforddiadwy am bris cyffredinol, chwe diwrnod yr wythnos. Er 2006, cafwyd gostyngiad o 25 y cant mewn faint o bost sy'n cael ei anfon wrth i ddefnyddwyr symud i ffwrdd o bost traddodiadol i dechnoleg ddigidol fel e-bost.

#### Beth wnaethom ni

Roeddem wedi cyhoeddi cynigion a oedd yn rhoi rhagor o ryddid i'r Post Brenhinol yn y ffordd mae'n gosod rhai o'i brisiau, yn amodol ar ddiogelwch i sicrhau bod defnyddwyr a chystadleuaeth yn cael eu diogelu. Yn ôl y ddyletswydd gwasanaeth cyffredinol mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gasglu a dosbarthu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos (a phecynnau pum niwrnod yr wythnos) am bris fforddiadwy ac unffurf i bob cyfeiriad yn y DU.

#### Canlyniad

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, roeddem wedi cyhoeddi ein penderfyniad ym mis Mawrth 2012. Roeddem wedi rhoi mwy o ryddid i'r Post Brenhinol yn y ffordd mae'n gosod ei brisiau, ond roeddem wedi cyflwyno diogelwch i sicrhau bod defnyddwyr a chystadleuaeth yn cael eu hamddiffyn. Yn benodol, roeddem wedi rhoi cap ar bris stampiau Ail Ddosbarth ar gyfer llythyrau safonol i ddiogelu defnyddwyr agored i niwed. Dros y saith mlynedd nesaf, bydd hyn yn sicrhau na fydd pris stampiau Ail Ddosbarth y Post Brenhinol yn gallu codi dros 55c (wedi'i fynegeio yn unol â chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr). Er mwyn diogelu defnyddwyr agored i niwed a busnesau bach ymhellach, rydym yn ymgynghori ar ymestyn y cap i barseli bach a llythyrau mawr Ail Ddosbarth sy'n pwyso hyd at 2kg. Mae Ofcom yn credu y bydd y gwaith hwn yn gwneud y gwasanaeth cyffredinol sy'n cael ei ddarparu gan y Post Brenhinol yn hyfyw yn y tymor canolig. Byddwn yn monitro perfformiad y Post Brenhinol yn ofalus dros y saith mlynedd.




## Ein hamcan

### Paratoi adroddiad statudol i'r Llywodraeth ar drefniadau trwyddedu ar gyfer ITV, STV, UTV a Channel 5 ar ôl 2014

Mae ein hymchwil yn dangos bod gwylwyr teledu yn gwerthfawrogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fawr iawn. Mae gan Ofcom ddyletswydd i baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol am y trefniadau trwyddedu ar gyfer rhai o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU, y rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3, sy'n cynnwys gwasanaethau a gynigir gan ITV, STV ac UTV, a Channel 5. Rhaid i ni baratoi'r adroddiad hwn erbyn diwedd mis Mehefin 2012 er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol allu penderfynu a ddylai'r cwmnïau hyn barhau i ddal y trwyddedau hyn cyn i'r rhai presennol ddod i ben ddiwedd 2014.

#### Beth wnaethom ni

Roeddem wedi paratoi ein hadroddiad am y trefniadau trwyddedau ddechrau 2012. Yn yr adroddiad roeddem wedi amlinellu'r dewisiadau gwahanol sydd ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol, a oedd yn cynnwys adnewyddu'r trwyddedau, ymestyn y telerau presennol neu ganiatáu i bartïon eraill wneud cynnig am y trwyddedau mewn arwerthiant.

#### Canlyniad

Mae'r sector darlledu wedi bod drwy gryn newid ers cyhoeddi'r trwyddedau hyn ddiwethaf. Mae ein gwaith yn asesu gallu parhaus y rheini sy'n dal y trwyddedau i wneud cyfraniad cynaliadwy at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Bydd yn helpu i sefydlu sylfaen i ddarlledwyr masnachol ddarparu cynnwys sy'n gwasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU dros y degawd nesaf.

## Ein hamcan

### Gweithredu darpariaethau torri hawlfraint ar-lein Deddf yr Economi Ddigidol 2010

Mae defnyddwyr yn mwynhau ffilmiau, rhaglenni teledu, llyfrau a cherddoriaeth ar-lein ac mewn fformatau digidol. Fodd bynnag, mae hyn yn peri sialensiau newydd; yn benodol, mae'n haws o lawer nawr gwneud a dosbarthu copïau o gynnwys hawlfraint, ac mewn rhai achosion gellir gwneud hynny heb ganiatâd y sawl sy'n berchen ar yr hawlfraint. Roedd Deddf yr Economi Ddigidol 2010 wedi rhoi cyfrifoldebau newydd i Ofcom ar gyfer gweithredu mesurau sydd wedi'u hanelu at leihau lefel torri hawlfraint ar-lein yn sylweddol.

**Beth wnaethom ni**

Mae Deddf yr Economi Ddigidol yn golygu gwneud cod sy'n rhoi proses lle mae'n rhaid i'r darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd (ISPs) roi gwybod i danysgrifwyr am honiadau o dorri hawlfraint a fydd yn cael eu cyflwyno gan berchnogion hawlfraint. Ar gais, rhaid iddynt hefyd gynhyrchu rhestr ddi-enw o danysgrifwyr y mae nifer o honiadau wedi cael eu cyflwyno amdanynt ynghylch torri hawlfraint. Y bwriad yw y bydd hyn yn helpu perchnogion hawlfraint i gymryd camau cyfreithiol wedi'u targedu yn erbyn troseddwyr hynod. Rhaid i berchnogion hawlfraint sicrhau gorchymyn llys cyn i ISPs ddatgelu pwy yw'r tanysgrifwyr y maent yn dymuno cymryd camau yn eu herbyn.

Gan nad oes cod yn cael ei gynhyrchu gan y diwydiant i Ofcom ei gymeradwyo, roedd yn rhaid i Ofcom gynhyrchu a chyhoeddi cod. Cafodd cyhoeddi'r Cod ei ddal yn ôl oherwydd Adolygiad Barnwrol o Ddeddf yr Economi Ddigidol ac anawsterau'n sicrhau cymeradwyaeth i'r Cod. Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl y caiff y Cod ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2012 ac y caiff ei osod gerbron Senedd y DU cyn diwedd 2012.

**Canlyniad**

Mae'r Cod yn rhan o ddull gweithredu sawl elfen gan Lywodraeth y DU sydd wedi'i anelu at leihau torri hawlfraint ar-lein, drwy orfodaeth, addysgu defnyddwyr am hawlfraint, ac annog y diwydiant i ddatblygu dulliau cyfreithiol amgen. Mae Deddf yr Economi Ddigidol yn mynnu bod Ofcom yn monitro ac yn asesu'r gweithgareddau hyn a bydd yn dechrau gwneud adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i Lywodraeth y DU pan fydd y cynllun ar waith.

## Blaenoriaethau blynyddol blynyddoedd blaenorol

### Wrth i'r sector cyfathrebu ddatblygu ac wrth i anghenion defnyddwyr newid, felly hefyd mae ein ffocws ar flaenoriaethau allweddol yn newid. Serch hynny, rydym yn dal i ganolbwyntio ar nifer o'r materion hyn.

**Symud ymlaen o ran ardaloedd di-gyswllt symudol**

Rydym wedi cyhoeddi ymchwil i ardaloedd di-gyswllt symudol, gan ganfod y gwahanol fathau o broblemau o ran darpariaeth symudol, a gan edrych ar y rhesymau drostynt, eu heffaith ar ddefnyddwyr a datblygiadau parhaus yn y farchnad i fynd i'r afael â nhw. Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gronfa gwerth £150m i fynd i'r afael ag ardaloedd di-gyswllt symudol. Fel rhan o'n hail ymgynghoriad ar yr arwerthiant sbectrwm 4G, roeddem wedi dweud y byddem yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y byddai'r arian hwn hefyd yn galluogi cyflwyno gwasanaethau symudol y genhedlaeth nesaf yn yr ardaloedd hyn sy'n anodd eu cyrraedd.

**Cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni**

Mae darlledwyr teledu a radio wedi gallu defnyddio cyfeiriadau masnachol (gosod cynnyrch), mewn rhai rhaglenni er mis Chwefror 2011. Ym mis Hydref 2011, roedd Cymdeithas Adeiladu'r Nationwide wedi dod i gytundeb ar gyfer gosod peiriant ATM wedi'i frandio yn siop gornel opera sebon Coronation Street ITV. Roedd ymchwil ITV yn awgrymu bod saith gwyliwr o bob deg yn cofio'r brand Nationwide a oedd wedi ymddangos yn y rhaglen yn gywir. Ym mis Chwefror 2012, cafodd y cytundeb ei ymestyn am flwyddyn. Byddwn yn monitro'r buddsoddiad mewn gosod cynnyrch fel rhan o'n dyletswyddau ehangach i fonitro'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio.

## Meysydd gwaith nad ydynt yn ein Cynllun Blynyddol 2011/12

Er ein bod yn cynllunio ein gwaith yn ôl ein blaenoriaethau a chyflawni ein dyletswyddau, rydym hefyd yn gwneud gwaith hanfodol sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2011/12, roedd hyn yn cynnwys:

### Mesur lluosogrwydd y cyfryngau

Ddiwedd y llynedd, yn ein hadroddiad ar y prawf budd cyhoeddus ynghylch cynnig News Corporation i brynu'r cyfranddaliadau yn BSkyB nad oedd eisoes yn berchen arnynt, roedd Ofcom wedi awgrymu efallai fod eisiau diwygio'r fframwaith presennol ar gyfer lluosogrwydd.

Ym mis Hydref 2011, ysgrifennodd Jeremy Hunt, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau, y Gemau Olympaidd a Chwaraeon, at Ofcom yn gofyn i ni asesu pa mor ymarferol fyddai gosod terfynau ar berchnogaeth cyfryngau i ddiogelu lluosogrwydd. Gofynnodd i Ofcom argymell fframwaith ar gyfer mesur lluosogrwydd ar draws cyfryngau gwahanol. Mae'r Senedd yn gweld ei bod yn bwysig diogelu lluosogrwydd oherwydd gallu sefydliad i ddylanwadu ar safbwyntiau a gosod yr agenda wleidyddol os oes ganddo ormod o reolaeth dros y cyfryngau. Roeddem wedi darparu'r dystiolaeth hon i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i Ymchwiliad Leveson i ddiwylliant, arferion a moeseg y wasg.



### Cefnogi ymchwiliad leveson

Roedd y Llywodraeth wedi sefydlu Ymchwiliad Leveson i ddiwylliant, arferion a moeseg y wasg yn 2011. Darparodd Ofcom dystiolaeth ar fodelau rheoleiddio ar gyfer teledu a radio a rhoddodd dystiolaeth hefyd i'r ymchwiliad ar 1 Chwefror 2012. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth honno, dywedodd yr Arglwydd Ustus Leveson y byddai'n croesawu safbwyntiau Ofcom ar sut y gellid rheoleiddio'r wasg mewn ffordd sy'n gwarchod ei annibyniaeth a'r hawliau i ryddid mynegiant. Roeddem wedi cyflwyno'r safbwyntiau hyn i'r Ymchwiliad ym mis Ebrill 2012.

### Creu ParentPort ac ymateb i adolygiad Bailey

Cafodd ParentPort ei sefydlu fis Hydref diwethaf i'w gwneud yn haws i rieni gwyno am ddeunyddiau roeddent yn eu gweld neu'n eu clywed ar draws y diwydiannau adwerthu, cyfathrebu a chyfryngau. Chwaraeodd Ofcom ran weithredol o ran sefydlu gwefan ParentPort, a gafodd ei greu mewn ymateb i *Independent Review of the Commercialisation and Sexualisation of Childhood* Reg Bailey. Roedd hwn yn argymell y dylai'r rheoleiddwyr weithio gyda'i gilydd i greu un gwefan a fyddai'n rhyngwyneb rhyngddyn nhw a rhieni. Cafodd ei ddatblygu ar y cyd gan Ofcom, yr Awdurdod Safonau Hysbysebu, yr Awdurdod Teledu Ar Alwad (ATVOD), Ymddiriedolaeth y BBC, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, Comisiwn Cwynion y Wasg a'r Cyngor Safonau Fideo/Gwybodaeth Gemau Ar draws Ewrop.

# Ein cyfrifoldebau parhaus a'r adnoddau rydym yn eu rheoli

Yn ogystal â chyflawni'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Blynyddol, rydym yn gweithio'n gyson i gyflawni'r canlyniadau gorau i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr yn ein cyfrifoldebau o ddydd i ddydd.

## Amddiffyn defnyddwyr

Mae arnom eisiau sicrhau bod defnyddwyr yn cael y dewis gorau o wasanaethau cyfathrebu, a'r gwerth gorau am eu harian, a bydd angen i ni fod y barod i ymyrryd os na fydd pethau'n gweithio cystal ag y dylent fod.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, roeddem wedi gweithredu ar ystod eang o faterion sy'n ymwneud a defnyddwyr ac rydym yn adolygu rhai ohonynt yma.

### Cam-werthu llinellau ffôn

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu oddi wrth gam-werthu llinellau sefydlog a 'slamio', sy'n digwydd pan fydd cwsmer yn cael ei newid i ddarparwr arall heb iddo wybod am hynny na chytuno ar hynny. Rydym hefyd yn gweithio gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Telathrebu i fynd i'r afael â phroblemau pan fydd defnyddwyr yn cael eu newid rhwng darparwyr mewn camgymeriad.

Mae gennym raglen monitro a gorfodi agored i gam-werthu llinellau sefydlog a dadansoddi cwynion a gawn am bob darparwr llinell sefydlog.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhoi hysbysiadau i bum cwmni (TalkTalk, Axis Telecom, DTC Direct, Sensim a Save Money on Calls) o dan y rhaglen hon. Roeddem hefyd wedi gorffen ymchwiliadau i Continental Telecom, Plus Save a KCT Ltd . Rydym hefyd wedi parhau i flaenoriaethu gwaith gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Telathrebu a'r diwydiant i ddeall y rhesymau pam gaiff defnyddwyr eu newid rhwng darparwyr mewn camgymeriad a rhoi mesurau ar waith i leihau hyn.

Mae ein gwaith yn parhau ond hyd yn hyn rydym wedi gweld gostyngiad cadarnhaol yn y cwynion cyffredinol am gam-werthu llinellau sefydlog; o gyfartaledd o 844 o gwynion y mis yn 2010/11 i gyfartaledd o 644 o gwynion y mis yn 2011/12, sef gostyngiad o 31 y cant.

### Galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael

Erbyn 1 Chwefror 2011, roedd disgwyl i gwmnïau lynu wrth egwyddorion ein polisi diwygiedig (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010) i fynd i'r afael â phroblem defnyddwyr yn cael eu harasio gan alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael. Mae galwad sy'n cael ei gadael yn golygu galwad sy'n dod i ben pan fydd yr alwad yn cael ei hateb. Yn hytrach na chlywed rhywun ar ben arall y ffôn, bydd y sawl sy'n ateb yn clywed neges wybodaeth gan y cwmni sy'n ceisio gwneud yr alwad. Gyda galwad mud, dim ond tawelwch a glywir ar ben arall y ffôn. Mae'r naill a'r llall yn gallu achosi cryn bryder a phoen i ddefnyddwyr.

Roeddem wedi rhybuddio'r diwydiant i gydymffurfio â'r polisi newydd neu wynebu camau gorfodi, gan gynnwys dirwyon hyd at £2m, ar ôl i Senedd y DU godi'r dirwy uchaf o'r ddirwy uchaf flaenorol a oedd yn £50,000.

Roeddem wedi ymchwilio ac wedi cyhoeddi hysbysiadau o dan adran 128 Deddf Cyfathrebiadau 2003 i dri chwmni (Homeserve, nPower a TalkTalk), lle'r oedd gennym resymau rhesymol dros gredu eu bod wedi camddefnyddio rhwydwaith cyfathrebu electronig neu wasanaethau cyfathrebu electronig yn gyson. Ym mis Ebrill 2012, rhoesom ddirwy o £750,000 i HomeServe am wneud nifer eithafol o alwadau mud a galwadau wedi'u gadael i ddefnyddwyr. Dyma oedd yr achos cyntaf y gwnaed penderfyniad arno ar ôl cyflwyno'r uchafswm cosb uwch.

Yn ôl ymchwil Ofcom mae llai o ddefnyddwyr yn cael niwed oherwydd galwadau mud neu alwadau sy'n cael eu gadael. Roedd ychydig o dan chwarter o ddefnyddwyr (23 y cant) wedi cael galwad wedi'i gadael yn ystod 2011, a oedd i lawr o ychydig dros draean (35 y cant) yn 2009. Mae nifer y defnyddwyr sy'n cael galwadau mud hefyd wedi disgyn o 30 y cant yn 2009 i 24 y cant yn 2011[3]. Rydym yn credu bod y gostyngiad yn nifer y galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael yn deillio, yn rhannol o leiaf, oherwydd ein camau gweithredu i godi ymwybyddiaeth o'n polisi newydd i ymchwilio i gwmnïau nad ydynt efallai'n cydymffurfio ag ef, ac i gymryd camau gorfodi yn erbyn y rheini sy'n ei dorri.

[3] Mae'r data'n seiliedig ar alwadau i Dîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom

### Cael pwerau cryfach i amddiffyn defnyddwyr

Roedd cyfraith telathrebu newydd yn yr Undeb Ewropeaidd, a roddwyd ar waith yn y DU ym mis Mai 2011, wedi arwain at nifer o newidiadau ym mhwerau Ofcom a fydd o fudd i ddefnyddwyr. Cafodd Ofcom hefyd bwerau amddiffyn defnyddwyr newydd i fynd i'r afael ag achosion o dorri ei reoliadau'n gynt.

Dyma'r newidiadau i'r rheoliadau:

- cyfnodau clymu byrrach ar gyfer ffôn a band eang – mae contractau defnyddwyr nawr wedi cael eu cyfyngu i 24 mis ar y mwyaf a rhaid cynnig contractau o ddim mwy na 12 mis i ddefnyddwyr ac i fusnesau hefyd. Mae contractau byrrach yn fwy tebygol o hybu cystadleuaeth a galluogi defnyddwyr i newid rhwng darparwyr yn haws, er mwyn arwain at brisiau a gwasanaethau gwell.
- gofyniad bod darparwyr symudol yn cludo rhifau ffôn i ddarparwr newydd mewn un diwrnod gwaith;
- ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr anabl gael gafael ar wasanaethau brys; a
- phwerau i Ofcom roi cosb ariannol mewn perthynas â thorri yn y gorffennol, heb orfod rhoi mis i gwmni gydymffurfio â'r amod maent wedi'i dorri neu wneud iawn am ganlyniadau'r torri (fel oedd yn arfer digwydd). Gall Ofcom hefyd roi hyd at £20,000 o ddirwy'r dydd i gwmni os yw'r torri honedig yn parhau.

## Amddiffyn defnyddwyr rhag amodau ac arferion annheg

### Cosb ariannol i TalkTalk

Ym mis Gorffennaf 2010, ar ôl cwynion gan dros 1,000 o ddefnyddwyr, roeddem wedi agor ymchwiliad i TalkTalk Telecom Limited a Tiscali UK Limited ("TalkTalk Group") am filio cwsmeriaid am wasanaethau nad oeddent wedi cael eu darparu. Gwelsom fod y cwmnïau wedi rhoi biliau ar gam i dros 62,000 o ddefnyddwyr am wasanaethau nad oeddent wedi'u cael, yn benodol i ddefnyddwyr a oedd wedi canslo eu gwasanaethau.

O ganlyniad, talodd y cwmnïau bron i £2.5m mewn ad-daliadau a thaliadau ewyllys da i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt ac, ym mis Awst 2011, rhoddodd Ofcom ddirwy i'r TalkTalk Group gwerth £3,037,120 i adlewyrchu pa mor ddifrifol oedd yr achos o dorri'r rheolau amddiffyn defnyddwyr.

### Gweithio i helpu i stopio defnyddwyr rhag cael biliau annisgwyl o uchel

Yn dilyn cwynion i Ofcom a mwy a mwy o alwadau gan y cyfryngau ac ASau, roeddem wedi gofyn i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid ddarparu manylion o'u profiadau o filiau annisgwyl o uchel neu 'sioc bil'.

Roeddem wedi cynnal adolygiad helaeth i achosion 'sioc bil' yn y sector cyfathrebu ac wedi canfod bod biliau annisgwyl o uchel yn digwydd yn amlach i gwsmeriaid contract ffôn symudol na chwsmeriaid band eang, llinell sefydlog neu ffôn symudol talu ymlaen llaw. Dyma oedd prif achosion sioc bil: llwytho data i lawr, yn bennaf wrth deithio tu allan i'r UE, ond hefyd wrth ddefnyddio data yn y DU; defnyddio gwasanaethau llais symudol yn y DU, yn bennaf drwy fynd dros y lwfansau sydd wedi'u cynnwys neu drwy ffonio rhifau tu allan i'r lwfansau; a ffonau sydd wedi cael eu colli neu eu dwyn – roedd nifer y defnyddwyr yr effeithiwyd arnynt yn isel, ond roedd lefel y niwed ariannol yn aml yn sylweddol.

Ym mis Chwefror 2012, roeddem wedi cyhoeddi cynllun gweithredu a oedd wedi'i ddylunio i leihau'r risg o ddefnyddwyr yn cael biliau annisgwyl o uchel. Rydym yn annog darparwyr ffonau symudol i wneud mwy i ganiatáu i ddefnyddwyr osod eu capiau ariannol eu hunain a derbyn negeseuon i'w rhybuddio am eu defnydd. Rydym yn dal i weithio gyda darparwyr i edrych ar sut gallent gyfyngu faint mae defnyddwyr yn atebol i'w dalu os caiff eu ffôn ei golli neu ei ddwyn. Rydym hefyd yn adolygu beth mae darparwyr yn ei ddweud am eu tariffau i sicrhau bod yr wybodaeth yn dryloyw, ac roeddem wedi cefnogi galwadau i ymestyn Rheoliad Crwydro'r UE i amddiffyn defnyddwyr sy'n llwytho data i lawr unrhyw le yn y byd.

### Cyhoeddi data cwynion am ddarparwyr telathrebu

Rydym yn cyhoeddi data cwynion yn chwarterol sy'n cynnwys cwynion am ddarparwyr gyda chyfran o bedwar y cant neu fwy yn y marchnadoedd llinell sefydlog, band eang a symudol. Mae hyn yn seiliedig ar gwynion telathrebu defnyddwyr a gaiff Ofcom. Rydym yn credu y bydd cyhoeddi'r wybodaeth hon yn rheolaidd yn:


- hybu cystadleuaeth, drwy roi gwybod i ddefnyddwyr am berfformiad darparwyr unigol;
- ddefnyddiol i ddefnyddwyr; ochr yn ochr â phethau eraill, gall y data fod yn berthnasol i'r rheini sy'n ystyried gwasanaeth neu ddarparwr newydd; ac
- mae'n gymhelliant i ddarparwyr telathrebu wella eu perfformiad.

### Helpu defnyddwyr sydd ag anawsterau ar eu clyw a/neu leferydd

Mae gwasanaethau cyfnewid testun yn hanfodol i helpu defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a'u lleferydd i wneud a derbyn galwadau ffôn. Roeddem wedi cynnig gwella'r gwasanaeth cyfnewid testun drwy symud i wasanaeth ar sail IP, a elwir yn Gyfnewid Testun y Genhedlaeth Nesaf. Byddai'r gwasanaeth a gynigir yn cyflwyno lleferydd cyfochrog dwyffordd gyda "chapsiynau byw" i alluogi sgyrsiau sy'n llifo'n fwy naturiol a'r gallu i ddefnyddwyr ddefnyddio offer prif ffrwd (yn hytrach nag offer penodol). Roeddem hefyd wedi ystyried yr achos dros gyflwyno gwasanaeth cyfnewid fideo cyfyngedig ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain, yn amodol ar ymgynghoriad pellach.

Ym mis Mai 2012 roeddem wedi cadarnhau cyflwyno'r gwasanaeth cyfnewid testun gwell. Yn dilyn ymgynghoriad byr, mae Ofcom yn disgwyl y bydd y gwasanaeth hwn ar gael yn 2013.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad arall ar wasanaethau cyfnewid fideo yn ystod haf 2012.



198 gorsaf radio cymunedol

12.5 miliwn o wrandawyr

## Cynnwys a safonau mewn darlledu

Mae gan Ofcom ystod o ddyletswyddau mewn perthynas â darlledu sy'n cynnwys sicrhau digon o amddiffyniad i'r cyhoedd rhag deunyddiau sy'n peri niwed neu dramgwydd a rhag iddynt gael eu trin yn annheg neu rhag i'w preifatrwydd gael ei darfu'n ddiangen; a sicrhau ystod eang o wasanaethau teledu a radio sydd o ansawdd uchel ac sy'n apelio at ystod eang o bobl.

### Trwyddedu teledu a radio

Mae Ofcom yn cyflawni ei ddyletswyddau drwy roi trwyddedau darlledu, sy'n dod ag amodau. Mae'r amodau hyn yn cynnwys gofynion i dalu ffioedd, darparu gwybodaeth, cynnig rhaglenni a mathau o gynnwys penodol, a chydymffurfio â'r amrywiol godau ymarfer a gyhoeddir gan Ofcom.

### Trwyddedu sianeli teledu lleol

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei hamcan i sicrhau rhwydwaith o orsafoedd teledu lleol mewn hyd at 20 ardal o'r DU erbyn diwedd 2015. Darparodd Ofcom gymorth a chyngor technegol i'r Llywodraeth wrth iddi lunio ei pholisi. Ar ôl cyflwyno deddfwriaeth newydd, roeddem wedi helpu'r Llywodraeth i ddatblygu ei pholisi drwy helpu i sefydlu trefn drwyddedu ar gyfer y sianeli teledu lleol newydd, a hysbysebwyd trwyddedau yn ystod gwanwyn 2012.

### Radio cymunedol yn dal i ffynnu

Ceir tua 200 o orsafoedd radio cymunedol yn darlledu ledled y DU, gan alluogi oddeutu 12.5 miliwn o bobl i gael gwasanaeth sy'n berthnasol i'w hardal leol neu eu diddordebau. Mae'r rhain yn orsafoedd radio ar raddfa fach yn gyffredinol sy'n targedu'r gymuned leol o fewn radiws o 5km, er bod rhai yn canolbwyntio ar wasanaethu cymuned diddordeb penodol (fel yr henoed, neu leiafrif ethnig penodol). Mae gwirfoddolwyr yn helpu i redeg y gorsafoedd a chynhyrchu'r allbwn ac, ar sail enillion blynyddol o orsafoedd, rydym yn amcangyfrif bod 45,000 awr o wirfoddoli yn cael eu rhoi i radio cymunedol bob wythnos.

Mae darparu 'budd cymdeithasol' i'r gymuned darged wrth galon y gwasanaethau hyn. Mae'r gorsafoedd yn cael eu rhedeg ar sail ddielw ac maent yn creu manteision fel hyfforddiant a thrafodaethau a newyddion cymunedol, yn ogystal ag allbwn sydd wedi'i anelu at grwpiau difreintiedig neu grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

Erbyn mis Mai 2012, roeddem wedi dyfarnu 251 o drwyddedau radio cymunedol. Ceir galw parhaus am drwyddedau, ac yn 2011/12 roedd Ofcom wedi gwahodd ceisiadau o leoliadau yng Nghymru a de orllewin Lloegr (cafwyd 32 o geisiadau), yn ogystal â'r Alban (19 o geisiadau). Hyd yn hyn mae Ofcom wedi dyfarnu 15 o drwyddedau yn ne orllewin Lloegr a phedwar yng Nghymru, ac mae gweddill y ceisiadau'n cael eu hasesu a'u hystyried ar gyfer trwyddedu.

### Cwynion ac ymchwiliadau darlledu

Mae cwynion gan gynulleidfaoedd am achosion posibl o dorri dyletswyddau darlledwyr yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael eu hamddiffyn yn briodol. Bydd Ofcom yn asesu pob cwyn yn ôl y Cod Darlledu, neu god neu amod trwydded perthnasol arall. Byddwn wedyn yn penderfynu a yw cwyn yn codi materion posibl mae angen ymchwilio ymhellach iddynt. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd Ofcom wedi asesu 21,484 o gwynion am safonau darlledu neu amodau trwydded (a oedd wedi disgyn o 24,462 y flwyddyn flaenorol), a 288 o gwynion am annhegwch a/neu dorri preifatrwydd heb gyfiawnhad (o'i gymharu â 171 yn y flwyddyn flaenorol).

### Amddiffyn plant a chynnal y rheolau sy'n ymwneud â darlledu cyn y trothwy 9 o'r gloch

Yn dilyn nifer o achosion yn 2011 a oedd yn ymwneud â darlledu rhaglenni anaddas cyn y trothwy 9 o'r gloch, roedd Ofcom wedi cymryd nifer o gamau gweithredu ar orfodi'r trothwy ar deledu. Mae hyn yn cyd-fynd â'n dyletswydd statudol arall i amddiffyn pobl ifanc o dan 18 oed.

Roeddem wedi cynnal cyfarfodydd ar draws y diwydiant gyda darlledwyr teledu sy'n darlledu rhaglenni adloniant poblogaidd i'r teulu cyn 9 o'r gloch, a gyda darlledwyr sy'n darlledu fideos cerddoriaeth, er mwyn trafod ein pryderon ynghylch cydymffurfio â rheolau'r Cod Darlledu sy'n ymwneud â darlledu cyn y trothwy 9 o'r gloch.

Roeddem wedi cynnal ymchwil newydd i safbwyntiau rhieni a phobl ifanc yn eu harddegau am raglenni teledu sy'n cael eu darlledu cyn y trothwy 9 o'r gloch. Ers i Ofcom ysgwyddo ei gyfrifoldebau darlledu yn 2003, rydym wedi cynnal ymchwil yn rheolaidd ymysg rhieni ynghylch lefel y pryderon sy'n ymwneud â'r math o gynnwys mae eu plant yn ei wylio ar y teledu. Rydym hefyd wedi mesur safbwyntiau rhieni am amser y trothwy a phwy sy'n gyfrifol am amddiffyn plant. Er enghraifft, mae llai o rieni nawr yn poeni am y rhaglenni teledu mae eu plant yn eu gwylio (31 y cant) nag yn 2009 (36 y cant). Mae saith deg saith y cant o rieni yn meddwl bod y trothwy ar yr amser iawn, ac mae 73 y cant yn credu bod faint o reoleiddio sydd ar deledu "oddeutu'r lefel iawn". Mae'r ymchwil hwn wedi dangos yn gyson bod rhieni'n dal i ddeall a gwerthfawrogi'r cysyniad o'r trothwy 9 o'r gloch ar deledu i amddiffyn plant, hyd yn oed gan ystyried y twf mewn blynyddoedd diweddar o ddulliau eraill o gael gafael ar ddeunyddiau clywedol.

Ym mis Medi 2011, roeddem wedi cyhoeddi canllawiau newydd i ddarlledwyr teledu, sy'n adlewyrchu canlyniadau ein hymchwil gyda rhieni a phobl ifanc yn eu harddegau. Roedd hyn yn egluro bod pob genre a math o gynnwys sy'n cael ei ddarlledu cyn ac yn syth ar ôl y trothwy 9 o'r gloch yn galw am ofal penodol er mwyn cydymffurfio â rheolau'r Cod Darlledu.

### Deunydd anaddas mewn fideos cerddoriaeth

Fel rhan o'n gwaith i orfodi'r trothwy, daeth Ofcom o hyd i ddau fideo cerddoriaeth a gafodd eu darlledu cyn y trothwy a oedd yn torri'r Cod Darlledu.

Roedd y fideo cerddoriaeth ar gyfer y gân Turn Around (5, 4, 3, 2, 1) gan Flo Rida ar 4Music, MTV Base, MTV Dance yn cynnwys delweddau o ddawnswyr yn perfformio mewn ffordd gythruddol iawn ac roedd yn cynnwys nifer o ddelweddau agos iawn o ben-ôl y dawnswyr benywaidd. Roedd Ofcom o'r farn bod y delweddau hyn yn cyfleu thema rywioledig iawn a mwy o ddelweddau rhywioledig na fyddid fel rheol yn eu disgwyl mewn fideo cerddoriaeth a ddarlledir ar adeg pan roedd hi'n debygol y byddai plant yn gwylio.

Roedd y fideo cerddoriaeth ar gyfer S&M gan Rihanna ar WTF TV yn canolbwyntio ar ryw, caethiwed ac arferion rhywiol sadomasocistaidd. Roedd Ofcom o'r farn bod y delweddau hyn, gyda'r geiriau, yn golygu bod y fideo yn cyfleu thema ffetis rhywioledig pwerus iawn.

Roedd Ofcom o'r farn nad oedd cynnwys y fideos cerddoriaeth hyn yn addas i blant ac y byddent wedi mynd tu hwnt i ddisgwyliadau tebygol y gynulleidfa ar gyfer y sianeli hyn yn ystod y dydd. Felly, nid oedd y rheini a oedd yn dal y trwyddedau wedi defnyddio cyfyngiadau amserlennu priodol i'r fideos er mwyn amddiffyn plant.

### Sancsiynau yn erbyn sianeli 'sgwrsio i oedolion'

Ym mis Rhagfyr 2011, roedd Ofcom wedi rhoi cosb ariannol o £130,000 i Satellite Entertainment Ltd mewn perthynas â'i wasanaethau Sport XXX Girls, Essex Babes a Northern Birds. Roedd hyn yn dilyn achosion difrifol a rheolaidd o dorri rheolau Cod Darlledu Hysbysebion y DU:

- Rhaid i hysbysebion beidio ag achosi tramgwydd difrifol nac eang yn erbyn safonau a dderbynnir yn gyffredinol.
- Rhaid defnyddio cyfyngiadau amseru perthnasol gyda hysbysebion sy'n anaddas i blant.

Ym mis Tachwedd 2011, roeddem wedi rhoi cosb ariannol o £110,000 i Playboy TV UK/Benelux Limited am resymau tebyg.

### Cynnal y rheolau sy'n ymwneud ag iaith dramgwyddus ar y radio

Ym mis Medi a mis Hydref 2011, canfu Ofcom fod nifer o orsafoedd radio wedi torri'r Cod Darlledu am ddefnyddio iaith dramgwyddus mewn rhaglenni radio, gan gynnwys deunyddiau a ddarlledwyd ar adeg pan roedd hi'n debygol iawn y byddai plant wedi bod yn gwrando.

Yng ngoleuni ein pryderon am y deunydd yn yr achosion hyn, roeddem wedi gofyn bod nifer o ddarlledwyr radio sy'n darlledu rhaglenni o'r fath – yn enwedig pan roedd plant wedi bod yn arbennig o debygol o fod yn gwrando – yn dod i gyfarfod i drafod ein pryderon am gydymffurfio â rheolau'r Cod Darlledu yn y maes hwn.

Wedyn cyhoeddodd Ofcom ganllawiau newydd i helpu darlledwyr radio i gydymffurfio â'r rheolau yn y Cod Darlledu sy'n ymwneud ag iaith dramgwyddus ar y radio. Roedd y canllawiau manwl hefyd yn egluro'r genres a'r mathau o gynnwys sy'n cael ei ddarlledu pan fydd plant yn debyg iawn o fod yn gwrando sy'n galw am ofal penodol er mwyn cydymffurfio â rheolau'r Cod Darlledu.

### Newyddiaduraeth ymchwiliadol a rhyddid mynegiant

Mae'n hanfodol bod darlledwyr yn gallu ymchwilio i faterion a allai fod yn ddadleuol ac sydd o ddiddordeb cyhoeddus ac o fudd i'r gynulleidfa. Bydd Ofcom yn parhau i amddiffyn yr hawl i ryddid mynegiant mewn newyddiaduraeth ymchwiliadol, gan ddefnyddio safonau yn y ffordd orau i warantu lefel briodol o ryddid mynegiant.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Ofcom wedi dyfarnu ar nifer o raglenni heriol a oedd, mewn nifer o achosion, wedi arwain at lawer iawn o gwynion. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglenni fel Panorama: Death in the Med (BBC 1), a oedd yn edrych ar ddigwyddiad lle'r oedd milwyr Israel wedi mynd ar fwrdd llong Llynges Rhyddid Gaza, a Sri Lanka's Killing Fields (Channel 4), a gyflwynodd dystiolaeth o droseddau rhyfel honedig yng ngham olaf rhyfel cartref Sri Lanka. Yn y naill achos a'r llall, ni chadarnhaodd Ofcom y cwynion. Yn benodol, roedd Sri Lanka's Killing Fields yn delio â mater dadleuol iawn yn deg a daeth Ofcom i'r casgliad bod Channel 4 yn gyffredinol wedi bod yn ddiduedd wrth drin a thrafod gweithredoedd a pholisïau llywodraeth Sri Lanka yn ystod cyfnod olaf y rhyfel.

Daeth un gŵyn fawr gan Sefydliad Rhyddid Palesteina (PLO) ynghylch The Palestine Papers (Al Jazeera). Roedd y gyfres ddogfen hon yn edrych ar ddogfennau diplomyddol a oedd yn ymwneud â phroses heddwch y Dwyrain Canol, a elwir yn "Palestine papers" a oedd yn cynnwys dogfennau a gymerwyd o swyddfa prif negodwr y PLO. Cwynodd y PLO fod y rhaglen yn annheg iddo ac i'w brif negodwr a'i bod hefyd wedi tarfu ar eu preifatrwydd heb gyfiawnhad.

Roedd Ofcom o'r farn bod y diddordeb cyhoeddus mewn archwilio'r materion hyn yn drech na'u disgwyliad i breifatrwydd a daethom i'r casgliad bod cyfiawnhad dros gasglu a defnyddio'r deunydd. Canfu ymchwiliad Ofcom hefyd fod y darlledwr, Al Jazeera, wedi cymryd llawer o gamau i ddilysu'r dogfennau roedd yn dibynnu arnynt ac roedd wedi bod yn ofalus iawn i sicrhau bod y ffeithiau'n cael eu cyflwyno'n deg.

### Gorfodi rheolau darlledu

Os bydd y Cod Darlledu wedi cael ei dorri, byddwn fel rheol yn cyhoeddi canfyddiad ac yn egluro pam mae darlledwr wedi torri'r Cod. Pan fydd darlledwr yn torri'r Cod yn fwriadol, yn ddifrifol neu drosodd a throsodd, gall Ofcom roi sancsiynau statudol yn erbyn y darlledwr, megis cosb ariannol neu, yn yr achosion mwyaf difrifol, ddiddymu trwydded. Dyma enghreifftiau o benderfyniadau Ofcom dros y flwyddyn ddiwethaf.




**Press TV**

Drwy gydol 2011, roedd Ofcom yn ymwneud ag achos sancsiynau gyda Press TV ynghylch cyfweliad a gafwyd o dan orfodaeth gan y newyddiadurwr Newsweek a Channel 4, Maziar Bahari, pan oedd mewn carchar yn Iran, roedd Ofcom o'r farn bod hwn yn achos difrifol o dorri'r Cod Darlledu. Arweiniodd hyn at ddirwy o £100,000 i Press TV Limited.

Yn ystod y gwrandawiad sancsiynau roedd y sawl a oedd yn dal y drwydded (Press TV Limited, yn Llundain) wedi cyflwyno sylwadau a oedd yn awgrymu i Ofcom bod rheolaeth olygyddol y sianel yn gyfrifoldeb i Press TV International (yn Tehran). Mae rheolau darlledu yn mynnu bod trwydded yn cael ei dal gan y sawl sydd â rheolaeth gyffredinol dros y gwasanaeth teledu: hynny yw, y sawl sy'n dewis y rhaglenni sydd i'w dangos yn y gwasanaeth ac sy'n trefnu amserlen y rhaglen.

Rhoddodd Ofcom gyfle i Press TV Limited wneud cais i'w weithrediadau yn Tehran gael eu trwyddedu'n gywir a chynigodd Ofcom help iddo wneud hynny. Cafodd Press TV Limited hefyd gyfle i gyflwyno sylwadau ar lythyr 'bwriad diddymu' Ofcom ond methodd y darlledwr â gwneud y cais angenrheidiol ac felly roedd Ofcom wedi diddymu trwydded Press TV i ddarlledu yn y DU. Cafodd y sianel ei thynnu o lwyfan teledu Sky ar 20 Ionawr 2012 (mae penderfyniad Ofcom i ddiddymu trwydded Press TV yn amodol ar gais am adolygiad barnwrol).

**Believe TV wedi cael dirwy am ddarlledu deunyddiau niweidiol**

Rhoddodd Ofcom gosb o £25,000 i The Light Academy Limited, mewn perthynas â'i sianel teledu Believe TV. Roedd y darlledwr wedi darlledu rhaglenni a oedd yn awgrymu i wylwyr bod modd gwella salwch difrifol iawn, gan gynnwys canser, methiant yr arennau a diabetes, drwy ddefnyddio cynnyrch penodol, fel 'Miracle Olive Oil Soap' neu olew, neu drwy gysylltu â llinell weddïo. Roedd y rhaglenni hefyd yn dweud nad oedd eisiau triniaeth feddygol gonfensiynol ar gyfer salwch o'r fath er mwyn gwella. Daeth Ofcom i'r casgliad y gallai'r deunydd fod wedi achosi niwed difrifol, ac nad oedd y sawl a oedd yn dal y drwydded wedi cymryd camau i ddarparu amddiffyniad digonol o gynnwys deunyddiau niweidiol o'r fath. Roedd y sawl a oedd yn dal y drwydded hefyd wedi methu â chydymffurfio drwy ddarlledu deunyddiau a oedd yn debyg i ddeunyddiau a oedd wedi torri'r rheolau o'r blaen, a rhoi gwylwyr agored i niwed mewn perygl uniongyrchol o niwed a bod rhywun yn ymelwa arnynt.

**Noor TV yn cael dirwy am annog gwylwyr i roi arian yn gyfnewid am weddïau**

Rhoddodd Ofcom ddirwy o £75,000 i Al Ehya Digital Television Limited mewn perthynas â'i sianel Noor TV, am annog gwylwyr i roi arian i'r sianel yn gyfnewid am weddïau. Roedd yr apêl yn canolbwyntio'n drwm ar gredoau crefyddol, yr oedd Ofcom yn credu a oedd yn gwneud gwylwyr agored i niwed yn fwy tebygol y roi arian nag y byddent wedi'i wneud fel arall.

## Rhyngwladol

Mae Ofcom yn gweithio'n agos gydag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill, sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd (UE) a chyrff byd-eang perthnasol. Rydym yn gwneud hyn gyda'r nod o ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn fforymau rhyngwladol i sicrhau eu bod yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU yn y ffordd orau. Yn ystod 2011/12, roedd Ofcom wedi:

- gweithio gyda Llywodraeth y DU ar drosi Fframwaith Rheoleiddio'r UE ar gyfer Cyfathrebu Electronig i gyfraith y DU, a oedd yn rhoi cyfrifoldebau a phwerau newydd i Ofcom mewn meysydd fel diogelwch rhwydwaith, casglu gwybodaeth a gorfodi;
- cefnogi gwaith Corff o Reoleiddwyr Ewropeaidd mewn Cyfathrebiadau Electronig (BEREC). Cafodd Ed Richards, Prif Weithredwr Ofcom, ei ethol ar Fwrdd BEREC fel Dirprwy Gadeirydd. Roedd y prif faterion i BEREC yn ystod 2011/12 yn cynnwys crwydro rhyngwladol, rhwydweithiau mynediad cenhedlaeth nesaf a niwtraliaeth net;
- cynrychioli buddiannau'r DU yn yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol (ITU), gan gynnwys yng Nghynhadledd Radio'r Byd (WRC) 2012 a'i baratoadau ar gyfer Cynulliad Safoni Telathrebu'r Byd 2012;
- cymryd rhan yng Ngrŵp Polisi Sbectrwm Radio'r UE, a oedd yn cynnwys cyfraniadau at gytundeb y Rhaglen Polisi Sbectrwm Radio sawl blwyddyn gyntaf (RSPP);
- parhau ein cyfraniad at waith yn ymwneud â rheoleiddio cynnwys darlledu a wneir gan Lwyfan Awdurdodau Rheoleiddio Ewrop (EPRA) gan gynnwys drwy ein presenoldeb ar Fwrdd EPRA;
- cymryd rhan yng ngwaith y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP) ac yn y Pwyllgor Ewropeaidd ar gyfer Rheoleiddio Post (CERP); a
- chadeirio Gweithgor y Gymdeithas dros Gydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar Gyfathrebu, Seilwaith a Pholisi Gwasanaethau (CISP), ac arwain paratoadau ar gyfer gweithdy ar fesuriadau band eang.

### Cynhadledd radio'r byd 2012

Cynadleddau Radio'r Byd (WRC), a gynhelir bob tair i bedair blynedd, yw'r prif ddigwyddiadau yn y calendr sbectrwm rhyngwladol. Mae eu heffaith yn dod yn fwy ac yn fwy ac rydym yn dibynnu mwy ar wasanaethau di-wifr, ac wrth i gyfathrebu electronig ddod yn fwy byd-eang fyth. Prif dasg y gynhadledd yw cytgordio dyraniad sbectrwm ar lefel fyd-eang a rhanbarthol. Mae hyn yn caniatáu i weithgynhyrchwyr gynhyrchu cynnyrch di-wifr ar raddfa fawr. Yn ogystal ag arwain at brisiau is, mae hyn o fudd i ddefnyddwyr, oherwydd byddant yn gallu defnyddio dyfeisiau (gliniaduron, ffonau symudol, tabledi a dyfeisiau eraill) ble bynnag byddant yn teithio.

Un o ganlyniadau allweddol WRC 2012 oedd y penderfyniad i ddyrannu sbectrwm yn y band 700 MHz i wasanaethau symudol a darlledu. Daw hyn i rym yn y gynhadledd nesaf (a ddisgwylir ddiwedd 2015) a bydd yn dod ag Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica yn unol â gweddill y byd, lle mae dyrannu gwasanaethau symudol o'r fath eisoes ar waith. Er y gallai hyn fraenaru'r tir ar gyfer defnyddio'r band 700 MHz ar gyfer gwasanaethau symudol yn Ewrop yn y pen draw, mae'n debyg y bydd unrhyw benderfyniad o'r fath rai blynyddoedd i ffwrdd, gan ddibynnu ar ganlyniadau astudiaethau a gwaith technegol arall ac ailgynllunio defnyddio darlledu ar gyfer gweddill y bandiau teledu UHF. Ym mis Mawrth 2012, roeddem wedi ymgynghori ar y mater hwn.

## Sbectrwm

### Amddiffyn y tonnau awyr

Un o brif gyfrifoldebau Ofcom yw rheoli sbectrwm radio - y tonnau awyr mae'r holl ddyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio i gyfathrebu. Mae hyn yn berthnasol i bopeth o ffonau symudol, a theledu i WiFi ac allweddi ceir.

Mae technoleg ddi-wifr yn chwarae rhan sy'n gynyddol bwysig ac mae hyn yn golygu bod y gofynion ar sbectrwm yn cynyddu'n gyflym.

Pan fydd dwy ddyfais yn trosglwyddo ar yr un amledd ceir ymyrraeth. O'r herwydd, mae'n bwysig rheoli mynediad i sbectrwm yn ofalus iawn. Mae tîm Ofcom o swyddogion peirianneg sbectrwm ar waith ledled y DU yn canfod a, phan fo'n bosibl, yn datrys ymyrraeth niweidiol.

Problem sy'n codi'n aml yw gyrwyr yn dioddef ymyrraeth i allweddi ceir di-wifr. Yn ystod 2011/12, roedd peirianwyr Ofcom wedi datrys dros 100 o'r achosion hyn. Mae hyn yn golygu ymweld â'r ardal dan sylw a dod o hyd i ffynhonnell yr ymyrraeth drwy ddefnyddio offer radio arbenigol.

### Darlledu anghyfreithlon

Mae maes pwysig arall o orfodaeth sbectrwm yn ymwneud â darlledu anghyfreithlon sy'n broblem fawr yn rhai o brif ardaloedd trefol y DU. Mae'r gorsafoedd anghyfreithlon hyn yn gallu achosi ymyrraeth i wasanaethau diogelwch bywyd allweddol yn ogystal â gorsafoedd trwyddedig y BBC a gorsafoedd radio cymunedol lleol a masnachol. Roeddem wedi cynnal 392 o weithrediadau yn erbyn gorsafoedd darlledu anghyfreithlon yn ystod 2011/12, o'i gymharu â 421 yn 2010/11.



### Technoleg gofod gwyn

Mae mwy a mwy o draffig ar y tonnau awyr mae dyfeisiau di-wifr yn dibynnu arnynt. Mae angen i ni feddwl am ffyrdd mwy effeithlon o ddefnyddio'r adnodd cyfyngedig hwn. Gofod gwyn yw'r enw a roddir i fandiau sbectrwm nad ydynt yn cael eu defnyddio gan ddeilydd y drwydded mewn lleoliad penodol ac ar adeg benodol. Mae'n bosibl i ddefnyddwyr ar wahân i'r sawl sy'n dal y drwydded ddefnyddio sbectrwm gofod gwyn, a gall hyn arwain at effeithlonrwydd gwell ar draws y sbectrwm, a gwasanaethau newydd arloesol i ddefnyddwyr.

Rydym wedi ymgynghori â rhanddeiliaid ar ddatblygu fframwaith rheoleiddio er mwyn caniatáu mynediad i sbectrwm gofod gwyn teledu. Mae hwn yn gapasiti nad yw'n cael ei ddefnyddio yn yr amleddau sydd wedi'u trwyddedu i deledu daearol digidol a meicroffonau di-wifr. Un flaenoriaeth allweddol o'r gwaith hwn fu amddiffyn y rheini sy'n defnyddio trwyddedau rhag ymyrraeth niweidiol.

Ym mis Medi 2011, roeddem wedi cyhoeddi datganiad yn dweud y byddem yn ystyried ac yn ymgynghori ynghylch sut mae eithrio dyfeisiau gofod gwyn o drwyddedau yn y DU. Ar sail ein harsylwadau presennol ar weithgarwch y diwydiant a safoni, rydym yn amcangyfrif y gallai dyfeisiau gofod gwyn fod mewn sefyllfa i gael eu defnyddio o 2014 ymlaen.

### Cynlluniau'r llywodraeth i ryddhau sbectrwm

Yn unol â'n blaenoriaeth asedau cyhoeddus, rydym wedi bod yn ymwneud yn weithredol drwy gydol y flwyddyn â gwaith y Llywodraeth i nodi a rhyddhau 500 MHz o sbectrwm cyhoeddus newydd at ddibenion newydd erbyn 2020.

## Cystadleuaeth

Ac yntau yn rheoleiddiwr sectoraidd, mae gan Ofcom ystod o ddyletswyddau sy'n seiliedig ar hybu a sicrhau cystadleuaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu polisi cystadleuaeth o dan ein pwerau sectoraidd: er enghraifft, adolygu marchnadoedd, datrys anghydfodau a gorfodi amodau rheoleiddio.

Ac yntau yn awdurdod cystadleuaeth, mae gan Ofcom hefyd bwerau cydamserol i ddelio ag ymddygiad gwrth-gystadleuol a chamddefnydd yn y sectorau cyfathrebu a phost. Mae gan Ofcom y pŵer i orfodi Erthygl 101 ac Erthygl 102 y Cyfamod ar Swyddogaethau'r UE a gwaharddiadau Pennod I a Phennod II y Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Mae gan Ofcom hefyd bwerau cydamserol i wneud ymchwiliadau marchnad a chyfeiriadau i'r Comisiwn Cystadleuaeth o dan y Ddeddf Menter 2002.

### Marchnadoedd llinell sefydlog a band eang cystadleuol

Ym mis Mawrth 2012, roeddem wedi gosod y prisiau caiff adran mynediad cyfanwerthu BT, Openreach, eu codi ar ddarparwyr cyfathrebu er mwyn cael mynediad at rai o'i brif wasanaethau telathrebu cyfanwerthu. Mae Ofcom yn disgwyl i'w brisiau arwain at ostyngiadau termau real mewn prisiau i'w ddefnyddwyr, wrth i ddarparwyr cyfathrebu drosglwyddo'r arbedion i'w cwsmeriaid band eang a llinell sefydlog. Mae'r prisiau'n ymwneud â'r ffioedd cyfanwerthu am wasanaethau ffôn a band eang sy'n cael eu cyflenwi i gartrefi ac i fusnesau ar draws rhwydwaith copr BT drwy broses a elwir yn ddadfwndelu. Mae hyn yn caniatáu i ddarparwyr cyfathrebu osod eu hoffer yng nghyfnewidfeydd ffôn Openreach i ddarparu gwasanaethau ffôn a band eang i'w cwsmeriaid.

Mae nifer y llinellau wedi'u 'dadfwndelu' wedi cynyddu o 123,000 ym mis Medi 2005 i dros wyth miliwn ym mis Mawrth 2012, gan alluogi ystod o ddarparwyr cyfathrebu i gynnig gwasanaethau llais llinell sefydlog a band eang i gwsmeriaid preswyl a busnes.

### Rhifau daearyddol

Ym mis Mawrth 2012, roeddem wedi cyhoeddi cynigion i helpu i warchod cyflenwad y DU o rifau daearyddol sydd ar gael i'w dyrannu i ddarparwyr cyfathrebu. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion i gau deialu lleol yn ardal Bournemouth (lle ceir prinder dybryd o flociau rhif) ym mis Tachwedd 2012 a chynnal cynllun peilot i godi ar ddarparwyr cyfathrebu'n flynyddol am ddefnyddio blociau rhif yn y 30 ardal sydd â'r nifer isaf o flociau ar ôl.

### Rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol

Mae miliynau o ddefnyddwyr yn defnyddio gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy rifau heb fod yn rhai daearyddol, fel 03, 08, 09 a 118, i ffonio busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill. Serch hynny, mae ymchwil Ofcom wedi dangos bod nifer o bobl wedi drysu ynghylch ar gyfer beth mae'r rhifau hyn a faint maent yn ei gostio, gan arwain at ddiffyg hyder ac ymddiriedaeth yn y gwasanaethau. O ganlyniad, mae defnyddwyr yn ffonio'r rhifau hyn yn llai aml, bydd darparwyr yn tueddu wedyn i beidio â'u defnyddio a cheir llai o arloesedd a allai fod o fudd i ddefnyddwyr.

Felly, ym mis Ebrill 2012 roeddem wedi gwneud cynigion i symleiddio'r costau ffonio hyn. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud ffonio rhifau ffôn 0800 am ddim o bob ffôn, gan gynnwys ffonau symudol. Yn dilyn ymgynghoriad, mae Ofcom yn bwriadu gwneud penderfyniad terfynol ar y rheolau newydd erbyn dechrau 2013.

Nifer y llinellau wedi'u 'dadfwndelu'

**2005: 123,000**

**2012: 8,000,000+**

Rydym hefyd yn dal i gymryd yr awenau ar y dull gweithredu yng nghyswllt rheoleiddio rhifau heb fod yn rhai daearyddol yn Ewrop, drwy ein gwaith gyda BEREC.

### ISDN30

Mae ISDN30 yn wasanaeth ffôn digidol sawl llinell sy'n cael ei ddefnyddio gan fusnesau, yn bennaf er mwyn darparu galwadau am i mewn ac am allan. Roeddem wedi adolygu marchnadoedd ISDN30 yn ystod 2010 ac wedi gweld ei bod yn ymddangos bod gormod o elw yn narpariaeth Openreach o wasanaethau ISDN30 cyfanwerthu.

Roeddem wedi penderfynu yn yr adolygiad mai rhyw fath o reolaeth pris fyddai'n briodol i fynd i'r afael â'r ystumiadau posibl yn y farchnad a allai ddeillio o'r elw hyn. Yn ystod 2011 roeddem wedi ymgynghori ar ffurf a lefel y rheolaeth prisiau hon. Ym mis Mawrth 2012, roeddem wedi nodi yn ein casgliad drafft i'r Comisiwn Ewropeaidd y byddem yn defnyddio rheolaeth pris math 'RPI-tynnu-X' i leihau pris cyfanwerthu gwasanaethau ISDN30 i'w costau gwaelodol erbyn mis Ebrill 2014. Ar ôl rhoi gwybod am ein cynigion i'r Comisiwn Ewropeaidd, roeddem wedi cyhoeddi datganiad ym mis Ebrill 2012, yn cadarnhau ac yn gosod y rheolaeth prisiau.

### Adolygiad o'r farchnad masnachu hysbysebion teledu

Ym mis Rhagfyr 2011, cwblhaodd Ofcom ei adolygiad cychwynnol o fasnachu hysbysebion teledu. Roedd yr adolygiad yn edrych ar sut caiff hysbysebion teledu eu prynu a'u gwerthu ac ni ddaeth o hyd i dystiolaeth glir o niwed i ddefnyddwyr – boed nhw'n wylwyr teledu, yn hysbysebwyr neu'n ddefnyddwyr terfynol cynnyrch sy'n cael ei hysbysebu ar y teledu.

Yng ngoleuni'r costau sylweddol a fyddai'n cael eu rhoi drwy ymchwiliad i'r farchnad, a'r effeithiau ansefydlogi posibl ar y diwydiant, roeddem wedi dweud na fyddai'n gymesur cyfeirio'r farchnad hysbysebion teledu at y Comisiwn Cystadleuaeth.

### Datrys anghyfodau'r diwydiant telathrebu

Yn ystod 2011/12, roeddem wedi datrys pedwar anghydfod rhwng cwmnïau telathrebu. Cafodd pob un o'r rhain ei gwblhau o fewn y dyddiad cau statudol sef pedwar mis. Ar ben hynny, ceir pedwar achos arall o anghydfod sy'n dal i fynd rhagddynt. Roedd yr anghydfodau hyn yn berthnasol i ystod eang o faterion o gydymffurfiad BT â'i ddyletswyddau gogwydd cost i ymarfer o'r enw 'fflip-fflopio' mewn perthynas â ffioedd terfynu galwadau llais symudol cyfanwerthu.

Mae rhagor o wybodaeth am ein hymchwiliadau i gwynion am ymddygiad gwrth-gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau rheoleiddio yn yr Atodiad ar dudalen 116.

## Cyflwr gwlad cyfathrebu'r DU

Ym mis Tachwedd 2011, lansiodd Ofcom fapiau darpariaeth cyfathrebu digidol, gan gynnwys darpariaeth symudol yn yr awyr agored ac argaeledd band eang sefydlog, drwy ddefnyddio'r data a ddarparwyd gan ddarparwyr cyfathrebu.

Roedd y mapiau yn rhan o'n hadroddiad cyntaf ar seilwaith cyfathrebu'r DU y mae'n rhaid i ni ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon bob tair blynedd. Mae adroddiad Ofcom hefyd yn cyfeirio at ddarpariaeth a chapasiti rhwydwaith llinellau sefydlog y DU, teledu a radio digidol. Roedd y mapiau'n dangos:

- 2G gan y pedwar rhwydwaith – mae 97% o eiddo a 66% o arwyneb tir y DU yn gallu derbyn signal yn yr awyr agored.
- eiddo yn y DU nad oes ganddynt ddewis o'r pedwar rhwydwaith symudol 2G – 900,000.
- 3G gan y pum rhwydwaith - gallai 73% o eiddo a 13% o arwyneb tir y DU dderbyn signal yn yr awyr agored.
- Eiddo nad oes ganddynt ddewis o'r pum rhwydwaith symudol 3G – 7.7 miliwn.
- Defnydd data cwsmeriaid band eang sefydlog preswyl – 17 GB o ddata'r mis ar gyfartaledd.
- Defnydd data cwsmeriaid band eang symudol – 0.24 GB y mis fesul cysylltiad ar gyfartaledd.

# Sut rydym yn rheoli risgiau a sialensiau

Mae rheoli risg yn rhan annatod o'n gweithgareddau busnes o un diwrnod i'r llall ac mae'n gydran allweddol o'n fframwaith rheolaeth fewnol. Mae polisi rheoli risg Ofcom yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac mae'n diffinio ein dull o reoli risg yn glir yn ogystal ag yn diffinio'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau rheoli risg penodol sy'n bodoli ar draws y sefydliad.

I wneud yn siŵr bod ein fframwaith rheoli risg yn effeithiol a'i fod wedi'i alinio â gofynion y sefydliad, byddwn yn cynnal adolygiad risg blynyddol sy'n cynnwys ymarfer i feincnodi ein proses yn ôl Fframwaith Asesu Rheoli Risg y Trysorlys. Bydd argymhellion o'r adolygiad risg hwn yn cael eu cymeradwyo gan uwch reolwyr a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ac yn rhan o'n rhaglen barhaus i wella ein fframwaith rheolaeth fewnol.

Caiff canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad risg blynyddol eu hystyried gan KPMG a bydd yn cyflwyno sylwadau arnynt fel rhan o gynllun archwilio mewnol Ofcom.

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at rai o'r risgiau allweddol y mae'r sefydliad yn eu rheoli ar hyn o bryd. I gael esboniad pellach ar sut rydym yn rheoli risgiau a sialensiau, edrychwch ar y Datganiad Llywodraethu yn Adran C.

| Amcan/Maes Busnes | Risg | Lliniariad |
|---|---|---|
| Cyflawni gwarant y Llywodraeth o sbectrwm di-wifr ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain | Gallai fod dim digon o sbectrwm ar gael i ddiwallu'r holl anghenion yn ystod cyfnod y Gemau ac efallai na chaiff gwarant sbectrwm Llywodraeth y DU i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol ei ddiwallu.<br>Gallai ymyrraeth niweidiol atal defnyddio sbectrwm sydd wedi'i neilltuo ac ymyrryd ar ddiogelwch a llwyddiant y Gemau. | Rydym wedi creu cynllun sbectrwm cynhwysfawr ar gyfer cyfnod y Gemau, gan ddarparu digon o adnoddau sbectrwm i ddiwallu anghenion y Gemau.<br>Rydym wedi adeiladu a phrofi system neilltuo sbectrwm newydd er mwyn gallu defnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon.<br>Rydym wedi gweithredu rhwydwaith synhwyrydd modern ar draws y wlad i ddod o hyd i unrhyw ffynonellau o ymyrraeth, a thîm mawr o beirianwyr maes i ddatrys unrhyw broblemau.<br>Rydym wedi cymryd rhan yn nigwyddiadau prawf Gemau 2012 Llundain ac wedi gweithredu unrhyw wersi sydd wedi cael eu dysgu. |
| Clirio a chynnal arwerthiant o fandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz | Mae'r cynlluniau a'r amserlen sydd mewn lle i glirio a chynnal arwerthiant o'r sbectrwm yn y bandiau 800 Mhz a 2.6 GHz yn heriol ac mewn rhai ardaloedd, gallent gael eu herio gan randdeiliaid.<br>Gallai oedi effeithio ar argaeledd gwasanaethau telegyfathrebu newydd, gan gynnwys gwasanaethau symudol 4G i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion. | Rydym wedi rhoi adnoddau medrus iawn ar waith, a byddwn yn defnyddio arbenigedd rheoli rhaglenni a phrosiectau proffesiynol ac arbenigedd archwilio annibynnol i helpu i sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu cyflawni'n amserol ac yn effeithiol.<br>Yn ystod 2012, roeddem unwaith eto wedi ymgynghori ynghylch cynlluniau i reoli ymyrraeth bosibl i deledu daearol digidol a achosir drwy ddefnyddio gwasanaethau 4G ac ynghylch ein cynigion i arwerthu sbectrwm yn y bandiau 800 Mhz a 2.6 GHz.<br>Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid. |

| Amcan/Maes Busnes | Risg | Lliniariad |
|---|---|---|
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ar gontract allanol | Gall oedi cyn symud yn llawn i ddarparwr gwasanaeth newydd a materion sy'n ymwneud â sefydlogrwydd gweithredol beri risg i swyddogaethau busnes yn ôl yr arfer ac yn benodol, paratoi a chyflawni ein gwaith i gefnogi Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain. | Roeddem wedi gweithredu strwythur llywodraethu cynhwysfawr i oruchwylio'r newid i'r cyflenwr newydd, gyda'r cynnydd, y risgiau a'r materion yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r prif Fwrdd, y Pwyllgor Risg ac Archwilio a'r Bwrdd Gweithrediadau.<br>Cafodd Cytundebau Lefel Gwasanaeth Cadarn eu diffinio gyda'r contract a chaiff perfformiad ei adolygu'n rheolaidd gyda'r cyflenwr.<br>Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r cyflenwr i wella perfformiad gweithredol.<br>Rydym wedi rhewi unrhyw newidiadau i systemau TGCh cyn Gemau 2012 Llundain.<br>Mae gennym gynlluniau wrth gefn mewn lle ar gyfer cymorth Olympaidd os bydd unrhyw faterion TGCh. |
| Paratoi ar gyfer dyletswyddau rheoleiddio mewn perthynas â phost a'u cyflawni | Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd Ofcom y gwaith o reoleiddio gwasanaethau post y DU gan y rheoleiddiwr blaenorol Postcomm.<br>Efallai na fyddwn yn gallu diogelu dyletswydd gwasanaeth cyffredinol (USO) y DU ar wasanaethau post, a fyddai'n golygu effaith uniongyrchol ar ddinasyddion a defnyddwyr. | Ysgwyddo ein dyletswyddau a'n pwerau newydd yn llwyddiannus.<br>Roeddem wedi ymgynghori ynghylch dull gweithredu newydd ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post yn economaidd, a oedd yn cynnwys nifer o drefniadau diogelu rheoleiddio i sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn aros yn hyfyw.<br>Byddwn yn ymgymryd ag ystod o waith i sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu, gan gynnwys asesiad o anghenion defnyddwyr. |
| Gweithredu darpariaethau torri hawlfraint ar-lein Deddf yr Economi Ddigidol 2010 | Efallai bydd rhanddeiliaid yn herio ein Cod Ymarfer, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol.<br>Gall diwygiadau arfaethedig i'r Mesur Diogelu Rhyddid ddiddymu darpariaethau allweddol yn ein Cod Ymarfer.<br>Gellid gweld Ofcom fel targed i'r rheini sy'n gwrthwynebu Deddf yr Economi Ddigidol. | Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ac wedi ymgynghori'n ffurfiol wrth ddrafftio'r Cod Ymarfer.<br>Rydym yn cynghori Llywodraeth y DU ynghylch y Mesur Diogelu Rhyddid.<br>Mae gennym bolisïau diogelwch cadarn ar waith ac rydym wedi cwblhau cynllun o brofion adfer ar ôl argyfwng TGCh. |
| Newid cyflym yn y sectorau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom | Mae'r sectorau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom yn newid yn gyflym sy'n golygu ei bod yn anodd datblygu cynlluniau i ragweld gweithgareddau neu ddigwyddiadau mawr a allai ofyn am gyfranogiad gan Ofcom.<br>Yn yr amgylchedd presennol, gall gwaith ychwanegol heb ei gynllunio arwain at ail-flaenoriaethu gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt ac sydd ar y gweill a allai arwain at oedi wrth ddarparu manteision i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion. | Rydym yn ceisio cynnal ystod o arbenigedd a chwmpas ar gyfer hyblygrwydd mewn timau prosiectau er mwyn i ni allu addasu neu symud adnoddau ar fyr rybudd os oes angen.<br>Mae Pwyllgor Gwaith Ofcom yn gyfrifol am flaenoriaethu prosiectau ac addasu cynlluniau gwaith yn ôl y galw. Rydym wedi cryfhau ein prosesau cynllunio prosiect drwy sefydlu Tîm Cynllunio a Pherfformiad penodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau.<br>Mae Cynllun Blynyddol Ofcom, sy'n amlinellu ei flaenoriaethau strategol, yn destun ymgynghoriad cyhoeddus bob blwyddyn. |
| Gallu rheoleiddio mewn ffordd effeithlon ac amserol | Gallai mwy o apeliadau ac ymgyfreitha arwain at oedi posibl wrth weithredu newidiadau rheoleiddio sydd:<br>• yn stopio defnyddwyr rhag elwa arnynt o'r cyfle cyntaf;<br>• yn gallu ymyrryd ar gystadleuaeth effeithiol yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio; ac<br>• yn gallu gwneud rheoleiddio yn ddrutach i'r rhanddeiliaid sy'n cyllido Ofcom. | Rydym yn gwneud yn siŵr bod ein penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth a'u bod yn gadarn ac rydym yn cynnal asesiadau o'r effaith i fesur yr effaith debygol ar randdeiliaid.<br>Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy ein prosesau ymgynghori i wneud yn siŵr ein bod yn deall eu safbwyntiau a'n bod yn gallu eu hystyried.<br>Mae Llywodraeth y DU yn edrych ar ddewisiadau posibl ynghylch y drefn apeliadau ar gyfer telathrebu gyda rhanddeiliaid. |

# Sut rydym yn gweithio a phwy rydym yn gweithio gyda nhw

Mae statud yn pennu dyletswyddau a phwerau Ofcom.

Gan mai ni yw rheoleiddiwr annibynnol y diwydiannau cyfathrebu, rhaid i ni hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

Cawn ein cyllido gan randdeiliaid (ffioedd trwyddedau darlledwyr teledu a radio a ffioedd gweinyddol i reoleiddio rhwydweithiau cyfathrebu a darparwyr post) a chyllid cymorth grant gan Lywodraeth y DU. Mae rhagor o fanylion am ein trefniadau cyllido ar gael yn yr Adolygiad Ariannol a Gweithredu yn Adran Ch. Bob blwyddyn, ar ôl ymgynghori, byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Blynyddol, sy'n amlinellu cynlluniau newydd a gweithgareddau sy'n parhau y byddwn yn eu gwneud i gefnogi ein dyletswyddau.

## Mesur a rhannu canlyniadau

Yn ein Cynllun Blynyddol 2011/12, roeddem wedi nodi 13 blaenoriaeth gydag oddeutu 40 o brosiectau a rhaglenni wedi'u dyrannu yn eu herbyn. Yn sail i hyn ceir y gofyniad i ddiwallu ein setliad Adolygiad o Wariant gyda'r Trysorlys drwy gyflawni effeithlonrwydd ar draws y sefydliad. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad hwn, mae Ofcom wedi dod yn ei flaen yn dda o ran cyflawni canlyniadau yn erbyn nifer o flaenoriaethau ei Gynllun Blynyddol a'i waith 'busnes yn ôl yr arfer' yn 2011/12.

Yn y pen draw, credwn y dylid barnu ein perfformiad drwy gyfeirio at y canlyniadau yr ydym wedi'u sicrhau i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr o ganlyniad i'n gwaith. Rydym yn mesur yn drwyadl y canlyniadau hyn mewn sawl ffordd gan ddefnyddio fframwaith cynhwysfawr a chadarn ar gyfer mesur ein perfformiad, adrodd arno a rhoi gwybod amdano yn fewnol ac yn allanol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio ar sut rydym yn cyfleu'r canlyniadau hyn, ac rydym wedi ceisio mesur ein perfformiad ein hunain wrth i ni symud drwy'r rhaglen waith. Mae'r tabl ar dudalen 13 yn mesur ein perfformiad o ran yr 13 blaenoriaeth roeddem wedi'u gosod i ni'n hunain yn ein Cynllun Blynyddol 2011/12.

I helpu i fonitro a yw ein gwaith yn llwyddo i gyflawni'r canlyniadau a geisir byddwn yn cynnal ymchwil defnyddwyr manwl o bryd i'w gilydd. Byddwn yn cyhoeddi'r ymchwil hwn yn rheolaidd mewn arddull hwylus ar ein gwefan. Rydym yn cyhoeddi data mewn ystod o gyhoeddiadau Ofcom gan gynnwys yr *Adroddiad Marchnad Cyfathrebu, Adroddiad Marchnad Cyfathrebu Rhyngwladol, Adroddiad Seilwaith y DU, Adroddiad Profiad Defnyddwyr*, ein hadroddiadau llythrennedd yn y cyfryngau a'r *Adroddiad Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus*.

## Pryd byddwn yn rheoleiddio

Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu ein bod yn rhoi sylw i egwyddorion rheoleiddio gwell: y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac wedi'i dargedu dim ond at achosion y mae angen gweithredu yn eu cylch. Pan sefydlwyd Ofcom, buom yn ehangu'r egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion rheoleiddio a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Am fod y sector cyfathrebu'n newid mor gyflym mae'n bwysig iawn fod gennym egwyddorion clir i'n tywys ac maent wedi'u nodi isod.

## Egwyddorion rheoleiddio ofcom

### Pryd byddwn yn rheoleiddio

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.

Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

### Sut rydym yn rheoleiddio

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ei amcanion.

Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau ar sail tystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau.

Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fydd wedi'i fynegi'n glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus, ynghyd ag amcanion sydd wedi'u datgan.

### Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio

Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.

Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

## Lleihau rheoleiddio

Mae Ofcom yn canolbwyntio ar leihau rheoleiddio pan fo'n bosibl. Rydym yn credu bod 'rheoleiddio gwell' yn golygu sicrhau bod rheoleiddio'n cael ei dargedu'n briodol ac nad yw'n gosod beichiau gormodol ar randdeiliaid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig. Gwelodd rhai penderfyniadau batrwm parhaus tuag at lai o reoleiddio. Er mwyn diogelu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, roedd rhai penderfyniadau'n gofyn am reoleiddio ychwanegol neu reoleiddio cryfach. Mae Ffigur 1 yn rhoi golwg gyffredinol o sut mae'r baich rheoleiddio ar randdeiliaid wedi newid o ganlyniad i benderfyniadau a datganiadau rheoleiddio Ofcom yn ystod 2011/12. Mae'n dangos bod 18% o'r datganiadau a'r penderfyniadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn wedi arwain at lai o faich rheoleiddio ar ein rhanddeiliaid (29% y llynedd). Nid oedd y rhan fwyaf (70%) o'r datganiadau wedi arwain at newid y baich rheoleiddio, neu mae'r gwaith yn parhau (54% y llynedd); gwelodd 7% gyflwyno rhagor o reoleiddio neu reoleiddio newydd (14% y llynedd) ac roedd 5% wedi arwain at ganlyniadau wedi'u symleiddio neu gyd-reoleiddio (3% y llynedd).

Yn benodol, rydym yn cymryd camau pendant ac effeithiol i ddiogelu dinasyddion a defnyddwyr lle bo angen, er enghraifft:

- amddiffyn ein gwaith i leihau ffioedd terfynu galwadau symudol yn y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth;
- sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu oddi wrth gam-werthu llinellau sefydlog a 'slamio', sy'n digwydd pan fydd cwsmer yn cael ei newid i ddarparwr arall heb iddo wybod am hynny na chytuno ar hynny.
- lleihau cyfnodau clymu ffôn a band eang – mae contractau defnyddwyr nawr wedi cael eu cyfyngu i 24 mis ar y mwyaf


Rydym wedi ymrwymo i leihau rheoleiddio, er enghraifft drwy:

- rhoi rhagor o ryddid i'r Post Brenhinol yn y ffordd mae'n gosod ei brisiau, ond gan gyflwyno trefniadau diogelu i sicrhau bod defnyddwyr a chystadleuaeth yn cael eu diogelu;
- symleiddio ein gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, achosion a sancsiynau darlledu; ac
- eithrio defnyddio dyfeisiau di-wifr o'r angen am drwydded.

Mae golwg gyffredinol o'r datganiadau a'r penderfyniadau allweddol rydym wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ar gael yn y tablau yn yr Atodiad at dudalennau 107 i 109.

**Ffigur 1: Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid yn 2011/12**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Llai o reoleiddio | 10 | 18% |
| Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | 3 | 5% |
| Cymysg/dim newid/parhaus | 40 | 70% |
| Rheoleiddio wedi cynyddu/newydd | 4 | 7% |



## Perthynas â rhanddeiliaid

Mae swyddogaeth Ofcom fel rheoleiddiwr yn mynnu ein bod yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a chyrff y diwydiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, grwpiau defnyddwyr a defnyddwyr, Llywodraeth y DU a'r sefydliadau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn aelodau o'r Grŵp Cyd-reoleiddwyr (JRG), a oedd eleni wedi lansio gweithgorau ar draws nifer o bynciau i rannu gwybodaeth ac arbenigedd, ac i fynd i'r afael â materion sy'n gyffredin ar draws diwydiannau a reoleiddir. Rydym hefyd yn ymgysylltu â sefydliadau a chyrff rheoleiddio rhyngwladol amrywiol.

### Ymgynghori

Mae ymgynghori yn rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ac ymateb i'n cynigion cyn i ni wneud penderfyniad. Os bydd cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Gallai hyn effeithio ar ein gallu i ddelio â mater cyn gynted ag y byddai'r rhanddeiliaid dan sylw'n ei hoffi. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghoriad, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth hyn. Yn gyffredinol, ceir tri chategori o ymgynghoriad:

- Categori 1: ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi o bwys a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o randdeiliaid (yn enwedig y rheini y bydd angen mwy o amser arnynt efallai ar gyfer ymateb); yn yr achosion hyn byddwn yn ymgynghori am ddeg wythnos fel arfer.
- Categori 2: ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig ond a fydd o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o randdeiliaid a fydd yn ymwybodol o'r materion; yn yr achosion hyn byddwn yn ymgynghori am chwe wythnos fel arfer.
- Categori 3: ymgynghoriadau sy'n dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol, gyda'r cyfnod ar gyfer ymgynghori yn fis fel arfer:

  – materion technegol;

  – lle bydd angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle mae gofyn cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;

  – bod y mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad;

  – lle na chaiff cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu

  – lle nad yw cynnig ond yn fân newid i bolisi neu reoleiddiad sy'n bodoli eisoes.

## Cyswllt â defnyddwyr a dinasyddion

Mae deall diddordebau ac ymddygiad defnyddwyr a dinasyddion yn hanfodol i'n gwaith. Mae Ofcom yn defnyddio ymchwil marchnad yn helaeth i ddeall patrymau sy'n ymwneud â'r nifer sy'n prynu ac yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ac ymddygiad a phryderon defnyddwyr. Mae ein Hadroddiad Profiad Defnyddwyr a Marchnad Cyfathrebu blynyddol, yn benodol, yn amlygu ac yn dadansoddi'r patrymau hyn. Mae Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom yn cael dros 100,000 o alwadau'n uniongyrchol gan ddefnyddwyr bob blwyddyn ac mae'r wybodaeth a gawn gan ddefnyddwyr yn ein helpu i dargedu ein polisïau a'n gwaith gorfodi. Gall defnyddwyr hefyd gysylltu â ni drwy ein gwefan. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telegyfathrebu, rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Serch hynny, rydym yn delio â chwynion am raglenni teledu a radio.


Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu ac, o safbwynt gwledydd y DU, Pwyllgor y Gwledydd a Phwyllgorau Cynghori Cenedlaethol Ofcom, yn darparu cyngor ar benderfyniadau Ofcom. Bydd y Fforwm Defnyddwyr ar Gyfathrebu, sydd â dros 50 o aelodau o gyrff defnyddwyr, yn cwrdd bob chwarter ag Ofcom i drafod pynciau polisïau defnyddwyr. Byddwn hefyd yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda sefydliadau rhanddeiliaid defnyddwyr yn ogystal â chyfarfodydd ymgynghori ar bynciau penodol.

**Ffigur 2: Dadansoddiad o hyd ymgynghoriadau: 2011/12**

| | Cyfnod ymgynghori o leiaf 10 wythnos o hyd | Cyfnod ymgynghori llai na 10 wythnos (gan gynnwys ymgynghoriadau categori 2 a chategori 3) |
|---|---|---|
| Telegyfathrebu | 6 | 12 |
| Darlledu | 7 | 11 |
| Sbectrwm | 3 | 1 |
| Post | 1 | 4 |
| Arall | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **18 (= 38%)** | **29 (= 62%)** |


Yn Ffigur 2 dadansoddir hyd ein hymgynghoriadau fesul sector. Bydd cyfnod ymgynghori hwy'n rhoi mwy o gyfle i ymateb ac ymwneud mwy â phenderfyniadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd y mater yr ymgynghorir yn ei gylch o bwys mawr. Yn 2011/12, roedd 37% o'n hymgynghoriadau wedi para o leiaf deg wythnos, o'i gymharu â 26% y llynedd a 51% yn 2009/10. Roedd chwe deg tri y cant o ymgynghoriadau wedi para llai na deg wythnos yn 2011/12, a oedd wedi dod i lawr o 74% yn 2010/11.

**Ffigur 3: Ymatebion i ymgynghoriadau: 2011/12**




Mae Ofcom yn casglu ystadegau am nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau, a ddangosir yn Ffigur 3. Mae'r siart yn dangos y nifer mawr o ymatebion rydym wedi'u cael dros y flwyddyn, ar sail y 43 o ymgynghoriadau lle'r oeddem wedyn wedi cyhoeddi datganiad. Cafwyd amrywiaeth eang iawn o ymatebion i naw ymgynghoriad (h.y. 31 neu fwy). Mae hyn un yn llai nag yn 2010/11 lle cafwyd 31 neu fwy o ymatebion i 10 ymgynghoriad.

**Ffigur 4: Dadansoddiad o'r amser a gymerwyd i gyhoeddi penderfyniad Ofcom ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben: 2011/12**




**Ffigur 5: Dadansoddiad o'r asesiadau o'r effaith a gynhaliwyd**

| Nifer y dogfennau ymgynghori | Cyfanswm | IA yn rhan o'r ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telegyfathrebu | 18 | 11 |
| Darlledu | 17 | 9 |
| Sbectrwm | 4 | 4 |
| Post | 5 | 2 |
| Arall | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **46** | **27 (= 59%)** |

## Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym hefyd yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben (gweler Ffigur 4). Yn 2011/12, cyhoeddwyd 14 o benderfyniadau cyn pen 10 wythnos ar ôl cau'r ymgynghoriad. Cafodd un deg a thri o benderfyniadau eu cyhoeddi rhwng 11 a 20 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.

## Asesiadau o'r effaith

Mae asesiadau o'r effaith (IAs) yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnal asesiad o'r effaith lle rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Mae asesiadau o'r effaith yn sicrhau, ymysg pethau eraill, yng nghyswllt ein penderfyniadau:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posibl pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus; a
- bod y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ddewisir.

Rhaid i Ofcom gyhoeddi rhestr o'r asesiadau o'r effaith sydd wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn, sy'n ymddangos yma ac yn yr Atodiad ar dudalennau 110 a 111.

Ym mis Gorffennaf 2005, roeddem wedi cyhoeddi canllawiau *Arferion gorau wrth lunio polisïau: agwedd Ofcom at asesu effaith* a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses llunio polisïau gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal asesiadau o'r effaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau ar bolisïau.

Roedd pum deg naw y cant o ddogfennau ymgynghori'n cynnwys asesiad o'r effaith wedi'i osod mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori, na chafodd ei newid ers y llynedd (gweler Ffigur 5). Efallai y bydd dogfennau ymgynghori heb adran benodol ar gyfer asesiad o'r effaith penodol yn dal yn cynnwys asesiadau o effaith wedi'u cyfuno drwy'r holl ddogfen. Ar ben hynny, dan rai amgylchiadau efallai na fydd angen cynnal asesiad o'r effaith neu efallai na fydd yn briodol ei gynnal. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau o'r effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.

## Dyletswyddau newydd a diwygiedig

Rydym hefyd yn gweithredu ein dyletswyddau newydd neu ddiwygiedig. Ceir nifer o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth y DU a weithredir neu a gynigir gan Lywodraeth y DU ac sy'n cael eu hystyried gan y Senedd a fydd yn newid ein dyletswyddau. Mae rhai o'r rhain yn ein galluogi i gwtogi ein costau a bydd eraill yn golygu ei bod yn rhaid i ni ysgwyddo cyfrifoldebau newydd. Maent yn cynnwys:

- gweithredu'r darpariaethau yn Neddf yr Economi Ddigidol sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein;
- Gorchymyn posibl o dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus lle mae Llywodraeth y DU wedi cynnig diwygio dyletswyddau Ofcom mewn rhai meysydd; a
- throsglwyddo rheoleiddio'r gwasanaethau post i Ofcom gan Postcomm, fel y nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Post 2011. Ysgwyddodd Ofcom y cyfrifoldeb rheoleiddio dros wasanaethau post ar 1 Hydref 2011.

Roeddem hefyd wedi cyhoeddi ein *Hadroddiad Seilwaith y DU* cyntaf, y mae'n rhaid i ni ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon bob tair blynedd (gweler tudalen 35).

Ceir gofynion hefyd i Ofcom gydymffurfio â darpariaethau penodol y Fframwaith Cyfathrebu Ewropeaidd diwygiedig. Er mwyn gweithredu hyn yn ystod y flwyddyn roeddem wedi:

- adolygu ein Hamodau Cyffredinol ac Amodau Gwasanaethau Cyffredinol, fel sy'n briodol; a
- diweddaru ein prosesau ar gyfer datrys anghydfodau a gorfodi.

Gweithiodd Ofcom gyda rheoleiddwyr cyfathrebu mewn gwledydd Ewropeaidd eraill ac o amgylch y byd, yn ddwyochrog a drwy rwydweithiau rheoleiddio megis BEREC, y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio (RSPG), a'r Llwyfan Ewropeaidd o Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA), i ddilyn dull gweithredu cydlynol o ran rheoleiddio cyfathrebu rhyngwladol.

## Cyd-reoleiddwyr

Mae Ofcom yn rhannu cyfrifoldebau rheoleiddio mewn rhai meysydd â rheoleiddwyr eraill. Roedd Ofcom wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddelio â chwynion sy'n ymwneud â chynnwys golygyddol ar wasanaethau fideo ar alwad yn y DU i'w bartner cyd-reoleiddio sef yr Awdurdod Teledu Ar Alwad, y Gymdeithas Teledu Ar Alwad gynt. Ym mis Mawrth 2012, roedd Ofcom wedi gwahodd cyfraniadau at adolygiad o ddynodi ATVOD. Mae'r dynodiad, a wnaed ym mis Mawrth 2012, yn amodol ar adolygiad ffurfiol gan Ofcom ar ôl dwy flynedd.

Roedd Ofcom wedi dynodi mai'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) fyddai'r awdurdod cyd-reoleiddio priodol mewn perthynas â hysbysebu ar wasanaethau fideo ar alwad a hysbysir wrth yr ATVOD.

Mae hyn yn adeiladu ar y bartneriaeth cyd-reoleiddio gyda'r ASA, a gafodd ei chreu yn 2004. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r Codau Hysbysebu o dan eu trwyddedau darlledu a gyhoeddwyd gan Ofcom. Pan fydd yr ASA yn dyfarnu ar hysbyseb, bydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r penderfyniadau ar unwaith o dan amodau eu trwyddedau. Fodd bynnag, pan fo angen, mae'r ASA yn gallu cyfeirio'r rheini sy'n dal trwyddedau at Ofcom.

Mae PhonepayPlus yn asiantaeth rheoleiddio arall sy'n gyfrifol am reoleiddio o ddydd i ddydd ar ran Ofcom. Mae PhonepayPlus yn gweithio gyda'r diwydiant ac yn gorfodi cod ymarfer ar gyfer gwasanaethau cyfradd premiwm, sy'n galluogi defnyddwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau drwy godi'r gost ar eu biliau ffôn a'u cyfrifon talu ymlaen llaw.

# Ein gweithwyr



### Cenhadaeth a gwerthoedd Ofcom

Mae Aelodau Bwrdd a chydweithwyr Ofcom yn rhannu'r un ymrwymiad i genhadaeth a gwerthoedd Ofcom ac maent yn cyflawni gwaith y sefydliad gan gyfeirio at y gwerthoedd craidd hyn. Yr oedd cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad yn allweddol wrth ddatblygu'r chwech o werthoedd sy'n adlewyrchu ein dymuniad i weithio mewn ffordd agored, effeithiol ac sy'n canolbwyntio ar bobl.

Rydym yn gwneud ein gorau glas i fod yn ddeinamig, yn ymatebol ac yn ymwybodol yn fasnachol: mae meddwl yn bendant, dadansoddi'n drwyadl ar sail tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol i'n heffeithiolrwydd fel sefydliad.

### Strwythur y sefydliad

Dros y tair blynedd hyd at 2014/15 bydd Ofcom yn parhau i leihau 28.2 y cant mewn termau real ar ei gyllideb. Mewn ymdrech i leihau ansicrwydd ac ail-lunio ac ail-ffocysu'r sefydliad yn gyflym, roeddem wedi gwneud y rhan fwyaf o'n toriadau yn 2011/12, pan roedd cyllideb Ofcom yn £115.8m; cafodd hon ei phennu cyn i Ofcom ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau post gan Postcomm. Roedd cyllideb Postcomm ar gyfer 2011/12 yn £8.9m. Ar ddiwedd mis Mawrth 2012, roeddem wedi dweud mai ein cyllideb ar gyfer 2012/13 oedd £121.4m; roedd hyn yn cynnwys £7.2m i Ofcom gyflawni ei ddyletswyddau newydd i reoleiddio'r sector gwasanaethau post.

Cafodd yr arbedion eu gwneud drwy effeithlonrwydd, lleihau costau staff, symleiddio prosiectau a llywodraethu a rhoi'r gorau i rai gweithgareddau'n gyfan gwbl. Ar ddechrau 2011, roeddem wedi rhoi strwythur mewnol newydd ar waith ac roedd nifer o gydweithwyr wedi ffarwelio â ni drwy ddileu swyddi.

Yn ystod 2011/12 bu ein ffocws ar wreiddio'r strwythur newydd ar yr un pryd â sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio yn ystod cyfnod o gryn newid. O ganlyniad i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r gwasanaethau post, daeth 27 o gydweithwyr i Ofcom o Postcomm ar 1 Hydref 2011.

## Dyma werthoedd Ofcom:

- cyfathrebu'n agored ac yn onest;
- gwrando â meddwl agored;
- gwneud gwahaniaeth;
- grymuso a blaenoriaethu;
- buddsoddi yn ein cydweithwyr a'u cefnogi; a
- chydweithio gwirioneddol.








### Ymgynghori â chydweithwyr a'u cynnwys

Mae cynnwys cydweithwyr yn cael ei hybu'n frwd fel rhan o'n prosesau beunyddiol. Rydym yn rhoi gwybodaeth i gydweithwyr ac yn ymgynghori â nhw drwy:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr cydweithwyr ar draws Ofcom ac sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Ymgynghori (sy'n cynnwys dau aelod o'r undeb);
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom;
- cyflwyniadau a roddir gan uwch reolwyr pan gaiff cynlluniau strategol newydd eu hegluro wrth gydweithwyr a phan ddarperir yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau sy'n parhau;
- cyfarfodydd grŵp rheolaidd er mwyn gwrando ar gydweithwyr a rhannu gwybodaeth; a
- negeseuon rheolaidd gan y Prif Weithredwr.

Rydym hefyd yn cynnal arolygon rheolaidd sy'n rhoi'r cyfle i gydweithwyr rannu eu safbwyntiau ar ystod o bynciau. Mae'r canlyniadau o'r arolygon hyn yn rhoi sylfaen allweddol ar gyfer llawer o'r gwaith o ddatblygu ein sefydliad.

### Datblygiad proffesiynol a pholisïau cyflogaeth

Mae ansawdd ac ymrwymiad ein pobl yn ganolog i'n gallu i gyflawni ein dyletswyddau. Yn 2011, roeddem wedi cynnal dadansoddiad o anghenion dysgu ar draws y sefydliad, sydd wedi arwain at agwedd newydd at ddysgu a datblygu sydd wedi'i hanelu at sicrhau bod anghenion datblygiad personol a phroffesiynol ein cydweithwyr yn cael eu diwallu'n fwy effeithiol.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff pob cydweithiwr ei drin yn deg a chydag urddas a pharch. Rydym wedi adolygu ein polisïau AD er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd fel sefydliad, yn ogystal â gofynion cyfraith cyflogaeth.

### Absenoldeb

Mae Ofcom yn hybu diwylliant lle caiff presenoldeb da ei ddisgwyl a'i werthfawrogi. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd cydnabyddir nad oes modd osgoi absenoldeb am resymau meddygol. Nod Ofcom yw trin ei staff sy'n sâl gyda chydymdeimlad a thegwch, a rhoi cefnogaeth iddynt lle bo hynny'n bosibl. Bydd hynny'n eu galluogi i wella ac i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2011/12, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oedd 4.0 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd yn y sector cyhoeddus, sef 7.1 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr.

### Paratoi ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain

Un o flaenoriaethau Ofcom yw cyflawni gwarantau sbectrwm Llywodraeth y DU ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain. Er mwyn ein galluogi i wneud hyn rydym wedi creu tîm yn Ofcom sy'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglen hon o weithgarwch, ac rydym wedi ychwanegu at ein tîm o beirianwyr maes drwy fenthyg cydweithwyr arbenigol o wledydd eraill.

# Cyfrifoldeb Corfforaethol

## Ymrwymiad Ofcom i gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Fel cyflogwr, rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i bob cydweithiwr, ni waeth beth yw eu hil, eu hanabledd, eu rhyw (gan gynnwys ailbennu rhywedd), oed, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r ymrwymiad hwn wrth galon ein polisïau cyflogaeth a'n dull gweithredu o ran hyfforddiant a datblygu gyrfa.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl (SES) yn ganolog i'n penderfyniad i wneud yr hyn y gallwn ei wneud i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein sefydliad. Dros y ddwy flynedd diwethaf rydym wedi gweithio'n galed i weithredu'r camau roeddem wedi ymrwymo iddynt yn y cynllun roeddem wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2009.

Ym mis Hydref 2011, roeddem wedi cyhoeddi SES wedi'i ddiweddaru i gyd-fynd â blaenoriaethau Ofcom nawr ac yn y dyfodol. Cafodd hwn ei adeiladu ar y llwyddiannau roeddem wedi'u cael ers lansio ein SES cyntaf ac roedd yn egluro sut byddem yn diwallu ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rydym eisoes wedi cyflawni rhai o'n hamcanion allweddol. Mae'r rhain wedi cynnwys archwiliad cyflog cyfartal i ymchwilio i a oedd unrhyw anghysonderau yn nhâl gweithwyr gwrywaidd a benywaidd sy'n gwneud gwaith cyfartal; ymchwiliad i gyfansoddiad amrywiaeth ein cydweithwyr i asesu beth allai fod angen i ni ei wneud mewn perthynas â chynlluniau recriwtio a chadw; ac rydym wedi parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau meincnodi i sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r ymarfer gorau.

Yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2012 roeddem wedi ymgynghori ar ein Cynllun Cydraddoldeb diwygiedig ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae hwn yn nodi sut byddwn yn hybu cyfle cyfartal a chysylltiadau da ar draws grwpiau gwahanol o bobl wrth gyflawni ein swyddogaethau sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon. Mae fersiwn terfynol ein cynllun nawr wedi cael ei gyhoeddi.

Roeddem yn falch o wella ein sgôr ym Mynegai Cydraddoldeb Gweithle Stonewall am yr ail flwyddyn o'r bron, sy'n edrych ar ein hagwedd at staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol.






## Cyfrifoldeb corfforaethol

Mae Ofcom wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfrifol i'n cydweithwyr ond ein bod hefyd yn rheoli ein heffaith ar y gymuned ehangach. Dyma ein dibenion Cyfrifoldeb Corfforaethol:

- trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb;
- lleihau ein hôl troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol; ac
- ymgysylltu, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr wrth fynd ati'n rhagweithiol i geisio cefnogi ein cymuned leol.

Mae llwyddiannau eraill wedi cynnwys gwella hygyrchedd ein gwefan a'n cyhoeddiadau, cynnwys elfen cydraddoldeb yn ein hymchwil a darparu mwy o gymorth i'n cydweithwyr anabl.

Yn y gymuned ehangach rydym wedi parhau i redeg cynllun mentora darllen poblogaidd gydag ysgol gynradd leol yn Southwark, gan roi'r cyfle i gydweithwyr hyfforddi plant ifanc i wella eu sgiliau llythrennedd. Ar ben hynny, rydym yn gweithio gyda Career Academies UK, gan fentora myfyrwyr 16-17 oed a'u helpu i baratoi ar gyfer bywyd corfforaethol ac yn 2011 roeddem wedi rhoi lle i dri unigolyn o academïau lleol am gyfnod o chwe wythnos.

# Adroddiad Cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn rhoi golwg gyffredinol o strategaeth cynaliadwyedd Ofcom a'n perfformiad yn y maes hwn. Mae hefyd yn cynnwys data cynaliadwyedd a chostau ariannol cysylltiedig sydd wedi cael eu cyflwyno mewn fformat sy'n cyd-fynd â'r canllawiau adrodd cynaliadwyedd a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ar gyfer 2011/12.

## Strategaeth cynaliadwyedd cyffredinol Ofcom

### Cyflwyniad

Roedd Ofcom wedi comisiynu archwiliad carbon annibynnol yn 2007, ac wedyn wedi ymrwymo i ostyngiad o 25 y cant mewn allyriadau carbon erbyn diwedd 2012/13 (wrth gymharu â gwaelodlin 2007). Cafodd prosiect Ôl Troed a Chynaliadwyedd Ofcom ei sefydlu i ganfod a chymryd camau gweithredu i sicrhau bod Ofcom yn diwallu ei ymrwymiad gostyngiad carbon a bod ei arferion yn gynaliadwy'n amgylcheddol. Mae Ôl troed a Chynaliadwyedd yn un o'r llifoedd gwaith yn rhaglen Cyfrifoldeb Corfforaethol cyffredinol Ofcom (gweler tudalen 46).

### Golwg gyffredinol ar dargedau lleihau

Mae targed gostyngiad o 25 y cant Ofcom yn cynrychioli gostyngiad wedi'i rannu dros saith maes: gwasanaethau gwybodaeth, cyfleustodau, gwastraff, teithio ar fusnes, deunyddiau caffael, cyfalaf caffael a chymudo. Mae pob un o'r meysydd hyn wedi cael targed lleihau pan fo'n berthnasol, ar sail ei botensial am ragor o effeithlonrwydd.

Yn 2009, roedd Ofcom wedi comisiynu ail archwiliad carbon annibynnol a oedd yn cadarnhau bod gostyngiad o 15 y cant mewn allyriadau carbon eisoes wedi cael ei gyflawni. Roedd archwiliad dilynol yn 2012 wedi cadarnhau bod gostyngiad o 21 y cant wedi cael ei gyflawni. Bydd archwiliad carbon terfynol yn 2013 yn cadarnhau a yw Ofcom wedi cyflawni ei darged cyffredinol sef lleihad o 25 y cant.

Mae rhagor o fanylion am berfformiad a chynnydd Ofcom o ran cynaliadwyedd ar gael ar ein gwefan.

### Ardystiad safonol yr Ymddiriedolaeth Garbon

Cafodd Ofcom ardystiad Safonol yr Ymddiriedolaeth Garbon yn 2009. Mae hwn yn ardystiad annibynnol a ddyfernir i sefydliadau sy'n mesur, yn rheoli ac yn lleihau eu hôl troed carbon blynyddol, ac roedd yn ddilys am ddwy flynedd i ddechrau. Yn 2011 llwyddodd Ofcom i gael ail-ardystiad Safonol yr Ymddiriedolaeth Garbon, gan ddangos ymdrech a chynnydd parhaus wrth reoli ei ôl troed carbon.

Caiff crynodeb o'n hallyriadau dros y pedair blynedd diwethaf ei ddarparu yn Ffigur 6 isod. Edrychwch ar dudalennau 121 i 122 i gael rhagor o fanylion.

**Ffigur 6: Golwg gyffredinol ar berfformiad cynaliadwyedd**

| Golwg Gyffredinol ar Berfformiad Cynaliadwyedd | | Blwyddyn Perfformiad | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** |
| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cwmpasau 1,2) | tCO2e | 260,939 | 260,833 | 226,663 | 226,048 |
| | Gwariant | £520,568 | £561,815 | £518,158 | £420,108 |
| Teithio Busnes | tCO2e | 452,981 | 371,478 | 374,811 | 408,279* |
| | Gwariant | £987,034 | £820,896 | £627,606 | £713,021 |
| Gwastraff | tunelli | 100 | 156 | 150 | 151 |
| | Gwariant | £35,557 | £31,591 | £25,649 | £28,094 |
| Dŵr | Defnyddio (m3) | 9,263 | 9,915 | 10,495 | 7,737 |
| | Gwariant | £26,772 | £22,461 | £23,994 | £19,672 |

* Mae allyriadau teithio busnes wedi cynyddu oherwydd lefelau uwch o weithgarwch rheoleiddio yn Ewrop yn ystod 2011/12, gan gynnwys trafodaethau'r Rheoliad Crwydro a'r RSPP, Cynhadledd Radio'r Byd 2012 a'r gwaith gyda Berec.

### Llywodraethu

Mae'r prosiect Ôl Troed a Chynaliadwyedd yn adrodd i'r Grŵp Llywio Cyfrifoldeb Corfforaethol (CRSG). Mae gan aelodau o'r CRSG uwch swyddi rheoli yn Ofcom ac maent yn gosod cyfeiriad strategol y gwaith. Caiff unrhyw gynnig sydd ag effaith amgylchedd ei gyflwyno ar gyfer cyfarwyddyd a chymeradwyaeth gan y CRSG cyn ei weithredu. Mae'r CRSG yn darparu adroddiadau cynnydd manwl bob chwe mis yn uniongyrchol i Bwyllgor Gweithredol Ofcom.

## Golwg gyffredinol 2011-12

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith arbed ynni dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a byddwn yn monitro gosodiadau gwresogi, oeri a goleuo yn agos. Mae gan Ofcom bolisi ynni sydd wedi'i ddylunio i arwain penderfyniadau sy'n ymwneud ag ynni a chefnogi strategaeth rheoli ynni effeithiol.

Rydym yn parhau i annog cydweithwyr i ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda ar draws ein hamrywiol swyddfeydd yn y DU, ac rydym hefyd wedi rhoi nifer o bolisïau teithio llym ar waith. Mae gan Ofcom fflyd o gerbydau a ddefnyddir gan ein cydweithwyr Peirianneg a Gorfodaeth Sbectrwm, sydd wedi'u dewis, yn rhannol, oherwydd eu hallyriadau isel fesul milltir, a byddwn yn monitro faint o danwydd a ddefnyddir yn fisol.

### Lleihau a rheoli gwastraff

Mae gan Ofcom bolisi 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi' yn ei swyddfa yn Llundain. Rydym yn ailgylchu papur, cardfwrdd, caniau, plastigau, batris, cetris peiriannau argraffu a CDs. Mae gwaredu unrhyw offer TGCh yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwastraff Offer Trydanol ac Electronig (WEEE).

### Defnyddio adnoddau cyfyngedig

Caiff dŵr ei ddefnyddio gan fwyaf yn yr ystafelloedd ymolchi, dŵr yfed a'r cyfleusterau arlwyo yn ein swyddfa yn Llundain. Mae Ofcom yn monitro faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio'n fisol.

### Cynllunio gweithredol bioamrywiaeth

Nid yw bioamrywiaeth yn ystyriaeth o bwys i Ofcom ac nid ydym yn casglu data yn y maes hwn.

### Caffael cynaliadwy

Mae Ofcom yn awyddus i hybu cynaliadwyedd ymysg ei gyflenwyr. Mae'r holiadur cyn-gymhwyso mae Ofcom yn ei ddefnyddio fel rhan o'i broses tendro i gaffael nwyddau a gwasanaethau gan sefydliadau allanol yn cynnwys y cwestiwn canlynol:

"Rhowch dystiolaeth o gydymffurfio â'r cynllun archwilio Eco-reoli neu unrhyw safon amgylcheddol gydnabyddedig arall mae eich cwmni'n cydymffurfio ag ef sy'n berthnasol i bwnc y contract."

### Cynlluniau yn y dyfodol

Mae Ofcom yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o weddill ein targed gostyngiad o 25 y cant yn cael ei gyflawni yn 2012/13 drwy newid i ganolfannau data gwyrddach, a gafodd ei gwblhau yn 2011/12. Roedd hyn yn golygu lleihau nifer cyffredinol y gweinyddion 57 y cant a disodli'r rhain â gweinyddion a oedd yn fwy newydd ac yn fwy ynni effeithlon.

Bydd Ofcom yn parhau i fonitro allyriadau carbon yn rheolaidd ar draws pob ardal, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio llai o ynni a fydd yn deillio o newid y ganolfan ddata. Bydd Ofcom hefyd yn parhau i hybu ymddygiad cynaliadwy ymysg ei gydweithwyr.

Fel un o'i brif bartneriaid cynaliadwyedd technoleg, mae Ofcom hefyd yn bwriadu parhau â'i waith gyda Phwyllgor Trefnu Llundain y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd (LOGOC) i gefnogi cyflawni'r Gemau cynaliadwy cyntaf.

# Datganiad Llywodraethu







**Golwg gyffredinol y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr**

Yn adrannau cynharach yr adroddiad hwn, roeddem wedi amlygu blaenoriaethau a gweithgareddau Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Yn y golwg gyffredinol hwn rydym yn falch o allu rhoi mwy o sylw i'r fframwaith llywodraethu mae Ofcom yn ei ddefnyddio i arwain y sefydliad ac fel sylfaen ar gyfer cyflawni ei amcanion, ar yr un pryd â sicrhau ein bod yn diogelu arian cyhoeddus.

Mae'r fframwaith statudol sy'n sefydlu Ofcom yn datgan yn glir ei fod yn gorff annibynnol. Mae'r annibyniaeth hwn, yn gyfreithiol ac yn swyddogaethol, yn sicrhau bod Ofcom yn gallu gwneud penderfyniadau ymreolaethol yn annibynnol ar y Llywodraeth neu'r cwmnïau yn y marchnadoedd mae'n eu rheoleiddio. Mae'r egwyddor hon o annibyniaeth wrth galon rheoleiddio effeithiol ac mae'n hanfodol i oruchwyliaeth Ofcom o'r sector cyfathrebu. Mae'n sail i benderfyniadau Ofcom ac mae'n rhoi'r eglurder a'r sicrwydd sy'n hybu llawer o'r buddsoddiad yn y sector, sydd o fudd i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr.


Mae Bwrdd Ofcom yn cynnal yr egwyddor hon o annibyniaeth yn gryf, wrth benodi ei aelodau ac yn ei ystyriaethau. Bwrdd Ofcom yw'r endid allweddol sy'n gwneud penderfyniadau yn Ofcom ac mae'n gweithio gydag Ed Richards fel Swyddog Atebol Ofcom, i sicrhau bod strwythur llywodraethu priodol ac effeithiol ar waith. Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol Ofcom wedi cael ei lunio o amgylch y strwythur, a ddangosir yn Ffigur 7, yn seiliedig ar system gadarn o reolaeth fewnol, rheoli risg a sicrwydd, ac yn y datganiad hwn, byddwn yn edrych ar bob rhan o'r strwythur yn fanylach. Caiff ein strategaeth ar gyfer pob rhan o'r strwythur ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn dal yn berthnasol ac yn effeithiol.

Mae'r Bwrdd yn datblygu'n gyson ac mae ei aelodau'n cynnig cydbwysedd cryf o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Mae nifer o bwyllgorau'n ei helpu yn ei waith, y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a Bwrdd Cynghori Sbectrwm Ofcom, sydd gyda'i gilydd yn ategu, yn gwella ac yn cefnogi Pwyllgor Gwaith Ofcom. Mae gwaith y rhannau hyn o'r strwythur llywodraethu o ran cynghori Bwrdd Ofcom a Phwyllgor Gwaith Ofcom yn arbennig o werthfawr ac rydym yn diolch i holl aelodau'r cyrff hwn am eu cyngor a'u penderfyniadau heriol a threiddgar. Ni allai Ofcom weithredu cystal ag y mae'n ei wneud heb eu cefnogaeth barhaus.

Gyda phob rhan o'r strwythur llywodraethu'n ymwneud â gweithgareddau Ofcom, rydym yn sicrhau bod yr holl bolisïau strategol sydd i'w gweithredu gan Ofcom, ynghyd â phob maes arall o berfformiad, cyfrifoldeb ac atebolrwydd, yn cael eu herio'n gadarn. Mae herio o'r fath yn arwain at benderfyniadau cryf ac o ansawdd sy'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth a thystiolaeth ar lefel y Bwrdd ac yn y sefydliad drwyddo draw.

**Colette Bowe, Cadeirydd**
**Ed Richards, Prif Weithredwr a Swyddog Atebol**


**19 Mehefin 2012**




**Ffigur 7: Cydrannau strwythur llywodraethu Ofcom**

# Bwrdd Ofcom



Colette Bowe


Y Fonesig Patricia Hodgson, DBE


Ed Richards


Y Fonesig Lynne Brindley, DBE


Tim Gardam


Mike McTighe


Yr Arglwydd Blackwell


Stuart McIntosh


Jill Ainscough

**Colette Bowe**

Daeth Collette Bowe yn Gadeirydd Anweithredol Bwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2009. Hyfforddodd fel economegydd ac mae wedi dal nifer o uwch swyddi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Dechreuodd ar ei gyrfa yn yr Adran Masnach a Diwydiant, ac ar ôl hynny bu'n gweithio yn yr Awdurdod Darlledu Annibynnol, y Bwrdd Gwarantau a Buddsoddi, fel Prif Weithredwr yr Awdurdod Buddsoddi Personol ac fel Cadeirydd Gweithredol Busnes Rheoli Asedau Ewropeaidd yn Robert Fleming. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Electra Private Equity plc, yn Gadeirydd Bwrdd Cysylltiedig yr Ysgolion Cerddoriaeth Brenhinol, yn Aelod o Fwrdd Axa Deutschland GmBh ac Awdurdod Ystadegau'r DU, yn un o Lywodraethwyr Bancroft's School ac yn un o ymddiriedolwyr y Tablet Trust a'r Nuffield Foundation. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Enwebiadau Ofcom ac yn Aelod o Bwyllgorau Taliadau a Risg ac Archwilio Ofcom.

**Y Fonesig Patricia Hodgson, DBE**

Penodwyd y Fonesig Patricia Hodgson, DBE yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Gorffennaf 2011 a daeth yn Ddirprwy Gadeirydd ar 1 Ionawr 2012. Mae hi wedi bod yn Bennaeth ar Goleg Newnham, Caergrawnt, er 2006 a chafodd ei phenodi yn Gadeirydd Bwrdd Adolygu'r Athrawon Ysgol eleni. A hithau wedi dechrau ei gyrfa fel cynhyrchydd a newyddiadurwr, bu'n Gyfarwyddwr Polisi a Chynllunio yn y BBC ac yn Aelod o Ymddiriedolaeth y BBC ers ei greu tan mis Mehefin 2011. Rhwng 2000 a 2003 roedd yn Brif Weithredwr ar y Comisiwn Teledu Annibynnol. Mae hi wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar y Comisiwn Cystadleuaeth a GCap plc, yn Aelod o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, Ymddiriedolaeth Wellcome, y Pwyllgor dros Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a'r Comisiwn Ystadegau. Mae hi hefyd wedi cadeirio'r Grŵp Adolygu Rheoleiddio Addysg Uwch. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Taliadau Ofcom ac yn aelod o Bwyllgor y Gwledydd, y Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio.

**Ed Richards**

Mae Ed Richards wedi bod yn Brif Weithredwr Ofcom er mis Hydref 2006 ar ôl iddo ymuno â'r Bwrdd yn 2003. Ar hyn o bryd mae'n Is-Gadeirydd y Corff ar gyfer Rheoleiddwyr Cyfathrebu Electronig Ewrop (BEREC), yn Gyfarwyddwr Thames Water Utilities Limited a Theatr Donmar Warehouse, ac yn un o Ymddiriedolwyr y Gwobrau Addysgu. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn Uwch Gynghorydd Polisi i'r Prif Weinidog (Tony Blair) ar y cyfryngau, telegyfathrebu, y rhyngrwyd ac e-lywodraeth, a chyn hynny'n Rheolydd Strategaeth Gorfforaethol yn y BBC. Mae hefyd wedi gweithio ym maes ymgynghori yn London Economics Ltd a dechreuodd ei yrfa fel ymchwilydd yn Diverse Production Ltd, lle bu'n gweithio ar raglenni i Channel 4.

**Y Fonesig Lynne Brindley, DBE**

Cafodd y Fonesig Lynne Brindley, DBE ei phenodi yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Medi 2011. Mae hi wedi bod yn Brif Weithredwr y Llyfrgell Brydeinig er mis Gorffennaf 2000. Ymunodd â'r Llyfrgell o Brifysgol Leeds lle bu'n Ddirprwy Is-Ganghellor. Arferai fod yn uwch ymgynghorydd gyda KPMG ac mae wedi dal swyddi arwain mewn technoleg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth ym Mhrifysgol Aston ac yn Ysgol Economeg Llundain. Mae hi'n aelod o gyngor Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a Dyniaethau ac mae hi ar fwrdd Rhwydwaith Trosglwyddo Gwybodaeth y Diwydiannau Creadigol. Bu hi'n gadeirydd y Tasglu Dysgu Ar-lein cenedlaethol a sefydlwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr ac roedd yn aelod o Fwrdd Cynghori Strategol y DU ar gyfer Eiddo Deallusol. Mae hi'n aelod o Gyngor y City University ac ar Lys Cwmni Goldsmiths. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Gwledydd Ofcom ac yn Aelod o Bwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau Ofcom.

**Tim Gardam**

Mae Tim Gardam wedi bod yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom er mis Ionawr 2008. Mae wedi bod yn Bennaeth Coleg St Anne, Rhydychen er 2004. Mae'n aelod o Gyngor y Brifysgol ac yn Gadeirydd Cyngres y Colegau. Cafodd yrfa 25 mlynedd o hyd ym myd darlledu gan ddechrau yn y BBC. Roedd yn rhan o'r tîm uwch reolwyr cyntaf yn Five ac yn Gyfarwyddwr Rhaglenni yn Channel Four. Ef oedd awdur Adolygiad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o Wasanaethau Radio Digidol y BBC yn 2004, ac yr oedd yn aelod o Banel Ymgynghori'r Arglwydd Burns ar yr Adolygiad o Siarter y BBC ac yn Gyfarwyddwr SMG plc o 2005-07. Sefydlodd, ac mae bellach yn gadeirydd Sefydliad Reuters ar gyfer Astudiaethau Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Rhydychen. Mae'n Gadeirydd Bwrdd Cynnwys Ofcom, yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Radio ac yn Aelod o'r Pwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau.

**Mike McTighe**

Mae Mike McTighe wedi bod yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom er mis Medi 2007. Mae wedi dal sawl swydd cyfarwyddwr, ac ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Volex Group plc, WYG plc a JJB Sports plc; mae hefyd yn uwch gyfarwyddwr annibynnol o Betfair Group plc. Mae'n gweithredu fel cynghorydd arbennig i General Atlantic, y cwmni ecwiti preifat yn UDA. Cafodd ei benodi yn Gomisiynydd Postcomm ym mis Rhagfyr 2010 nes i Ofcom ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r gwasanaethau post. Cyn hynny, yr oedd yn Gadeirydd Pace plc, yn Gadeirydd ac yn Brif Swyddog Gweithredol Carrier1 International SA, a chyn hynny, yn Gyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Weithredwr Gweithrediadau Byd-Eang Cable & Wireless plc. Cyn hyn roedd yn Philips yn yr Iseldiroedd, Motorola a GE. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Archwilio a Risg Ofcom ac yn Aelod o'r Pwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau.

**Yr Arglwydd Blackwell**

Mae Norman Blackwell wedi bod yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom er mis Medi 2009. Mae'n Gadeirydd y Bwrdd Interserve plc, yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn Standard Life plc ac yn gyfarwyddwr anweithredol o Halma plc a Lloyds Banking Group plc. Mae hefyd yn aelod ar Fwrdd y Ganolfan Astudiaethau Polisi. Yn y gorffennol, bu'n Gyfarwyddwr Anweithredol neu'n Gadeirydd ar y Swyddfa Masnachu Teg, SEGRO Plc, Corporate Services Group Plc, Akers Biosciences Inc, SmartStream Technologies Ltd a Dixons Plc. Roedd yn Gomisiynydd Postcomm o fis Rhagfyr 2010 ymlaen nes i Ofcom ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r gwasanaethau post. Rhwng 1995 a 1997 roedd yn bennaeth ar Uned Polisi'r Prif Weinidog (John Major). Cafodd ei wneud yn Arglwydd Oes yn 1997. Mae'n Aelod o Fwrdd Cynnwys Ofcom, a'r Pwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau.

**Stuart McIntosh**

Ymunodd Stuart McIntosh ag Ofcom fel Partner Cystadleuaeth ym mis Ionawr 2008 a chafodd ei benodi ar y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2008. Cafodd ei benodi yn Gomisiynydd Postcomm ym mis Rhagfyr 2010 nes i Ofcom ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r gwasanaethau post. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn bartner strategaeth ym mhractis cyfathrebu IBM yn UDA. Cyn hynny, yr oedd ganddo swyddi uchel gyda PwC, lle'r oedd yn arwain Adain Ymgynghori ar Delegyfathrebu PricewaterhouseCooper (yn y DU a'r Unol Daleithiau), ac yr oedd gydag Adventis, sef cwmni ymgynghori ar strategaeth. Dechreuodd ei yrfa fel economegydd yng Ngwasanaeth Economeg Llywodraeth y DU. Mae wedi gweithio i BT am bedair blynedd fel Pennaeth Economeg Busnes.

**Jill Ainscough**

Ymunodd Jill Ainscough ag Ofcom ym mis Awst 2007 fel Prif Swyddog Gweithredol a chafodd ei phenodi ar y Bwrdd ym mis Hydref 2010. Cyn ymuno ag Ofcom roedd hi'n Rheolwr Gyfarwyddwr Easynet – cwmni yr ymunodd hi â nhw gyntaf fel Cyfarwyddwr Strategaeth yn 2001. Yn y swyddogaeth honno roedd hi wedi goruchwylio ymuno â marchnad newydd sef rhwydweithiau data corfforaethol a sicrhaodd nawdd tair blynedd Cymdeithas Olympaidd Prydain. Mae ei phrif swyddogaethau blaenorol yn cynnwys Pennaeth Datblygu Marchnata yn NTL; Rheolwr Cynllunio a Dadansoddi Ariannol Barclaycard; Cynllunydd Busnes ar gyfer Cambridge Cable Group ac Uwch Ddadansoddwr Ariannol ar gyfer y Granada Group. Mae hi hefyd ar Fwrdd Sport England.

**Ymddeolodd Millie Banerjee o'r Bwrdd ar 30 Mehefin 2011 ac ymddeolodd Philip Graf ar 31 Rhagfyr 2011.**

## Arweinyddiaeth

Bwrdd Ofcom sy'n arwain y sefydliad, gan rannu ymrwymiad i'r genhadaeth a'r gwerthoedd sydd wedi'u disgrifio ar dudalen 44. Mae ei brif weithgareddau yn cynnwys:

- gosod y strategaeth gyffredinol ar gyfer Ofcom;
- gweithredu fel yr awdurdod sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol;
- cael sicrwydd bod risgiau sylweddol i Ofcom yn cael eu hadnabod a bod systemau priodol ar gyfer rheoli risg yn bodoli er mwyn lliniaru risgiau o'r fath;
- diffinio archwaeth Ofcom am risg; ac
- olyniaeth Bwrdd a rheolwyr gweithredol.

Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Swyddogion Gweithredol yn Ofcom a rhai cyfrifoldebau i rannau eraill o'r strwythur llywodraethu (gweler Ffigur 8) gydag awdurdod a chylch gorchwyl sydd wedi cael eu diffinio'n glir.  Mae hefyd yn cael cyngor gan rannau eraill o'r strwythur llywodraethu. Caiff cylchoedd gwaith a phrif swyddogaethau'r cyrff gwahanol sy'n creu'r strwythur hwn eu disgrifio yn nhudalennau 53 i 60.


Yn ystod y flwyddyn dan sylw roedd y Bwrdd wedi darparu'r cyfeiriad strategol cyffredinol drwy osod blaenoriaethau Ofcom yn ei Gynllun Blynyddol. Parhaodd y Bwrdd i oruchwylio gwaith cyffredinol Ofcom er budd dinasyddion a defnyddwyr a chymeradwyodd, neu rhoddodd ganllawiau yng nghyswllt, nifer o weithgareddau a phenderfyniadau polisi penodol, gan gynnwys:

- goruchwylio paratoadau Ofcom ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain;
- ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoleiddio'r gwasanaethau post;
- y trefniadau ar gyfer arwerthiant y bandiau sbectrwm 600 MHz, 800 MHz a 2.6 GHz; a
- mesur lluosogrwydd y cyfryngau.

Mae rhagor o fanylion am y prif faterion a oruchwyliodd Bwrdd Ofcom yn ystod y flwyddyn ar dudalennau 12 i 26.

Caiff Bwrdd Ofcom ei arwain gan y Cadeirydd sy'n rheoli'r Bwrdd i sicrhau bod:

- gan Ofcom amcanion priodol a strategaeth effeithiol;
- strwythur ar waith i ganiatáu i bob aelod gyfrannu'n effeithiol, ac Aelodau Anweithredol yn benodol;




**Ffigur 8: Bwrdd a Phwyllgorau Ofcom**

- y Prif Weithredwr a swyddogion gweithredol eraill yn gallu rhoi'r strategaeth ar waith;
- Pwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu sefydlu, a'u gweithredu'n iawn a'u bod yn cynnwys yr aelodau iawn;
- gweithdrefnau ar waith i hysbysu'r Bwrdd am y perfformiad yn erbyn yr amcanion; a bod
- Ofcom yn gweithredu yn unol â'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol.

Mae Ofcom yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref yn y ffordd mae'n rheoli risg drwy waith y Pwyllgor Risg ac Archwilio a oruchwylir gan y Bwrdd. Mae Ofcom yn cadw cofrestr risg ar gyfer ei holl waith, sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd, ac mae'r Pwyllgor Gwaith, y Bwrdd Gweithrediadau a'r Weithrediaeth Polisi yn gyfrifol am reoli a lliniaru (pan fo'n bosibl ac yn briodol) pob risg sy'n deillio o ddatblygiadau gweithredol, polisi a rheoleiddio penodol.

## Bwrdd Ofcom

Mae Bwrdd Ofcom yn cynnwys chwe Aelod Anweithredol a thri Aelod Gweithredol ac o'r naw Aelod hyn, mae pump yn ddynion a phedwar yn fenywod. Mae gan yr Aelodau ystod eang o brofiad mewn diwydiannau cysylltiedig, yn ogystal â phrofiad mewn uwch swyddi yn y sector preifat a chyhoeddus.

Cafodd Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod rhwng tair a phum mlynedd. Mae Pwyllgor Enwebiadau Ofcom wedi cynorthwyo'r Adran drwy weithio gyda hi ar y prosesau dethol ar gyfer penodi Aelodau Anweithredol newydd. Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan y Cadeirydd a'r holl Aelodau Anweithredol annibynnol, ac mae penodiad y Prif Weithredwr yn galw am gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae manylion bywgraffiadol yr Aelodau ar gael ar dudalennau 50 i 51. Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau wedi'u rhestru yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau, a chedwir Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau.  Mae'r naill a'r llall ar gael ar wefan Ofcom. At ddibenion mabwysiadu egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU:

- mae'r Bwrdd yn ystyried bod yr holl Aelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau arnynt wrth wneud penderfyniadau;
- mae'r Bwrdd o'r farn bod gan yr Aelodau, rhyngddynt, amrediad eang o brofiad sy'n sicrhau bod y Bwrdd yn effeithiol i arwain a rheoli Ofcom;
- Aelodau Anweithredol yw mwyafrif o aelodau'r Bwrdd . Ystyrir mai'r Dirprwy Gadeirydd yw'r uwch-Aelod Anweithredol at ddibenion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU; a
- bydd y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Swyddogaeth y rheolwyr gweithredol yw gweithredu polisïau'r Bwrdd. Mae nifer o gyrff cynghori yn cyfrannu at waith y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith.

Yn ystod y flwyddyn roedd Bwrdd Ofcom wedi adolygu'r strwythur llywodraethu i gyd a daeth i'r casgliad bod Ofcom yn cael gwerth sylweddol gan bob rhan o'r strwythur. O ganlyniad, mae Ofcom wedi cynnal a chefnogi'r strwythur drwy gydol y flwyddyn.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Wrth arfer ei bwerau dan y Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd sydd ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl wedi'u ddiffinio'n glir.  Caiff gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r prif bwyllgorau hyn eu disgrifio ar dudalennau 54 i 56. Mae gan Ofcom nifer o bwyllgorau arbenigol eraill sydd â swyddogaeth llywodraethu neu swyddogaeth cynghori i'r Bwrdd, fel y disgrifir isod ar dudalennau 58 i 60.

**Aelodau a'u presenoldeb ar Fwrdd a Phwyllgorau Ofcom**

| Enw | Bwrdd Ofcom | Pwyllgor Enwebiadau | Pwyllgor Taliadau | Pwyllgor Archwilio a Risg |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd | 13 | 1 | 5 | 5 |
| **Swyddogaeth a phresenoldeb** | | | | |
| Colette Bowe | Cadeirydd, 13 | Cadeirydd, 1 | Aelod, 5 | Aelod, 4 |
| Ed Richards | Prif Weithredwr, 13 | | | |
| Y Fonesig Patricia Hodgson DBE [1] | Dirprwy Gadeirydd, 9 | Aelod | Aelod,1 Cadeirydd, 1 | Aelod, 1 |
| Philip Graf CBE [2] | Dirprwy Gadeirydd, 6 | Aelod 1 | Cadeirydd, 4 | Aelod, 3 |
| Millie Banerjee CBE [3] | Aelod, 3 | Aelod, 1 | Aelod, 2 | |
| Yr Arglwydd Blackwell | Aelod, 13 | Aelod, 1 | Aelod, 3 | |
| Y Fonesig Lynne Brindley DBE [4] | Aelod, 9 | Aelod | Aelod, 2 | |
| Tim Gardam | Aelod, 12 | Aelod, 1 | Aelod, 5 | |
| Mike McTighe | Aelod, 12 | Aelod, 1 | Aelod, 5 | Cadeirydd, 5 |
| Jill Ainscough | Aelod, 8 | | | |
| Stuart McIntosh | Aelod, 13 | | | |
| Peter Teague | | | | Aelod, 5 |

1 Cafodd y Fonesig Patricia Hodgson ei phenodi i Ofcom ar 1 Gorffennaf 2011 a daeth yn Ddirprwy Gadeirydd Bwrdd Ofcom ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau ar 1 Ionawr 2012

2 Ymddeolodd Philip Graf CBE ar 31 Rhagfyr 2011

3 Ymddeolodd Millie Banerjee CBE ar 30 Mehefin 2011

4 Cafodd y Fonesig Lynne Brindley ei phenodi i Ofcom ar 1 Medi 2011

## Y Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Mae'r Pwyllgor yn Gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer dethol Aelodau Anweithredol i Fwrdd Ofcom ac mae'n cyflwyno argymhellion ynghylch penodi Aelodau Gweithredol. Caiff pob penodiad i swyddi Aelodau Anweithredol ei wneud gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol â'r Cod a sefydlwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (OCPA). Wrth wneud penodiadau o'r fath mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn sicrhau bod proses deg ac agored yn cael ei sefydlu ac mae'n ymdrechu i sicrhau bod ystod amrywiol o ymgeiswyr yn gwneud cais. Bydd asesydd annibynnol a fydd wedi'i gymeradwyo gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus bob amser yn aelod o'r panel dethol a sefydlir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer unrhyw benodiad a gynigir.

## Y Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Mae'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd ar wahoddiad y Pwyllgor Taliadau.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori Ofcom ynghylch y taliadau i'r Prif Weithredwr, Aelodau Gweithredol eraill y Bwrdd ac i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, yn ogystal â'u telerau ac amodau

gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori Ofcom ar delerau ac amodau Aelodau rhan amser y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, y pedwar Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol ac Aelodau Anweithredol eraill cyrff eraill yn strwythur llywodraethu Ofcom.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r broses ar gyfer pennu telerau ac amodau holl gydweithwyr eraill Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio ac yn penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn a sefydlwyd gan Ofcom ar gyfer holl gydweithwyr Ofcom.

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n pennu'r taliadau i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom, a nodir hynny yn Nodyn 3 yr Adroddiad Taliadau. Petai angen i Ofcom ystyried unrhyw agwedd ar daliadau Aelodau Anweithredol, mae Pwyllgor Taliadau Aelodau Anweithredol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth, a fydd yn cwrdd ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel y bo'n briodol. O ganlyniad, nid oes dim un Aelod Bwrdd yn cyfrannu at bennu ei daliadau ei hun.

Mae'r Adroddiad Taliadau ar dudalennau 66 i 69 yn nodi sut mae Ofcom yn gweithredu egwyddorion perthnasol Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom, Mike McTighe (Cadeirydd), Colette Bowe a'r Fonesig Patricia Hodgson, ac Aelod Anweithredol allanol annibynnol, Peter Teague. Mae Peter yn gyfrifydd siartredig cymwysedig ac mae'n bodloni gofynion Cod *Llywodraethu Corfforaethol y DU* bod gan un Aelod o'r Pwyllgor brofiad ariannol perthnasol. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyllid, yn ogystal â'r archwilwyr mewnol ac allanol, i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd yn ôl i Fwrdd Ofcom ar ganlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor. Caiff swyddogaethau'r Pwyllgor eu disgrifio yn ei gylch gorchwyl, sydd ar gael ar wefan Ofcom.

Caiff y swyddogaeth archwilio mewnol ei rhoi ar gontract allanol gan Ofcom i KPMG, a chaiff ei disgrifio ar dudalen 64. Cred y Pwyllgor Archwilio a Risg ei bod yn briodol bod yr archwilwyr mewnol hefyd yn darparu cyngor penodol ar risgiau mewnol i Ofcom. Gwneir penderfyniadau ynghylch gofyn i KPMG ddarparu gwasanaethau eraill fesul achos unigol. Cyflawnir y swyddogaeth archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Pwyllgor wedi, ar ben ei brif swyddogaethau, canolbwyntio ar oruchwylio paratoadau Ofcom ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain a'r risgiau sy'n gysylltiedig â swyddogaeth Ofcom mewn rheoli sbectrwm ar gyfer y Gemau.

**Pwyllgor Risg ac Archwilio – Eitemau ar yr agenda yn ystod 2011/12**

| Eitem ar yr Agenda | Sawl gwaith y cafodd sylw yn ystod 2011/12* |
|---|---|
| Fframwaith Rheoli Risg | 5 |
| Pontio wrth roi TGCh ar Gontract Allanol | 5 |
| Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau | 5 |
| Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain | 5 |
| Rhaglen Archwilio Mewnol | 5 |
| Rhaglen Archwilio Allanol | 5 |
| Diweddariad Ariannol | 4 |
| Diweddariad Diogelwch | 4 |
| Integreiddio Gwasanaethau Post | 2 |
| Diweddariad Ymgyfreitha | 1 |

* Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bum gwaith yn ystod 2011/12

### Y Pwyllgor Gwaith

Y Pwyllgor Gwaith yw'r uwch dîm gweithredol sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth dros Ofcom. Ei brif ffocws yw pennu cyfeiriad i'r sefydliad, a gwneud penderfyniadau am faterion ariannol a gweinyddol a'u monitro. Cyfarfu 11 o weithiau yn ystod y flwyddyn. Caiff ei gyfrifoldebau o ran llunio polisïau eu cyfyngu i bolisi rheoli.

| |
|---|
| Ed Richards (Cadeirydd)<br>Prif Weithredwr |
| Jill Ainscough<br>Prif Swyddog Gweithredol |
| Stuart McIntosh<br>Cyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth |
| H. Nwana<br>Cyfarwyddwr Grŵp, Polisi Sbectrwm |
| Claudio Pollack<br>Cyfarwyddwr Grŵp, Defnyddwyr |
| Steve Unger<br>Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth,<br>Prif Economegydd a Thechnoleg |
| Polly Weitzman<br>Cwnsler Cyffredinol |
| Christopher Woolard<br>Cyfarwyddwr Grŵp Cynnwys Rhyngwladol<br>a Datblygu Rheoleiddio |

Gwahoddir uwch swyddogion Ofcom eraill i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor ar sail ad-hoc.

Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn cadeirio cyfarfod wythnosol o'r Weithrediaeth Polisi, sy'n cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol ac uwch swyddogion gweithredol eraill drwy wahoddiad. Mae'r Weithrediaeth Polisi wedi cael ei dylunio i fod yn fforwm mewnol ar gyfer uwch swyddogion gweithredol i graffu a goruchwylio datblygiad mewnol agenda polisi Ofcom. Mae'n helpu i osod y cyfeiriad polisi ac yn rhoi cyfle wythnosol i drafod a dilysu materion polisi wrth iddynt godi cyn i unrhyw bolisïau o'r fath gael eu cyflwyno'n ffurfiol drwy'r strwythur llywodraethu neu'n amodol ar graffu allanol. Mae'r Bwrdd Gweithrediadau'n cwrdd bob pythefnos a chaiff ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredol. Mae'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob rhan o Ofcom ac mae'n delio â phob mater gweithredol ar gyfer y sefydliad. Mae'n adrodd i'r Pwyllgor Gweithredol bob mis.

## Effeithiolrwydd

Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn ffurfiol bob mis o leiaf; mae'n cael diweddariadau strategol rheolaidd, papurau gwybodaeth am y marchnadoedd mae Ofcom yn eu rheoleiddio, gweithgareddau rhanddeiliaid allweddol ac adroddiadau am weithgareddau gweithredol a pholisi Ofcom. Ar ben hynny, mae gan bob Aelod fynediad at Ysgrifennydd y Gorfforaeth i'w helpu gyda darparu gwybodaeth a llunio trefniadau ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol gyda swyddogion gweithredol yn Ofcom i gael gwell dealltwriaeth o faterion penodol. Cafodd adolygiad wedi'i hwyluso'n allanol o effeithiolrwydd y Bwrdd ei gynnal yn ystod gwanwyn 2012. Dyma oedd y prif eitemau yn yr adolygiad a drafodwyd:

- effeithiolrwydd y Bwrdd;
- cymysgedd y sgiliau a'r profiad ar y Bwrdd;
- datblygu strategaeth y sefydliad;
- effeithiolrwydd gweithdrefnau a phrosesau'r Bwrdd; a
- pherfformiad pob Aelod.

Caiff perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd hefyd ei asesu gan y Cadeirydd a bydd pob aelod yn cael adolygiad blynyddol o'i berfformiad. Bydd pob Aelod newydd o'r Bwrdd yn cael ei gynefino'n fanwl o ran gweithrediad y Bwrdd, ei gyfrifoldebau a'r materion strategol y mae angen i'r Bwrdd eu hystyried. Caiff cyfarfodydd eu trefnu ar gyfer holl aelodau newydd y Bwrdd gyda swyddogion gweithredol allweddol er mwyn gallu egluro pob agwedd ar gylch gwaith a chyfrifoldebau Ofcom iddynt.

## Atebolrwydd

Anfonir *Adroddiad Blynyddol* Ofcom i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n gosod copïau ohono gerbron Dau Dŷ'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u cadw sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

### Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Nid yw Ofcom yn rhwym wrth *God Llywodraethu Corfforaethol y DU* a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Fodd bynnag, mae ei egwyddorion yn rhoi meincnod defnyddiol i'r holl gyrff sy'n dymuno gwneud datganiad am eu perfformiad o ran llywodraethu corfforaethol. I'r perwyl hwn, bydd Ofcom yn parhau i fabwysiadu egwyddorion y Cod pan

fydd yn briodol iddo wneud hynny. I'r perwyl hwn mae Ofcom wedi cydymffurfio ag egwyddorion *Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU* yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012.

### Tryloywder

Mae Ofcom yn parhau i adolygu ei gynllun cyhoeddi a darparu ystod ehangach o wybodaeth ar gael yn hawdd ar ei wefan. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cafodd Ofcom 598 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac wrth lynu wrth amcan y Ddeddf o feithrin diwylliant agored, darparodd yr holl wybodaeth, neu ran ohoni, i 83 y cant o'r ceisiadau. Cafodd Ofcom 27 o geisiadau hefyd am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a darparodd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn 96 y cant o'r achosion.

## Ymgysylltu

Bydd gweithredoedd Ofcom yn effeithio ar bobl ac ar sefydliadau ledled y DU. O'r herwydd, mae'n bwysig iawn ei fod yn gwneud penderfyniadau ar yr adeg iawn ac yn y ffordd iawn. Rhaid i'r penderfyniadau hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac wrth wneud y penderfyniadau hyn mae angen i Ofcom ystyried safbwyntiau'r rheini sydd â diddordeb yn y canlyniad.

Mae ymgynghori'n chwarae rhan bwysig i gael gafael ar y dystiolaeth hon. Mae'n caniatáu i'r rheini y gallai mater penodol effeithio arnynt neu sy'n ymwneud â'r mater hwnnw gyflwyno eu safbwyntiau i ni cyn i ni benderfynu ar gamau gweithredu.

O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei holl flaenoriaethau strategol mawr cyn gwneud penderfyniadau. Mae rhagor o fanylion am ddull ymgynghori Ofcom a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u gosod ar dudalennau 40 i 42.

Mae Ofcom hefyd yn ymgysylltu â'i strwythur llywodraethu yn ystod pob ymgynghoriad. Croesewir cyngor a heriau gan bob Bwrdd, Panel a Phwyllgor sy'n rhan o'r strwythur llywodraethu a bydd swyddogion gweithredol Ofcom yn bresennol mewn cyfarfodydd priodol i amlinellu a thrafod prosiectau yr ymgynghorir yn eu cylch neu sy'n cael eu hystyried ar gyfer ymgynghoriad. Mae aelodaeth y cyrff sy'n rhan o'r strwythur llywodraethu wedi cael ei dylunio i gynnig lefelau penodol o arbenigedd er mwyn gallu profi polisïau a phrosiectau Ofcom yn gadarn cyn gwneud penderfyniadau. Mae'r ymgysylltu hwn yn fwyfwy pwysig yng ngwledydd datganoledig y DU, lle mae swyddogaeth y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol yn eithriadol o werthfawr ar gyfer helpu Ofcom i ystyried materion penodol wrth iddo lunio a gweithredu ei bolisïau.

Mae Ofcom hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill, sefydliadau Ewropeaidd a chyrff byd-eang er mwyn sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn fforymau rhyngwladol yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y DU.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

### Y Bwrdd Cynnwys

Mae'r Bwrdd Cynnwys yn bwyllgor o brif Fwrdd Ofcom, gyda chyfrifoldeb cynghori ac wedi'i ddirprwyo dros ystod eang o faterion sy'n ymwneud â chynnwys, gan ddelio'n bennaf â darlledu. Caiff ei sefydlu o dan statud, yn enwedig adran 12(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

Bydd Bwrdd Ofcom yn gofyn am gyngor ac argymhellion gan y Bwrdd Cynnwys ar unrhyw agweddau sy'n ymwneud â chynnwys o'r penderfyniadau y mae wedi'u cadw iddo ef ei hun. Caiff yr holl benderfyniadau eraill sy'n ymwneud â chynnwys eu dirprwyo i'r Bwrdd Cynnwys.

Y Bwrdd Cynnwys yw prif fforwm Ofcom ar gyfer rheoleiddio ansawdd a safonau teledu a radio. Mae'n gyfrifol am ddeall, dadansoddi a hyrwyddo lleisiau a diddordebau'r gwylwyr, y gwrandawyr a dinasyddion.

Mae Aelodau'r Bwrdd Cynnwys hefyd yn Aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu Radio, y Pwyllgor Etholiadau ac, yn ystod y cyfnod dan sylw, roeddent yn aelodau o'r Pwyllgor Sancsiynau Darlledu a'r Pwyllgor Adolygu Darlledu[5].

### Aelodau

Tim Gardam (i) (Cadeirydd)

Philip Graf CBE (i)

Millie Banerjee (ii)

Yr Arglwydd Blackwell (iii)

Dr David Levy (iv)

Anthony Lilley OBE

Iseabail Mactaggart (iv)

Glyn Mathias (iv)

Dr Paul Moore

Joyce Taylor

Janey Walker (iv)

Christopher Woolard (v)

i Ymddeolodd Philip Graf CBE ar 31Rhagfyr 2011 a chafodd ei olynu fel Cadeirydd gan Tim Gardam.
ii Ymddeolodd Millie Banerjee ar 30 Mehefin 2011.
iii Cafodd yr Arglwydd Blackwell ei benodi ar y Bwrdd ar 1 Ionawr 2012
iv Cafodd Dr David Levy, Iseabail Mactaggart, Glyn Mathias a Janey Walker eu penodi ar y Bwrdd Cynnwys ar 1 Mai 2011
v Aelod Gweithredol.

### Pwyllgor Adolygu Darlledu, Pwyllgor Sancsiynau Darlledu

Tan y newidiadau i'r gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, roedd y Pwyllgorau hyn yn gyfrifol am ganlyniad ymchwiliadau i gwynion. Mae rhagor o fanylion am y gwaith hwn ar gael yn yr Atodiad ar dudalennau 112 i 114. Daeth yr Aelodau o'r Bwrdd Cynnwys.

### Pwyllgor Trwyddedu Radio

Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Trwyddedu Radio i gyflawni swyddogaethau Ofcom yng nghyswllt trwyddedu darlledu radio (sain). Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys penderfynu ar ddyfarnu trwyddedau radio newydd a'r rheini sydd wedi cael eu hail-hysbysebu, amrywio trwyddedau a diddymu trwyddedau. Yn ystod 2012 bydd ei gylch gwaith yn ehangu i gynnwys trwyddedu Teledu Lleol, a chaiff ei ailenwi yn Bwyllgor Trwyddedu Darlledu. Bydd aelodaeth y Pwyllgor ar sail dreigl a bydd yn cynnwys holl aelodau'r Bwrdd Cynnwys o bryd i'w gilydd.

### Panel y Gronfa Radio Cymunedol

Mae Adran 359 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn caniatáu sefydlu cronfa ar gyfer gweithredwyr radio cymunedol, a bod Ofcom yn gweinyddu'r gronfa honno gan "roi grantiau y mae'n eu hystyried sy'n briodol" i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol. Mae'r Panel yn cwrdd yn ôl y gofyn i drin a thrafod ceisiadau ac i roi cyfraniadau o'r Gronfa. Mae'n annibynnol ar y Pwyllgor Trwyddedu Radio (gweler uchod) sy'n dyfarnu trwyddedau radio cymunedol. Mae gan y Panel dri Aelod Anweithredol newydd: Kevin Carey (Cadeirydd), Richard Hilton a Thomas Prag.

### Pwyllgor Etholiadau

Mae Adran 333 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod Darllediadau Gwleidyddol (gan gynnwys Darllediadau Gwleidyddol Etholiadau) a Darllediadau Ymgyrchoedd Refferendwm yn cael eu cynnwys yng ngwasanaethau rhanbarthol ITV yn y DU, Channel 4, Five, Classic FM, talkSPORT a Virgin 1215. Os bydd unrhyw anghydfod heb ei ddatrys rhwng unrhyw un sy'n dal trwydded ac unrhyw blaid wleidyddol ynghylch hyd, amlder, dyraniad neu amseriad darllediadau, caiff yr anghydfod hwnnw ei gyflwyno i Ofcom i'w ddatrys. Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo dyfarnu ynghylch unrhyw anghydfod o'r fath i bwyllgor o'r enw'r Pwyllgor Etholiadau. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn ôl y galw ac mae'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd Cynnwys.

#### Y Pwyllgor Cyllid Clirio Sbectrwm

Sefydlwyd y Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm i ddod â phob prosiect ynghyd a oedd yn ymwneud â chlirio a dyfarnu'r bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz dan un strwythur rheoli rhaglen. Er mwyn sicrhau bod rheolaethau ariannol priodol ar waith ac er mwyn ystyried cynigion ar gyfer grantiau clirio sbectrwm, mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo i'r Pwyllgor hwn gyfrifoldeb dros ddarparu grantiau ar sail effeithlonrwydd sbectrwm ar gyfer unrhyw gynllun clirio sbectrwm arfaethedig dan Adran 1(5) o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 yn ogystal â'r telerau ac amodau ar gyfer darparu grantiau: rhaid cael caniatâd y Trysorlys ar gyfer grantiau a'r telerau ac amodau. Cyfarfu'r Pwyllgor 12 gwaith yn ystod y flwyddyn i ystyried 83 o gynigion am grantiau clirio. Gyda'i gilydd roedd y taliadau yn erbyn y grantiau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn gan y Pwyllgor ar gyfer 2011/12 yn £41m.

#### Aelodau

Syr David Brown (Cadeirydd)

Peter Teague (Dirprwy Gadeirydd)

Peter Davies (i)

H. Nwana (i)

Kate Stross

i Aelodau Gweithredol

5 Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd Ofcom weithdrefnau newydd ar gyfer delio â chwynion, ymchwiliadau a sancsiynau darlledu. Mae'r gweithdrefnau newydd wedi diddymu'r Pwyllgor Sancsiynau Darlledu a'r Pwyllgor Adolygu Darlledu. Fodd bynnag, mae aelodau'r Bwrdd Cynnwys yn parhau i chwarae rhan mewn penderfyniadau a sancsiynau cynnwys a safonau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/complaints-sanctions/.

**Y Pwyllgor Dyraniadau Teledu Daearol Digidol**

Yn unol â gorchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 2 Gorffennaf 2008, mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros weithredu ei swyddogaethau yng nghyswllt dyrannu capasiti ar amlblecs B teledu daearol digidol i'r Pwyllgor hwn sy'n cael ei gadeirio gan Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom.

Ni chyfarfu'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

## Ofcom yn y Gwledydd

**Y Pwyllgor Gwledydd**

Mae'r Pwyllgor Gwledydd yn un o Bwyllgorau uniongyrchol Bwrdd Ofcom, ac mae Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom yn Gadeirydd arno. Cyfarfu bum gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor hwn yn goruchwylio'r pedwar Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol ac yn cydlynu eu gweithgareddau. Mae ei swyddogaeth yn cynnwys: deall deinameg wleidyddol pob gwlad yn y DU a chynghori ar ymgysylltiad Ofcom ym mhob gwlad; cytuno ar brosesau priodol ar gyfer ymgysylltiad Ofcom â phob Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol; monitro digwyddiadau rhanddeiliaid ym mhob gwlad a goruchwylio cyfraniad ac ymgysylltiad Bwrdd Ofcom ym mhob gwlad. Mae ei aelodau'n cynnwys dau Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom, Lynne Brindley (Cadeirydd) a Patricia Hodgson, a Chadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol. Gwahoddir Cyfarwyddwyr Gweithredol pob gwlad, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Grŵp, Cynnwys Rhyngwladol a Datblygu Rheoleiddio a'r Cyfarwyddwr, Datblygu Rheoleiddio a'r Gwledydd, i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwledydd.

**Pwyllgorau Cynghori'r Gwledydd**

Mae Adran 20 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Cynghori ar gyfer pob un o wledydd y DU. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw darparu cyngor i Ofcom ar faterion yn ymwneud â chyfathrebu yn deillio o fuddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan o'r DU a wasanaethir gan y Pwyllgor. Er 2011 mae'r cyngor hwn nawr yn cynnwys cyngor ar faterion sy'n ymwneud â phost. Dyma'r materion penodol roedd y Pwyllgor wedi cynghori yn eu cylch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: problemau sy'n parhau am gyflwyno a chyflymder band eang yn benodol mewn ardaloedd mwy gwledig; argaeledd symudol, cystadleuaeth, ardaloedd di-gyswllt a chrwydro; arwerthiant arfaethedig y sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz; teledu lleol, cenedlaethol a rhanbarthol; ymchwil Ofcom ym mhob gwlad. Cyfarfu pob Pwyllgor bum gwaith yn ystod y flwyddyn. Dyma aelodau pob Pwyllgor:

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| Cadeirydd | Yr Athro William Dutton | Yr Athro Philip Schlesinger | Ian Clarke [2] | Yr Athro Wallace Ewart OBE |
| Aelodau | Graham Creelman OBE | Laura Alexander | Julie Barton | Isolde Goggin |
| | Helen Foster | Dr Franck Chevalier [1] | Kim Brook | Lesley Holmes |
| | Olwyn Hocking | Iseabail Mactaggart | Glyn Mathias [2] | Libby Kinney |
| | Wendy Pilmer | Mairi Mcleod | John Davies | Dr Paul Moore |
| | Anne Scorer | Thomas Prag | Simon Gibson OBE | Ben Preston |
| | John Varney | | | |
| | Robert Watson | | | |

1 Ymddiswyddodd Dr Franck Chevalier ar 31 Mawrth 2012
2 Ymddiswyddodd Glyn Mathias fel Cadeirydd ar 31 Mawrth 2012 a chafodd ei olynu gan Ian Clarke

**Pwyllgorau Heblaw Rhai'r Bwrdd**

**Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu**

Mae Adran 16 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Panel Defnyddwyr. Mae'r Panel yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i Ofcom sy'n darparu cyngor cadarn ac annibynnol, ond sydd hefyd yn bragmatig ac yn adeiladol.

Drwy'r cyngor y bydd yn ei roi, mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu yn ceisio darbwyllo Ofcom, Llywodraeth y DU a'r diwydiant i edrych ar faterion o safbwynt defnyddwyr, ac i amddiffyn a hybu eu buddiannau. Mae'r Panel yn rhoi sylw penodol i anghenion pobl hŷn a phobl ag anableddau, anghenion pobl mewn ardaloedd gwledig a phobl ar incwm isel, ac anghenion busnesau bach, sy'n wynebu llawer o'r un problemau â defnyddwyr unigol.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys arbenigwyr annibynnol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ac mae ganddynt brofiad mewn amryw o wahanol feysydd. Cyfarfu'r Panel 11 o weithiau yn ystod y flwyddyn. Mae adroddiad blynyddol y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn rhoi sylw i ddylanwad y Panel yn 2011/12 a'r blaenoriaethau ar gyfer 2012/13, ac mae ar gael yn www.communicationsconsumerpanel.org.uk.

## Aelodau

Bob Warner CBE (Cadeirydd)

Fiona Ballantyne

Colin Browne

Roger Darlington

Dr Maureen Edmondson OBE [i]

Kim Brook

Chris Holland

i Ymddiswyddodd Dr Maureen Edmondson ar 31 Mawrth 2012.

## Y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl

Mae Adran 21(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgor i gynghori Ofcom am faterion yn y sector cyfathrebu sy'n effeithio ar bobl hŷn a phobl anabl yn arbennig. Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn o leiaf ac mae'n mynd i'r afael â darnau penodol o waith mewn is-grwpiau.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gynghori Ofcom i sicrhau bod pobl hŷn a phobl anabl yn bartneriaid cyfartal ac yn gyfranogwyr llawn ar draws technolegau telegyfathrebu a darlledu cydgyfeiriol sy'n datblygu, platfformau cyfryngau newydd, a chyfryngau darlledu traddodiadol a digidol.

Darparodd y Pwyllgor arweiniad i Ofcom ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys yr *Adolygiad o Wasanaethau Cyfnewid, Adolygiad o Wasanaethau Mynediad a Chynllun Blynyddol Drafft Ofcom ar gyfer 2012/13*.

Yn ystod yr hydref roedd y Pwyllgor wedi cyhoeddi ymchwil i'r cynnyrch a'r gwasanaethau a allai fod o fudd i bobl hŷn a phobl anabl ar draws rhwydweithiau band eang cyflym iawn. Er 2011 mae'r Pwyllgor hefyd wedi dechrau cynghori Ofcom ar effaith ei waith rheoleiddio gwasanaethau post newydd ar bobl hŷn a phobl anabl.

## Aelodau

Jo Connell, OBE (Cadeirydd)

Liz Atkins

Dr Maurice Mulvenna [i]

Suneel Shivdasani

Bob Twitchin

i Ymddeolodd Dr Maurice Mulvenna ar 30 Mehefin 2011.

## Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom ar faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm. Cyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddir adroddiad blynyddol y Bwrdd a fydd yn rhoi sylw i'w weithgarwch yn ystod y flwyddyn a bydd ar gael ar wefan y Bwrdd yn www.osab.org.uk.

## Aelodau

David Meyer (Cadeirydd)

Yr Athro Linda Doyle

Robin Foster

Philippa Marks

Philip Marnick

Dr Robert Pepper

Jean-Jacques Sahel

Yr Athro Simon Saunders

Simon Towler (Ex Officio)

Mike Walker

Yr Athro William Webb

Gavin Young

## Y fframwaith rheoli

Mae fframwaith rheoli Ofcom yn sail i'r strwythur llywodraethu ac mae wedi'i ddylunio i gefnogi cyflawni ei ddyletswyddau statudol a chyflawni ei amcanion ar yr un pryd â diogelu arian cyhoeddus. Mae'r fframwaith rheoli wedi'i adeiladu o amgylch tri maes cyfrifoldeb clir:

- rheoli a rheolaeth fewnol;
- rheoli risg; a
- sicrwydd annibynnol

Mae pob un o'r meysydd cyfrifoldeb hyn wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad ac maent yn dod ynghyd i roi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Weithrediaeth ac i'r Bwrdd er mwyn rheoli'r busnes yn effeithiol (gweler Ffigur 9).

### Rheoli a rheolaeth fewnol


Caiff y cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol ei dirprwyo gan Fwrdd Ofcom drwy hierarchaeth o Fyrddau a Phwyllgorau i Gyfarwyddwyr Grŵp ac uwch reolwyr. Caiff y cynllun dirprwyo hwn ei amlinellu yn y Fframwaith Awdurdodau Ariannol, sy'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r sefydliad a'i archwaeth am risg. Gofynnir i Gyfarwyddwyr Grŵp ddarparu sicrwydd bod y system o reolaeth fewnol yn gweithio'n effeithiol yn eu maes cyfrifoldeb drwy gwblhau datganiad sicrhau rheolaeth fewnol blynyddol. Ar ben hynny, ceir sicrwydd o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dimau arbenigol ar draws y sefydliad, gan gynnwys y Pwyllgor Diogelwch, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, y Gweithgor Amrywiaeth a Chydraddoldeb a grŵp yn goruchwylio rheoli argyfwng a chynllunio parhad busnes.

Drwy gynnal yr asesiadau o'r effaith (fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau) sy'n gwerthuso effaith unrhyw benderfyniad rheoleiddio posibl ar draws yr ystod o randdeiliaid, mae ystyried risg wrth galon ein gweithgareddau.

Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd nifer o gynlluniau ar waith fel rhan o'r rhaglen barhaus i adolygu a gwella'r fframwaith rheolaeth fewnol sydd eisoes yn bodoli. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- gwelliannau pellach i'r broses o gynllunio a mesur perfformiad, sydd wedi cynnwys cyflwyno offer cynllunio ac adrodd gwell i'r Weithrediaeth, y Bwrdd a'r sefydliad. Mae'r gyfres well hon o adrodd yn dod â blaenoriaethau, risgiau a chanlyniadau ynghyd. Caiff y broses hon nawr ei chefnogi gan dîm cynllunio a pherfformiad sydd yn yr Adran Gyllid;
- cyflwyno Polisi Gwrth-Lwgrwobrwyo mewn ymateb i weithredu Deddf Llwgrwobrwyo 2010. Ochr yn ochr â'r Polisi cafodd cwrs e-ddysgu gorfodol ei lansio, sy'n berthnasol i'n polisïau gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-dwyll.
- rhoddwyd cyfres o gyflwyniadau llywodraethu personol, i'r holl gydweithwyr, a oedd yn trafod diogelu data, rhyddid gwybodaeth, diogelwch, twyll a llwgrwobrwyo;
- profion llwyddiannus i adfer ar ôl argyfwng o'r seilwaith TGC a'r safle wrth gefn gweithredol;
- adolygiad o'r Polisi Treuliau presennol a'r Fframwaith Awdurdodau Ariannol; ac
- adolygiad o'r Polisi Diogelwch, sy'n cynnwys diogelwch gwybodaeth, i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gofynion sefydliadol Ofcom yn ddigonol.

Mae fframwaith rheolaeth ariannol cadarn yn dal yn ganolog i'r sefydliad. O ganlyniad i Adolygiad o Wariant 2010, rhaid i Ofcom leihau ei gap gwariant 28.2 y cant, mewn termau real, dros y pedair blynedd hyd at 2014/15. Roedd y setliad hwn yn cynnwys cytundeb i gyflawni cyfran sylweddol o'r arbedion yn ystod blwyddyn gyntaf cyfnod yr Adolygiad o Wariant. Yn unol â'r rownd cynllunio blynyddol, cafodd cyllideb 2011/12 ei gosod o fewn y cap gwariant y cytunwyd arno gyda'r Trysorlys. Mae rhagolygon chwarterol o'r gyllideb, ynghyd ag adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd a'r Weithdrediaeth ynghylch y rhaglen barhaus i gyflawni'r arbedion y cytunwyd arnynt, wedi sicrhau bod alldro 2011/12 yn is na'r targed y cytunwyd arno ac o fewn y gyllideb a osodwyd.




**Ffigur 9: Fframwaith Reoli Ofcom**

### Digwyddiadau Data Personol Wedi'i Ddiogelu

Yn ystod 2011/12 ni chyflwynwyd unrhyw achosion a oedd yn ymwneud â Data Personol wedi'i Ddiogelu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

### Rheoli Risg

Mae Ofcom yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref yn y ffordd mae'n rheoli risg drwy waith y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Wrth roi cymorth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith, mae'r Bwrdd Gweithrediadau a'r Weithrediaeth Polisi'n gyfrifol am ddarparu arweiniad ar reoli risgiau sy'n codi yn sgil datblygiadau rheoleiddio a gweithredu penodol.

Fel rhan o'r broses barhaus i wella ei allu i reoli risg, bydd Ofcom yn cynnal adolygiad blynyddol o'i fframwaith rheoli risg. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys ymarfer i feincnodi'r fframwaith yn ôl Fframwaith Asesu Rheoli Risg y Trysorlys. Cwblhawyd yr adolygiad ym mis Mawrth 2012 a chafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ac roedd y Pwyllgor Risg ac Archwilio wedi nodi bod y fframwaith wedi parhau i wella a chyflwynodd nifer o argymhellion hefyd a fydd yn sylfaen i gynllun gwella parhaus ar gyfer 2012/13. Caiff canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad risg blynyddol eu hystyried gan KPMG fel rhan o gynllun archwilio mewnol Ofcom a bydd yn cyflwyno sylwadau arnynt. Gan dderbyn gwybodaeth drwy ymgysylltu ag Ofcom yn ystod y flwyddyn, roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi gweld bod prosesau rheoli risg Ofcom "yn aeddfedu ac wedi datblygu'n dda a'u bod yn cynnwys sawl enghraifft sylweddol o ymarfer da."

Mae polisi a gweithdrefnau rheoli risg Ofcom yn diffinio ein dull o reoli risg yn glir, ei amcanion a'i brosesau, yn ogystal ag yn diffinio'r swyddogaethau, yr atebolrwydd a'r cyfrifoldebau rheoli risg penodol sy'n bodoli ar draws y sefydliad.

Yn ystod y flwyddyn lansiodd y Bwrdd ymarfer i adolygu datganiadau archwaeth risg presennol y sefydliad. Mae'r datganiadau sydd wedi cael eu diweddaru, a fydd yn cael eu halinio â blaenoriaethau strategol Ofcom ac yn adlewyrchu'r math o risg mae'r sefydliad yn ei wynebu, yn cael ei wreiddio yn y broses gwneud penderfyniadau yn ystod 2012/13.

Caiff y gofrestr risg strategol ei hadolygu gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith bob mis. Caiff pob risg a nodwyd ei dynodi i un perchennog, fel rheol Cyfarwyddwr Grŵp, sy'n atebol am reoli'r risg honno. Caiff camau lliniaru eu neilltuo i bob risg ac fel rhan o'r cylch adolygu misol, ystyrir pa mor agored yw Ofcom i'r risg nawr ac wedyn (ar ôl lliniaru). Caiff risgiau lefel grŵp eu hadolygu gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant fesul mis, a'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Strategol pan fo'n briodol.

Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gan gydweithwyr y sgiliau priodol i ragweld risgiau posibl, i asesu ac i reoli risg yn unol â pholisi Ofcom i wreiddio a chefnogi diwylliant o reoli risg yn dda. Wrth gefnogi rôl yr uwch reolwyr i hyrwyddo'r broses risg, mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant, ynghyd â thîm o Reolwyr Portffolio Grŵp, yn gweithio ar draws pob adran yn y sefydliad i hyrwyddo ac integreiddio'r broses rheoli risg, ac i gefnogi ac addysgu cydweithwyr.

Fel rhan o'r rhaglen barhaus i wella'r fframwaith rheoli risg, cynhaliwyd ymarfer mapio sicrwydd peilot yn ystod y flwyddyn. Nod yr ymarfer hwn oedd rhoi rhagor o sicrwydd ynghylch yr amgylchedd rheoli sy'n ymwneud â phrosesau busnes allweddol a chyfrannu at ddatblygu'r cynllun archwilio mewnol. Caiff rhagor o waith ei wneud yn ystod 2012/13.

Mae'r tabl ar dudalennau 36 i 37 yr adroddiad hwn yn amlygu rhai o'r prif risgiau a sialensiau rydym wedi'u hwynebu yn ystod y flwyddyn wrth i ni gyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yn ein Cynllun Blynyddol. Yn yr adrannau isod rydym wedi achub ar y cyfle i amlinellu'n fanylach sut mae ein strwythur llywodraethu a'n fframwaith rheoli yn ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

### Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau

Yn ystod y flwyddyn roedd Ofcom wedi parhau i ddarparu'r rhaglen i glirio a dyfarnu sbectrwm yn y bandiau 800 MHz a 2.6GHz. Gan gydnabod pwysigrwydd strategol a natur gymhleth y gwaith, ynghyd â'r gofyniad i reoli nifer o brosiectau

**Ffigur 10: Hierarchaeth Risg Ofcom**



sy'n dibynnu ar ei gilydd gyda nifer o randdeiliaid, mae'r Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau (SCAP) wedi gweithredu fframwaith cadarn o lywodraethu a rheoli (gweler Ffigur 11).

Cafodd y Pwyllgor Cyllid Clirio Sbectrwm ei sefydlu fel rhan o'r fframwaith hwn ac mae rhagor o wybodaeth am ei waith ar gael ar dudalen 58. Pan fo'n briodol (er enghraifft, yn y prosesau grantiau ar gyfer teledu daearol digidol ac ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig) rydym wedi penodi archwilwyr annibynnol i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli.

Roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd ar ôl Adolygiad Swyddfa'r Cabinet *Gateway™ Review 0: Strategic Assessment* yn canmol yr Uwch Berchnogion Cyfrifol a'r tîm SCAP "am eu hagwedd a'u cynnydd da". Fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol roedd KPMG, yr archwilydd mewnol a benodwyd gan Ofcom, wedi cwblhau adolygiad o lywodraethu a rheoli prosiect SCAP yn ystod 2011/12, ac mae ei argymhellion wedi cael eu gweithredu yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno.


### Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain

O'r cychwyn cyntaf, mae ein hagwedd at lywodraethu a rheoli ein gwaith i baratoi ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain wedi cael ei arwain gan archwaeth isel iawn am risg. Mae Bwrdd Ofcom, ei Fwrdd Gweithrediadau a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn rhan hollbwysig o strwythur llywodraethu a rheoli risg y prosiect, a gafodd ei adolygu'n annibynnol gan KPMG maes o law fel rhan o gynllun archwilio mewnol 2011/12.

Rydym wedi profi ein galluoedd yn drwyadl, wedi datblygu i gyflawni ein dyletswyddau yn ystod y Gemau, drwy bresenoldeb yn yr holl ddigwyddiadau prawf swyddogol, yn ogystal ag mewn digwyddiadau fel y briodas frenhinol. Cafodd parodrwydd Ofcom ei adolygu ym mis Mai 2012 gan Bwyllgor Gwaith Olympaidd y Llywodraeth a oedd wedi'i gymeradwyo a rhoi statws werdd iddo. Rydym hefyd wedi cynnal adolygiad trwyadl sy'n edrych ar sefyllfaoedd er mwyn ystyried pa mor barod yw ein systemau TGCh ni i ymdopi â phrosesau cysylltiedig.

Rydym wedi nodi'n glir y risgiau rydym yn disgwyl a fydd gennym dros gyfnod y Gemau, wedi datblygu ac adolygu ein dull gweithredu gyda'r Pwyllgor Risg ac Archwilio a Bwrdd Ofcom. Mae gwaith yn mynd rhagddo i liniaru unrhyw risg weddillol cymaint ag y bo modd.

**Ffigur 11: Llywodraethu mewnol SCAP**



### Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gontract allanol

Ar 20fed Gorffennaf 2010, llofnododd Ofcom gontract TGCh allanol gyda Logica. Er bod y rhan fwyaf o'n rhaglenni wedi symud drosodd i'r gwasanaeth newydd erbyn mis Ebrill 2011, ni chyhoeddwyd tystysgrif dderbyn, gyda chafeatau, tan 12fed Ionawr 2012, o ganlyniad i ailgynllunio nifer o weithgareddau pontio.

I oruchwylio'r cyfnod pontio a sefydlogrwydd parhaus y gwasanaeth, sefydlodd Ofcom dîm rhaglen penodol, a oedd yn cynnwys cydweithwyr o Logica. Yn ystod y flwyddyn, roedd y rhaglen wedi adrodd ar gynnydd, risgiau a materion yn rheolaidd i'r prif Fwrdd, y Pwyllgor Risg ac Archwilio a'r Bwrdd Gweithrediadau. Cafodd diwygiadau i'r amserlen gyflawni eu rheoli drwy gyfres o Gynlluniau Cywiro, a gafodd eu paratoi gan Logica ac y cytunwyd arnynt gydag Ofcom. Gan gydnabod pwysigrwydd strategol y newid, yn enwedig yng ngoleuni ein gwaith paratoi ar gyfer Gemau 2012 Llundain, gofynnwyd i KPMG gynnal adolygiad o'r rhaglen yn ystod 2011. Mae'r argymhellion yn adroddiad KPMG wedi cael eu rhannu â Logica a chytunwyd ar y camau gweithredu sy'n deillio o hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu nawr wedi cael eu gweithredu ac mae cynllun ar waith i gyflawni'r rheini y mae dal angen rhoi sylw iddynt.

Cafodd profiad adfer ar ôl argyfwng TGCh o un pen i'r llall eu cwblhau'n llwyddiannus rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2012.

### Integreiddio postcomm

Yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Post, ysgwyddodd Ofcom y cyfrifoldeb dros reoleiddio'r sector gwasanaethau post ar 1af Hydref 2011. Er mwyn sicrhau bod Postcomm yn cael ei integreiddio'n effeithlon sefydlwyd tîm prosiect arbennig, gan gynnwys cydweithwyr o Ofcom a Postcomm, i oruchwylio'r elfennau adnoddau dynol, TGCh, cyfleusterau a chyllid.

Roedd ymgysylltu'n gynnar â'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) wedi rhoi mecanwaith i dalu am y gwaith paratoi a wnaed cyn cael Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf a chytunwyd ar gyllideb ar gyfer integreiddio, gan gynnwys cynllun wrth gefn, gyda BIS a chafodd honno ei chyfleu i'r Post Brenhinol. Daethpwyd i gytundeb gyda'r Trysorlys i ddiwygio cap gwariant gwreiddiol Ofcom a oedd wedi cael ei osod o dan Adolygiad o Wariant 2010 i gynnwys darpariaeth ar gyfer rheoleiddio'r gwasanaethau post. Ar ben hynny, roedd Ofcom wedi ymgysylltu'n weithredol â'r Trysorlys, BIS, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) a Postcomm i sicrhau eglurder ynghylch cyfrifyddu yn ystod ac ar ôl yr integreiddio.

Cafodd cofrestr risg gorfforaethol Postcomm ei hadolygu fel rhan o'r rhaglen integreiddio a phan fo'n briodol, cafodd risgiau eu cofnodi ar gofrestr risg strategol Ofcom. Cynhaliwyd adolygiad integreiddio Postcomm mewnol ac mae'r gwersi sydd wedi cael eu dysgu wedi cael eu cofnodi. Ar ben hynny, fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol, mae KPMG wedi cwblhau adolygiad o'r integreiddio.

### Sicrwydd annibynnol

Mae Ofcom yn rhoi ei swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol i KPMG. Mae KPMG yn cyflawni ei waith yn unol â'r Cynllun Archwilio Blynyddol, sy'n seiliedig ar asesiad o'r gofrestr risg strategol, trafodaethau gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac ystyriaeth barhaus o'r amgylchedd mae Ofcom yn gweithredu ynddo. Caiff y Cynllun ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio. Yn ystod 2011/12, cafodd 13 o archwiliadau mewnol eu cwblhau, gan gynnwys adolygiadau o reoli a llywodraethu'r prosiect ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain a'r Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau.

Pan fo'n briodol, mae Ofcom wedi gofyn am sicrwydd annibynnol, trydydd parti ar gyfer prosesau busnes allweddol. Er enghraifft, fel rhan o'r Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cwblhau adolygiad o'r broses grantiau clirio Teledu Daearol Digidol, ac mae Deloitte a BDO wedi cael eu contractio i ddarparu sicrwydd yng nghyswllt prosesau perthnasol, wedi'u dilyn gan drydydd partïon sy'n ymwneud â'r broses clirio sbectrwm.

Wrth adolygu systemau Ofcom yn unol â'r cynllun archwilio, mae'r Archwilwyr Mewnol wedi rhoi sicrwydd rhesymol, ond nid absoliwt, eu bod yn fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi'i wneud iddynt allu ffurfio barn bod trefniadau rheoli risg Ofcom yn ddigonol ac yn effeithiol, a bod ganddo broses rheoli a llywodraethu ddigonol i reoli'r gwaith o gyflawni ei amcanion. Ni nodwyd dim gwendidau mawr, er bod yr Archwilio Mewnol wedi nodi nifer o gyfleoedd i wella'r trefniadau rheoli a'r gweithdrefnau, ac mae Ofcom wedi ymateb yn gadarnhaol i'r rheini.

### Datganiad a Swyddog Atebol

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, fi sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros system reolaeth fewnol Ofcom a dros sicrhau ei heffeithiolrwydd. Nid yw'r system wedi cael ei dylunio i ddileu risg yn gyfan gwbl. Yn hytrach, cafodd ei dylunio i sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod a'u rheoli'n briodol.

Ni chododd dim materion o bwys ynghylch rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

**Ed Richards, Prif Weithredwr a Swyddog Atebol**
19 Mehefin 2012

# Datganiad o Gyfrifoldebau

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad o Gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad o Gyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Caiff y Datganiad o Gyfrifon hwn ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol ar sail gronnus ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a gaiff eu derbyn yn gyffredinol. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon hwn ar sail busnes byw.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u cadw sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

## Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd, sy'n dirprwyo iddo'r cyfrifoldeb dros reoli Ofcom o ddydd i ddydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Atebol Ofcom. Nid yw wedi'i benodi'n ffurfiol yn Swyddog Atebol yn ôl ystyr y Llywodraeth; ond mae'r penodiad yn cynnwys dyletswyddau cyfrifoldeb o ran rheoleiddio, priodoldeb, gwerth am arian, rheolaeth ariannol dda a diogelu cronfeydd cyhoeddus.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifenyddion Gwladol. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw a rhaid iddo lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei gyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'r rheini sydd ganddo fel Aelod Bwrdd. Hefyd, gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau.

# Adroddiad Taliadau

Wrth baratoi'r Adroddiad Taliadau a sefydlu ei bolisi taliadau, mae'r Bwrdd wedi ystyried darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac wedi mabwysiadu'r darpariaethau, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol ac i gydymffurfio â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth. Nid oes yn rhaid i Ofcom gydymffurfio â Rheoliadau Adroddiadau Taliadau Cyfarwyddwyr 2002, ond mae wedi paratoi'r adroddiad hwn i gydymffurfio cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac yn briodol.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau

Mae cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau i'w weld ar dudalen 54.

## Cynghorwyr

Pan fo angen, mae'r Pwyllgor Taliadau'n cael cyngor a/neu wasanaethau gan sefydliadau allanol arbenigol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael cyngor gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Ofcom. Gan amlaf, mae'r Pwyllgor Taliadau'n gwahodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Ni fydd dim un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## Polisi cyffredinol

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Taliadau y dylai Ofcom, o fewn y cyfyngiadau sydd ar gorff cyhoeddus, gynnig gwobrau a fydd yn denu ac yn cadw'r rheolwyr o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol. Ni ddisgwylir newid yng nghyfeiriad y polisi cyffredinol dros y flwyddyn i ddod.

## Elfennau taliadau

Dyma brif elfennau taliadau Aelodau Gweithredol a Chyfarwyddwyr Grŵp:

### Cyflog a buddion hyblyg

Pennir cyflog sylfaenol pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr ynghyd â thueddiadau'r farchnad. Hefyd, darperir lwfans buddion hyblyg i bob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp sy'n caniatáu i'r unigolyn dan sylw brynu buddion penodol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei adolygu'n flynyddol ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn.

### Buddion safonol

Bydd pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cael rhai buddion safonol: yn benodol yswiriant bywyd, amddiffyniad incwm grŵp a'r gallu i gael archwiliad iechyd blynyddol. Nid yw cyfanswm gwerth yr amddiffyniad incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol wedi cael ei ddatgelu yn y rhestri taliadau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn ei drin fel enillion trethadwy.

### Taliadau sy'n ymwneud â pherfformiad

Mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cymryd rhan mewn cynllun bonws perfformiad, a gaiff ei gyfrifo fel canran o'r cyflog ar sail perfformiad yr unigolyn, hyd at uchafswm o 20 y cant o'r cyflog, yn dibynnu ar yr unigolyn dan sylw. Mae hyn yn galluogi Ofcom i gydnabod cyfraniad y rheini sy'n perfformio'n arbennig o dda yn ystod unrhyw flwyddyn heb godi lefelau cyflog sylfaenol. Nid oes dim un elfen o'r bonws perfformiad yn bensiynadwy. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi cymeradwyo'r bonysau perfformiad a nodir ar gyfer unigolion yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012, ac mae wedi'i gronni ond nid oedd wedi'i dalu ar ddiwedd y flwyddyn.

### Trefniadau pensiwn

Dan drefniadau pensiwn Ofcom mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cael lwfans, a bennir fel canran o'r cyflog sylfaenol, y gall yr unigolyn ei gymryd fel cyflog ychwanegol neu ei fuddsoddi mewn cynllun pensiwn o'i ddewis.

Ni chafodd dim un Aelod Anweithredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## Arweiniad i'r rhestri taliadau

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd y Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgor Gwaith, sydd wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar gael yn y tablau a'r nodiadau canlynol.

Mae'r rhestri hyn yn cyfeirio at y taliadau yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r rhestr yn adlewyrchu'r taliadau am y rhan honno o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n darparu gwasanaethau i'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynnwys neu'r Pwyllgor Gwaith, neu'n Aelodau ohonynt. Yr oedd yr unigolion â '+' wrth eu henwau yn y rhestri ddim ond yn eu swydd am ran o 2010/11 neu 2011/12. Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 54 i 56) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y rhestri taliadau, a rhestrir yr holl Aelodau Gweithredol dan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r pwyntiau â rhif wrth ymyl enwau unigolion yn cyfeirio at y nodiadau ar dudalen 69.

Yn sgil llawer o newidiadau i'r aelodaeth yn 2010/11 ac yn 2011/12, rhoddwyd ffigur blynyddol o dan bob tabl, er mwyn darparu cymhariaeth gliriach o'r cyfanswm costau.

### Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom 2011/12

| Enw | Cyfeirnod Nodyn Cyfarwyddyd | Ffioedd 11/12 £ | Ffioedd 10/11 £ |
|---|---|---|---|
| Millie Banerjee CBE + | 2, 3 | 8,153 | 53,424 |
| Norman Blackwell | 3 | 42,519 | 42,519 |
| Colette Bowe | 3 | 180,000 | 183,333 |
| Y Fonesig Lynne Brindley DBE + | 2, 3 | 24,803 | |
| Tim Gardam | 3 | 42,519 | 42,519 |
| Philip Graf CBE + | 2, 3 | 58,125 | 99,099 |
| Y Fonesig Patricia Hodgson DBE + | 2, 3 | 38,760 | |
| Mike McTighe | 3 | 42,519 | 42,519 |
| | | **437,398** | **463,413** |

*Roedd y costau blynyddol yn £463,413 ar gyfer 2010/11 ac yn £420,076 ar gyfer 2011/12.*

### Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom 2011/12

| Enw | Cyfeirnod Nodyn Cyfarwyddyd | Ffioedd 11/12 £ | Ffioedd 10/11 £ |
|---|---|---|---|
| Richard Ayre + | 2, 3 | | 9,622 |
| Sue Balsom + | 2, 3 | | 5,412 |
| Pam Giddy + | 2, 3 | | 5,412 |
| David Levy + | 2, 3 | 9,900 | |
| Anthony Lilley OBE | 3 | 10,800 | 18,937 |
| Iseabail Mactaggart + | 2, 3 | 9,900 | |
| Glyn Mathias + | 2, 3 | 18,300 | |
| Dr Paul Moore | 3 | 10,800 | 18,937 |
| Adam Singer + | 2, 3 | | 7,216 |
| Joyce Taylor | 3 | 15,900 | 23,745 |
| Janey Walker + | 2, 3 | 9,900 | |
| Kath Worrall + | 2, 3 | | 5,412 |
| | | **85,500** | **94,693** |

*Roedd y costau blynyddol yn £167,126 ar gyfer 2010/11 ac yn £89,100 ar gyfer 2011/12.*

### Taliadau Aelodau Pwyllgor Gwaith a Bwrdd Cynnwys Gweithredol Ofcom 2011/12

| Enw | Cyfeirnod Nodyn Cyfarwyddyd | Cyflog 11/12 £ | Lwfans/hawl pensiwn 11/12 £ | Lwfans buddion hyblyg 11/12 £ | Buddion o fath arall 11/12 £ | Bonws Perfformiad 11/12 £ | Cyfanswm Taliadau 11/12 £ | Cyfanswm Taliadau 10/11 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Jill Ainscough | 4 | 191,586 | 28,738 | 15,000 | 1,859 | 12,000 | 249,183 | 248,301 |
| Chris Banatvala + | 4, 5 | | | | | | | 174,625 |
| Stuart McIntosh | 4 | 230,961 | 34,644 | 15,000 | 1,859 | 17,500 | 299,964 | 294,233 |
| H Nwana | 4 | 186,875 | 28,031 | 15,000 | 1,859 | 12,000 | 243,765 | 237,378 |
| Peter Phillips + | 4, 5 | | | | | | | 123,292 |
| Claudio Pollack | 4, 6 | 148,000 | 22,200 | 15,000 | 1,859 | 15,000 | 202,059 | 183,853 |
| Stewart Purvis + | 4, 5 | | | | | | | 78,031 |
| Ed Richards | 1, 4 | 269,965 | 53,993 | 19,956 | 1,859 | 20,000 | 365,773 | 363,539 |
| Steve Unger | 4, 6 | 159,000 | 23,850 | 15,000 | 1,859 | 15,000 | 214,709 | 190,518 |
| Polly Weitzman | 4 | 206,214 | 30,932 | 15,000 | 1,859 | 17,500 | 271,505 | 263,065 |
| Christopher Woolard | 4 | 175,646 | 35,129 | 15,000 | 1,859 | 12,000 | 239,634 | 231,431 |
| | | **1,568,247** | **257,517** | **124,956** | **14,872** | **121,000** | **2,086,592** | **2,388,266** |

*Roedd y costau blynyddol yn £2,186,943 ar gyfer 2010/11 ac yn £2,086,592 ar gyfer 2011/12.*

Rhaid i sefydliadau sector cyhoeddus ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad. Tâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol 2011/12 oedd £311,780 (£306,546 yn 2010/11). Roedd hyn 6.14 gwaith (6.17 gwaith yn 2010/11) tâl canolrif gweithlu Ofcom a oedd yn £50,759 yn 2011/12 (£49,657 yn 2010/11). Nid oedd dim gweithwyr wedi cael taliadau yn fwy na'r cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf. Yn 2011/12 roedd taliadau'n amrywio o £18,260 i £311,780 ac yn 2010/11 o £19,738 i £306,546. Er mwyn gallu cymharu mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad, buddion hyblyg a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys unrhyw lwfans pensiwn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys.

## Nodiadau ar gyfer y tablau taliadau

1. Yn ogystal â'r taliadau a ddangosir yn y tabl, roedd Ed Richards wedi ennill £45,000 mewn ffioedd am wasanaethau fel Cyfarwyddwr Anweithredol Thames Water Utilities Ltd, a gafodd eu talu'n uniongyrchol i Ofcom. Nid oedd wedi cadw unrhyw ran o'r ffioedd hyn.

2. Mae'r ffioedd ar gyfer Philip Graf, Millie Banerjee, Patricia Hodgson, Lynne Brindley, Iseabail MacTaggart, Janey Walker, Glyn Mathis a David Levy yn adlewyrchu eu bod yn aelodau o Fwrdd Ofcom neu'r Bwrdd Cynnwys am ran o'r flwyddyn yn unig. Roedd Adam Singer, Kath Worrall, Sue Balsom, Pam Giddy a Richard Ayre yn aelodau o'r Bwrdd Cynnwys am ran o 2010/11. Cafodd Glyn Mathias hefyd ffioedd ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer y cyfnod roedd yn Gadeirydd Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol Cymru.

3. Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli'r flwyddyn lawn sy'n cael ei hadolygu. Y ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) oedd £42,519 y flwyddyn er 1 Ebrill 2008. Bwrdd Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli blwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, yn cynrychioli rhan o flwyddyn os gwnaeth yr Aelod Anweithredol perthnasol ymuno â'r Bwrdd Cynnwys neu ymddeol ohono yn ystod y cyfnod dan sylw. £10,800 y flwyddyn yw'r ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (ac eithrio'r ffi a delir i Joyce Taylor sef £15,600 y flwyddyn i adlewyrchu ei gwaith a'i chyfrifoldeb ychwanegol dros waith safonau). Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys daliadau ychwanegol gan Ofcom ar ben eu ffioedd heblaw am yr hawl i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn unig, gael offer TG ar gyfer gweithio gartref. Ni wnaeth pob un o Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom fanteisio ar yr hawl hon yn ystod y cyfnod dan sylw.

4. Mae cyfanswm y taliadau blynyddol a ddangosir i swyddogion gweithredol Ofcom (Aelodau Gweithredol Bwrdd Ofcom, Aelodau Gweithredol y Bwrdd Cynnwys a Chyfarwyddwyr Grŵp ar y Pwyllgor Gwaith) yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad, lwfans arian ar gyfer buddion hyblyg a chanran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn. Mae'r golofn buddion o fath arall yn adlewyrchu'r gost i Ofcom am ddarparu yswiriant meddygol preifat i bob Swyddog Gweithredol.

5. Mae Chris Banatvala, Peter Philips a Stewart Purvis yn cael eu dangos yn y tabl Swyddogion Gweithredol at ddibenion cymharu yn unig; nid oedd yr un ohonynt wedi cael eu cyflogi gan Ofcom yn ystod unrhyw ran o 2011/12.

6. Cafodd Steve Unger a Claudio Pollack gynnydd yn eu cyflog sylfaenol wrth iddynt gael eu dyrchafu yn Gyfarwyddwyr Grŵp ym mis Rhagfyr 2010.

## Contract cyflogaeth

Ac eithrio'r Prif Weithredwr, sydd â chyfnod rhybudd o 12 mis, nid oes gan unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd dros naw mis. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi ystyried y cyfnod rhybudd a'r trefniadau terfynu yng ngoleuni Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, ac mae o'r farn eu bod yn briodol.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi'u penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am Colette Bowe a Patricia Hodgson sydd ar hyn o bryd yn neilltuo hyd at 3 diwrnod yr wythnos a 2.5 diwrnod yr wythnos y naill a'r llall).

## Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys neu Gyfarwyddwr Grŵp, y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r Cyfarwyddwr Grŵp perthnasol. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

## Ymgymryd â swyddogaeth cyfarwyddwr allanol

Ni chaiff unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom dderbyn penodiad anweithredol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Bwrdd i sicrhau na fydd hyn yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau.

Ar ran Ofcom,
**Y Fonesig Patricia Hodgson,**
Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau
19 Mehefin 2012

# Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

Yn 2011/12 roeddem wedi gallu rhedeg Ofcom am y gost flynyddol isaf sef £108.7m. Roedd hyn yn cynnwys cost ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r gwasanaethau post gan y rheoleiddiwr blaenorol, y Comisiwn Gwasanaethau Post (Postcomm), ym mis Hydref 2011.

Mae hyn yn rhagori ar yr arbedion mawr a wnaed y llynedd pan roeddem wedi cynnal adolygiad trwyadl a chynhwysfawr o'n sylfaen costau fel rhan o'n hadolygiad o wariant pedair blynedd. Nod hyn oedd dod o hyd i arbedion gwariant sylweddol, ar yr un pryd â chyflawni ein dibenion strategol a darparu gwasanaethau rheoleiddio effeithiol, wedi'u targedu ac o ansawdd uchel.

Ar ben hynny, mae Ofcom wedi anfonebu ac wedi casglu cyfanswm o £279.5m ar gyfer y pwrs cyhoeddus yn ystod y flwyddyn oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau darlledu a drwy osod dirwyon a chosbau ar randdeiliaid. Roedd hyn £92.3m yn uwch na'r swm a gasglwyd yn 2010/11.

Mae cyllideb Ofcom ar gyfer 2012/13 yn dangos gostyngiad termau real pellach o 6.1 y cant yng nghyfanswm y gost rheoleiddio yn y gyllideb o'i gymharu â 2011/12.

## Rheolaeth ariannol

Mae deall ein costau a rheoli arian yn gadarn yn hollbwysig er mwyn caniatáu i Ofcom gyflawni ei ddibenion strategol ar yr un pryd â chyrraedd y targedau uchelgeisiol a osodwyd fel rhan o'n hadolygiad o wariant.

Er mwyn helpu hyn, mae'r tîm cyllid yn parhau i ganolbwyntio ar bartneriaethau busnes effeithiol gyda'r Grwpiau amrywiol ledled Cymru. Mae'r tîm yn cefnogi'r sefydliad drwy gael gwerth am arian drwy brosesau caffael masnachol, cyllidebau amserol a chywir a rhagweld gwariant, blaenoriaethu adnoddau a gweithgareddau, adrodd am reoli yn gynhwysfawr, rheoli risg, prosesu trafodaethol a chydymffurfio â rheolaethau allweddol.

## Perfformiad ac uchafbwyntiau ariannol

Yn wreiddiol roedd Ofcom wedi gosod cyllideb o £115.8m ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012. Cafodd hyn ei godi i £119.5m i ystyried costau rheoleiddio'r gwasanaeth post o fis Hydref 2011 ymlaen ar ôl trosglwyddo'r cyfrifoldeb i Ofcom. Wrth gymharu â'r gyllideb newydd hon, roedd Ofcom wedi arbed £10.8m, gan gyflawni alldro gweithredol go iawn o £108.7m.

Ar gyfer 2012/13, mae Ofcom wedi gosod cyllideb o £121.4m, sy'n cynnwys £7.2m ar gyfer dyletswydd newydd rheoleiddio'r sector gwasanaethau post. O'i gymharu â chyllidebau cyfun Ofcom a Postcomm[6] ar gyfer 2011/12, mae hyn yn ostyngiad o 6.1 y cant mewn termau real.

### Fframwaith ariannol

Dan Baragraff 8(1) o'r Atodlen i Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae gofyn i Ofcom dafoli ei wariant a'i incwm ym mhob blwyddyn ariannol.

Mae Adran 38 ac Adran 347 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm gan bob un o'r sectorau y mae'n ei reoleiddio i dalu'r costau a ddaw i ran Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw.

Rhaid i Ofcom hefyd rannu ei gostau gweithredol cyffredinol - y rheini nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw sector penodol - mewn modd cymesur ar draws pob un o'r sectorau hynny.

Bydd Ofcom yn codi ei arian o'r ffynonellau a ganlyn:

- ffioedd trwyddedau darlledu teledu;
- ffioedd trwyddedau darlledu radio;
- taliadau gweinyddol am rwydweithiau a gwasanaethau electronig ac am ddarparu cyfleusterau darlledu a chyfleusterau cysylltiedig;
- ffioedd gweinyddol ar gyfer rheoleiddio post;
- arian i dalu costau gweithredu Ofcom am reoli'r sbectrwm ar ffurf cymorth grant gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS);
- cyllid gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i dalu am gostau clirio sbectrwm fel rhan o'r prosiect 800 MHz a 2.6GHz; ac
- arian cymorth grant ar gyfer y swyddogaethau a'r dyletswyddau statudol hynny y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni ond nad oes llif refeniw cyfatebol ar eu cyfer.

Bydd Ofcom hefyd yn cael incwm rhent o le mewn swyddfa mae'n ei roi ar les, llog ar gyfrifon banc ac incwm o wasanaethau sy'n ychwanegol at ddyletswyddau statudol Ofcom.

Cafwyd cyllid cymorth grant, a gafwyd gynt gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

[6] £8.9m Postcomm + £115.8m Ofcom = £124.7m.

**Incwm gweithredol**

Mae cyfanswm incwm gweithredol Ofcom yn y Datganiad o Incwm a Gwariant yn gwahanu'r incwm a geir sy'n ymwneud â'r Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau (SCAP) gan fod hon yn ddyletswydd ychwanegol sydd tu allan i'n cyllideb gweithredu graidd.

Roedd cyfanswm yr incwm gan gynnwys SCAP ar gyfer 2011/12 yn £158.5m (2010/11: £144.2m). Dyma rai o'r newidiadau pwysicaf ers y flwyddyn flaenorol:

- Cynnydd o £31.3m mewn hawliadau dyfarniadau cymorth grant a chlirio sbectrwm, wrth i'r Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau symud ymlaen o'r cam dylunio i'r cam cyflawni. Diben y rhaglen hon yw clirio'r bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6GHz er mwyn darparu gwasanaethau band eang di-wifr y genhedlaeth nesaf yn gystadleuol ar draws y DU. Mae'r cyllid yn ymwneud yn bennaf â cheisiadau grant trydydd parti.
- Gostyngiad o £12.3m mewn cymorth grant rheoli sbectrwm, gan fwyaf oherwydd ailflaenoriaethu ac aildrefnu'r gwariant ar brosiectau sbectrwm, arbedion technoleg gwybodaeth ar ôl rhoi'r swyddogaeth cefnogaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ar gontract allanol yn 2011, a chyfran o arbedion unwaith ac am byth mewn costau eiddo.
- Gostyngiad o £1.9m a £2.9m mewn ffioedd rheoleiddio i'r sector darlledu a gwasanaethau rhwydwaith y naill a'r llall. Mae hyn o ganlyniad i leihau ffioedd 2011/12 yn sylweddol drwy gyflawni manteision yn gynnar drwy'r rhaglen arbedion pedair blynedd.
- Ffrwd incwm ychwanegol o £4.4m o'r sector gwasanaethau post. Roedd Deddf Gwasanaethau Post 2011 yn trosglwyddo dyletswyddau rheoleiddio ar gyfer y sector gwasanaethau post o Postcomm i Ofcom o fis Hydref 2011 ymlaen. O'r swm hwn, roedd £1.2m mewn perthynas ag integreiddio rheoleiddio Gwasanaethau Post yn Ofcom.
- Gostyngiad o £3.1m mewn incwm cymorth grant ar gyfer dyletswyddau statudol eraill. Mae hyn yn bennaf oherwydd ail amseru gwaith wedi'i gynllunio ar dorri hawlfraint ar-lein. Roedd oedi cyn cyhoeddi'r Cod yn sgil Adolygiad Barnwrol o Ddeddf yr Economi Ddigidol ac oherwydd anawsterau cymeradwyo'r Cod.
- Gostyngiad o £1.0m mewn gweithgareddau eraill, mae'r rhan fwyaf o hynny o ganlyniad i roi'r gorau i waith ymyrraeth sbectrwm masnachol.

**Gwariant gweithredol**

Mae cyfanswm gwariant gweithredol Ofcom yn y Datganiad o Incwm a Gwariant yn gwahanu costau'r gwaith sy'n ymwneud â'r Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau (SCAP), gan fod hon yn ddyletswydd ychwanegol sydd tu allan i'n cyllideb gweithredu graidd. Mae'r cynnydd sylweddol mewn gwariant SCAP ar gyfer 2011/12 yn bennaf oherwydd grantiau iawndal o £41.0m (2010/11: £11.8m) i'r rheini a oedd yn dal trwyddedau er mwyn clirio'r bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz.

Mae costau gweithredol eraill sy'n ymwneud â chyfrifoldebau craidd Ofcom wedi lleihau £3.0m yn 2011/12 i £49.7m (2010/11: £52.7m). Dyma rai o'r gostyngiadau sylweddol ers y flwyddyn flaenorol:

- Gostyngiad o £4m mewn costau eiddo. I raddau helaeth roedd hyn oherwydd adolygiad o werth trethadwy ein prif le swyddfa. Y canlyniad oedd newid y ffi a gostyngiad mewn costau a roddodd gyfanswm o £2.8m a oedd yn berthnasol i flynyddoedd blaenorol. Roedd yr adolygiad hwn hefyd wedi arwain at ostyngiad yn y ffi ar gyfer 2011/12, ac ar gyfer blynyddoedd i ddod. Ar ben hynny, roedd cynnydd o ran defnyddio'r ddarpariaeth les feichus ac isosod mwy o le swyddfa.
- Gostyngiad mewn gwariant ar ymchwil cynulleidfaoedd a defnyddwyr gwerth £0.8m o ganlyniad i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant.

Cafodd y rhain eu gwrthbwyso'n rhannol gan:

- Cynnydd o £1.1m mewn ffioedd proffesiynol ar draws nifer o feysydd, gan gynnwys gwaith pensiwn buddion wedi'u diffinio ar roi'r gorau i groniadau buddion yn y dyfodol, lleihau'r risg ar y cynlluniau ac integreiddio cydweithwyr a oedd yn trosglwyddo o Postcomm. Gwariant ffi broffesiynol ychwanegol ar nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr.
- Cynnydd mewn dibrisiant gwerth £0.8m oherwydd cyfalafu offer TG a gafodd ei brynu wrth benodi darparwr TGCh Ofcom ar gontract allanol ar ddiwedd 2010/11. 2011/12 oedd blwyddyn gyntaf lawn y ffi dibrisiant.
- Roedd cynnydd o £0.5m mewn gwariant ar deithio a chynhaliaeth i raddau helaeth oherwydd gofynion o raglen waith Ofcom ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio adnoddau Ewropeaidd ar gyfer digwyddiadau profi a hyfforddi. Ar ben hynny, cafodd Ofcom ei gynrychioli'n briodol yng Nghynhadledd Radio'r Byd a gynhaliwyd yn Geneva.

Mae costau staff wedi disgyn £9m. Roedd costau staff 2010/11 yn cynnwys costau ailstrwythuro gwerth £6.1m,

roedd £5.4m o hynny'n ymwneud â'n prosiect adolygu gwariant, a'r cynllun i leihau nifer y swyddi oddeutu 170 erbyn 2014/15. Mae'r gostyngiad mewn costau staff hefyd yn rhannol oherwydd swyddi gwag sydd wedi aros heb gael eu llenwi drwy gydol y flwyddyn. Cafodd y gostyngiad ei wrthbwyso'n rhannol drwy drosglwyddo 48 o swyddi i Ofcom, cafod 27 eu llenwi gan gyn gydweithwyr Postcomm, ar ôl i Ofcom ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau post ym mis Hydref 2011.

### Gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol

Gellir cael dau fath o warged mewn unrhyw flwyddyn ariannol.

#### Gwarged cyllido

Caiff gwarged cyllido ei greu pan fydd incwm gan randdeiliaid a chymorth grant yn fwy na'r gwariant go iawn a geir. Bydd y refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail datganiad Ofcom o egwyddorion codi ffioedd. Mae'r dull gweithredu hwn yn pennu'r arian go iawn y mae angen ei gasglu i ryddhau atebolrwydd arian yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben a geir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid drwy leihau'r tariffau blynyddol a godwyd yn ddwy flynedd ariannol flaenorol.

Roedd y gwarged cyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol yn £10.8m.

#### Gwarged cyfrifyddu

Mae angen y gwarged cyfrifyddu i dalu am wariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad Incwm a Gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau angenrheidiol mewn perthynas â'r ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio.

Y gwarged cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth a gofnodwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw oedd £6.8m (2010/11: £9.2m).

#### Arian Ychwanegol a gesglir ar ran Trysorlys EM

Yn ystod 2011/12 fe wnaeth Ofcom anfonebu a chasglu £279.5m (2010/11: £187.2m). Mae'r arian yma wedi cael ei drosglwyddo i'r pwrs cyhoeddus. Cesglir y refeniw o dair ffynhonnell:

- Ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr;
- Taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau ar gyfer teledu a radio; a
- Chosbau ariannol.

Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

### 2012/13 Tariffau


Ar 29 Mawrth 2012, cyhoeddodd Ofcom y Tablau Tariff ar gyfer 2012/13, a oedd wedi'u seilio ar amcangyfrif o £108.7m o alldro gwariant gweithredol ar gyfer 2011/12. Mae cyfanswm o £10.8m, y gwahaniaeth rhwng y gyllideb a addaswyd, sef £119.5m a'r amcangyfrif o alldro'r gwariant gweithredol, eisoes yn cael ei roi'n ôl i'r rhanddeiliaid yn 2012/13 fel rhan o'r tariffiau rheoleiddio neu drwy lai o hawliadau am gymorth grant.

£121.4m yw cyllideb Ofcom ar gyfer 2012/13. Mae hyn yn cynnwys £7.2m i Ofcom gyflawni ei ddyletswyddau newydd i reoleiddio'r sector gwasanaethau post. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 6.1 y cant mewn termau real yng nghyfanswm cost flynyddol rheoleiddio ar gyfer y sectorau. Pennir y gyllideb ar sail arian wedi'i addasu, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau gwirioneddol at gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiad ac amorteiddio.

Er gwaethaf y gostyngiad yn y gost a gyllidebwyd ar gyfer rheoleiddio, mae'r tariffau ar gyfer 2012/13 wedi cynyddu o'i gymharu â'r llynedd ar gyfer rhai sectorau. Cafodd tariffau'r llynedd ei lleihau'n sylweddol o ganlyniad i'r arbedion cynnar a wnaed fel rhan o'n rhaglen arbedion pedair blynedd.

Heb ystyried y cynnydd eleni, mae tariffau'n dal yn sylweddol is na'r rheini a bennwyd cyn dechrau'r rhaglen arbedion. Mae'r graff isod yn dangos y patrwm cyllido dros y pum mlynedd diwethaf.

**Ffigur 12: Patrymau cyllido**



### Integreiddio Postcomm

O dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2011, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros reoleiddio'r gwasanaethau post o Postcomm i Ofcom ar 1 Hydref 2011. Cafodd asedau ac atebolrwydd Postcomm eu trosglwyddo i Ofcom yn unol â chanllawiau'r Trysorlys o dan gynllun trosglwyddo cymeradwy. Mae Postcomm wedi paratoi ei Adroddiad Blynyddol a'i Gyfrifon terfynol ar gyfer 2011/12.

Gan edrych ymlaen, mae rheoleiddio'r gwasanaethau post nawr wedi cael ei integreiddio'n llawn yn Ofcom, gydag incwm gan y rhanddeiliaid perthnasol.

### Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau (SCAP)

Yn ystod 2011/12 mae gwariant wedi parhau ar y Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau (SCAP). Amcanion SCAP yw sicrhau bod y bandiau 800MHz a 2.6GHz ar gael, drwy glirio defnyddwyr cyfredol a chynnal arwerthiant ar gyfer trwyddedau newydd, er mwyn darparu band eang di-wifr y genhedlaeth nesaf yn gystadleuol ar draws y DU i gyd.

Bydd taliadau i ddefnyddwyr cyfredol yn cael eu gwneud drwy grantiau iawndal ac yn cael eu cyllido gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n dal y gyllideb, gyda chymeradwyaeth gan y Trysorlys. Caiff taliadau eu gwneud gan Ofcom i ymgeiswyr am grant ac yn y flwyddyn 2011/12 roedd eu cyfanswm yn £41m. Cafodd SCAP £7m arall o gostau ar gyfer ymchwil, ffioedd cyfreithiol, gwaith paratoi ar gyfer arwerthiant, ffioedd proffesiynol a chostau staff, a chafodd y rhain eu cyllido gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n dal y gyllideb.

Mae SCAP yn rhaglen waith sylweddol i Ofcom ac mae'n cynnwys cydlynu nifer o brosiectau cymhleth o fewn amserlen anodd. Mae'r rhaglen yn rheoli dibyniaethau a risgiau ar draws nifer o randdeiliaid gwahanol a bydd yn rhedeg hyd at 2014/15. Er mwyn bod yn dryloyw, mae'r costau sy'n ymwneud â'r rhaglen waith hon wedi cael eu gwahanu oddi wrth gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol.

### Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain

Mae cyfrifon 2011/12 yn cynnwys rhaglen waith Ofcom am yr drydedd flwyddyn lawn ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain, a gynhelir rhwng 27 Gorffennaf a 9 Medi 2012.

Mae Ofcom yn gyfrifol am drefnu cynllun sbectrwm llawn ar gyfer y Gemau, gan drefnu'r holl drwyddedau mewn da bryd i gefnogi'r cynllun; a sicrhau bod gwasanaethau di-wifr yn rhydd rhag ymyrraeth niweidiol. Ysgwyddir y cyfrifoldebau hyn yn unol â'r ddwy warant a roddwyd gan Lywodraeth y DU i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol (IOC) i gefnogi cais Llundain i gynnal y Gemau yno. Mae'r rhain yn gwarantu y bydd y sbectrwm a fydd yn ofynnol ar gyfer y Gemau'n cael ei ddyrannu a hepgor y ffioedd y byddai'n rhaid eu talu fel arall am y sbectrwm hwnnw gan aelodau'r Teulu Olympaidd.

Roedd ein digwyddiadau treialu ar raddfa fawr wedi dechrau yn ystod haf 2010. Roedd digwyddiadau profi integredig ar draws sefydliadau wedi'u cynnal drwy gydol 2011/12 a byddant yn parhau tan gyfnod y Gemau. Mae Ofcom wedi cymryd rhan lawn yn y digwyddiadau prawf hyn.

Caiff costau'r rhaglen eu cyllido gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon drwy gymorth grant rheoli sbectrwm, ac mae'n rhan o'n cyllideb gweithredu craidd. Mae'r rhaglen yn dal ar y trywydd iawn i gyflawni o fewn cyllideb y rhaglen lawn y cytunwyd arni gyda'r Llywodraeth.

### Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans cyfraniadau pensiwn wedi'u diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn rhanddeiliaid cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom.

Roedd gan gydweithwyr a ymunodd ag Ofcom o hen reoleiddwyr hawl i gadw eu haelodaeth o un o'r cynlluniau pensiwn buddion wedi'u diffinio (DB). Mae'r naill gynllun a'r llall ar gau i'r rheini sy'n ymuno o'r newydd a daeth croniadau buddion i ben ar 31 Mai 2011. Mae nodiadau 1K a 22 i'r cyfrifon yn rhoi rhagor o fanylion.

Ar ôl ymgynghori ag aelodau'r cynllun, penderfynodd Ofcom gau'r ddau gynllun DB i groniadau yn y dyfodol ar 31 Mai 2011. Cafodd aelodau wybod am y bwriad i roi'r gorau i groniadau buddion ym mis Chwefror 2011. Daeth cydweithwyr yr effeithiwyd arnynt yn aelodau gohiriedig o'r cynllun pensiwn DB perthnasol ar 1 Mehefin 2011 ac mae'r cydweithwyr hyn wedi gallu bod yn rhan o gynllun pensiwn rhanddeiliaid Ofcom o'r dyddiad hwn ymlaen.

Roedd y prisiadau actiwaraidd diweddaraf ar gyfer y naill gynllun a'r llall, ar 31 Mawrth 2009, wedi amlygu diffyg cyllid cyfun gwerth £21.9m. Ers terfynu'r prisiadau actiwaraidd yn 2010, mae cyfanswm o £14.7m mewn perthynas â thaliadau gwneud iawn am y diffyg wedi cael eu gwneud i'r cynlluniau DB yn unol â'r atodlenni cyfraniadau perthnasol.

Fodd bynnag, mae datganiadau ariannol 2011/12 yn dangos gwarged o £32.4m, yn rhannol oherwydd bod yr atebolrwydd pensiwn dan y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod yr atebolrwydd yn cael ei ddiystyru yn unol â'r elw ar fondiau o ansawdd uchel sydd, dan yr amodau marchnad cyfredol, yn wahanol iawn i'r dull gweithredu sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau'r actiwari a'r cyfraniadau a wnaed gan Ofcom.

Gwnaeth Ofcom daliadau ariannol at Gynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac at Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail prisiadau'r actwari. Cynhwysir taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredol, fel y'u cyfrifir dan IAS 19, yn alldro'r gwariant gweithredol a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffiau a godir ar randdeiliaid bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, talwyd £2.6m at y ddau gynllun DB ynghyd â £0.5m a drosglwyddwyd o'r cyfrif ymddiriedolaeth bwydo. Dim ond i un o'r ddau gynllun pensiwn DB y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo.

Fel rhan o'r integreiddio â Postcomm ym mis Hydref 2011, roedd yn rhaid i Ofcom gynnig y cyfle i gydweithwyr a oedd yn trosglwyddo o Postcomm ac a oedd yn aelodau o gynllun â buddion wedi'u diffinio, i fod yn rhan o gynllun pensiwn a oedd yn weddol debyg. Fodd bynnag, dewisodd holl gyn gydweithwyr Postcomm dderbyn telerau safonol Ofcom a chael lwfans pensiwn cyfraniad wedi'i ddiffinio mae modd ei ddefnyddio i gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid Ofcom.

Cynhelir y gwerthusiad actiwaraidd bob tair blynedd ffurfiol nesaf ar 31 Mawrth 2012 a rhaid iddo ddod i ben erbyn 30 Mehefin 2013.

Fel rhan o'r gweithgarwch parhaus i reoli ac i liniaru risgiau'r cynlluniau, prynwyd buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant mewn perthynas ag aelodau pensiynwyr drwy brynu blwydd-daliad yn ystod 2011/12.

### Edrych ymlaen

Mae Ofcom yn dal wedi ymrwymo i reoleiddio mewn ffordd effeithiol, o ansawdd ac wedi'i thargedu ar yr un pryd â chyflawni'r arbedion a nodwyd hyd yn hyn er mwyn cyrraedd y targedau gwariant y cytunwyd arnynt gyda'r Trysorlys yn 2010/11. Mae Ofcom wedi dod yn ei flaen yn dda iawn i gyflawni arbedion wedi'u cynllunio ac mae'n dal ar y trywydd iawn i gyflawni'r gostyngiad termau real o 28.2 y cant yn ein cyllideb erbyn 2014/15.

Ceir nifer o brosiectau uchel eu proffil yn 2012/13 sy'n cynnwys:

Bydd Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain yn dod i ben ym mis Medi 2012 ac mae Ofcom yn dal ar y trywydd iawn i gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt o fewn y gyllideb.

Mae'r prosiect SCAP yn parhau, gyda chlirio'r sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz yn parhau drwy gydol 2012/13. Disgwylir y caiff proses arwerthiant y sbectrwm ei dechrau erbyn diwedd 2012.

Mae'r gwaith cynllunio'n mynd rhagddo i gyflawni amcanion Ofcom ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014 ac yn ystod 2012/13 byddwn yn defnyddio'r gwerth byddwn wedi'i gael o'r gwersi rydym wedi'u dysgu, buddsoddiadau a datblygiadau o Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain, er y bydd hynny ar raddfa lai, gyda chyllidebau a chyllid penodol.

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti, a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi dan y polisïau cyfrifyddu sydd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad hwnnw fel adroddiad sydd wedi cael ei archwilio.

### Cyfrifoldebau perthnasol y Swyddog Atebol a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad am Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol, mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg deg a gwir.  Fy nghyfrifoldeb yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Swyddfa Cyfathrebiadau 2002. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau sylweddol, boed hynny drwy dwyll neu wallau. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau ac a ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol y mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau wedi'u gwneud; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny, byddaf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i ddod o hyd i anghysondebau sylweddol yn y datganiadau ariannol archwiliedig. Os byddaf yn dod ar draws unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylweddol byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif.

Ar ben hynny, rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a'r trafodion ariannol i gydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o sylwedd mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiad ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg teg a gwir o gyflwr materion y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2012 a'i warged gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi'n iawn yn unol â'r Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac yn ôl cyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol Ysgrifenyddion Gwladol a gyhoeddwyd oddi tani.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae rhan yr Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n iawn yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifenyddion Gwladol a wnaed dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002; ac.
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

### Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i adrodd arno mewn perthynas â'r materion canlynol rwyf yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan y canghennau nad oedd fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan honno o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd  y Trysorlys.

### Adroddiad

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
20 Mehefin 2012

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain, SW1W 9SP

# Datganiad Incwm a Gwariant
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | Nodiadau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | **109,296** | 126,245 |
| Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau | 3 | **49,229** | 17,939 |
| **Gwariant gweithredol** | | | |
| Costau Staff | 4 | **(54,357)** | (65,356) |
| Costau gweithredol eraill | 6 | **(49,727)** | (52,699) |
| Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau | 4, 6 | **(48,826)** | (17,893) |
| **Gwarged gweithredol** | | **5,615** | **8,236** |
| Eiddo gwag | 7 | **150** | (1,455) |
| Incwm cyllid | | **199** | 177 |
| Costau cyllid | 8 | **–** | – |
| Incwm cyllid arall/(cost) | 17,22 | **925** | 2,222 |
| **Gwarged ar weithgareddau arferol ar gyfer y flwyddyn ariannol cyn treth** | | **6,889** | **9,180** |
| Trethiant | 9 | **(53)** | 112 |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth** | | **6,836** | **9,292** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 80 i 106 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol
## Ar 31 Mawrth 2012

| | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 | Ar 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | **13,635** | 15,837 |
| Asedau anniriaethol | 11 | **7,379** | 11,713 |
| Asedau treth gohiriedig | 9 | **2,601** | 2,654 |
| Symiau Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 13 | **1,116** | 1,339 |
| Asedau buddion ymddeol | 22 | **31,329** | 20,362 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **56,060** | **51,905** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **8,944** | 8,150 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod | 14 | **13,677** | 26,944 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **22,621** | **35,094** |
| **Cyfanswm asedau** | | **78,681** | **86,999** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau Masnach a symiau taladwy eraill | 15 | **23,324** | 35,179 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | **499** | 342 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **23,823** | **35,521** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill – symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | 16 | **7,610** | 9,631 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | **3,392** | 4,266 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **11,002** | **13,897** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **34,825** | **49,418** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **43,856** | **37,581** |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | **43,856** | 37,581 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **43,856** | **37,581** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 80 i 106 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.
Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 19 Mehefin 2012.

**Colette Bowe**
Cadeirydd

**Ed Richards**
Prif Weithredwr

# Datganiad Newidiadau Ecwiti

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2010** | | **17,227** |
| **Newidiadau ecwiti ar gyfer 2010/11** | | |
| Adenillion gwirioneddol heb gynnwys yr adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun | 22 | 290 |
| Enillion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 22 | (143) |
| Newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 22 | 2,395 |
| Lleihad yn atebolrwydd y gofyniad cyllido sylfaenol | 22 | 8,520 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 9,292 |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2010/11** | | **20,354** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2011** | | **37,581** |
| | | |
| **Newidiadau ecwiti ar gyfer 2011/12** | | |
| Adenillion gwirioneddol heb gynnwys yr adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun | 22 | 2,360 |
| Enillion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 22 | (2,879) |
| Newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 22 | (4,686) |
| Lleihad yn atebolrwydd y gofyniad cyllido sylfaenol | 22 | 4,640 |
| Addasiad actiwaraidd i rwymedigaeth pensiwn Postcomm na chaiff ei hariannu | | 167 |
| Derbyn Postcomm ar 30 Medi 2011 | | (163) |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 6,836 |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2011/12** | | **6,275** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | | **43,856** |

Mae mwy o fanylion am bensiynau ar gael yn Nodyn 22.

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 80 i 106 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Llif Arian
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | Nodiadau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwarged gweithredol | | **5,615** | 8,236 |
| Derbyn Postcomm ar 30 Medi 2011 ac addasiad pensiwn actiwaraidd | | **4** | – |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | | | |
| Amorteiddio | 11 | **5,085** | 5,278 |
| Dibrisio | 10 | **3,693** | 2,849 |
| Colled ar waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 6 | **136** | 88 |
| Lleihad/cynnydd mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12,13 | **(571)** | 3,251 |
| Lleihad mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill | 15,16 | **(13,876)** | (12,748) |
| Lleihad mewn darpariaethau | 17 | **(675)** | (1,287) |
| Cynnydd mewn asedau pensiwn | 22 | **(10,499)** | (5,403) |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol** | | **(11,088)** | **264** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a gafwyd | | **199** | 177 |
| Llog a dalwyd | 8 | **–** | – |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | **(1,646)** | (6,713) |
| Prynu eitemau anniriaethol | 11 | **(751)** | (2,184) |
| Elw ar werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | **19** | 52 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(2,179)** | **(8,668)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Ad-dalu benthyciadau | | **–** | – |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau cyllido** | | **–** | – |
| | | | |
| **Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **(13,267)** | **(8,404)** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 14 | **26,944** | 35,348 |
| Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn | | **(13,267)** | (8,404) |
| **Cronfeydd net terfynol** | **14** | **13,677** | **26,944** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 80 i 106 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

### 1. Y Sail dros Gyflwyno a'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu

Mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yn gorfforaeth gyhoeddus sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Cafodd datganiadau ariannol y Sefydliad ar gyfer 31 Mawrth 2012 eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), fel y'u cymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy ailbrisio rhai asedau anghyfredol, ar sail busnes byw, yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol. Paratoir y datganiadau ariannol ar sail holl ddehongliadau a safonau cyfrifyddu IFRS, ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n llunio adroddiadau dan IFRS ac Erthygl 4 Rheoliad IAS yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio pan gaiff y rhain eu diystyru gan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Paratoir y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr 2008 gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n rhan o'r Memorandwm Ariannol fel y'i cymeradwywyd gan yr adrannau hynny.

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu nodi mewn punnoedd sterling, sef yr arian y mae'r sefydliad yn delio ag ef.

#### A) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau, diwygiadau a dehongliadau newydd ar gyfer safonau cyfredol wedi cael eu cyhoeddi, ond nid ydynt yn berthnasol yng nghyswllt cyfnod cyfrifyddu Ofcom.

Nid yw'r safonau, y diwygiadau na'r dehongliadau newydd canlynol ar gyfer y safonau cyfredol yn weithredol eto, ac nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu'n gynnar gan Ofcom:

- IFRS 7 Financial Instruments (Amendment): Disclosures a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2013
- IFRS 9 Financial Instrument (New) a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2015
- IFRS 10 Consolidated Financial Statements (New) a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2013
- IFRS 12 Disclosure of Interest in other entities (New) a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2013
- IFRS 13 Fair Value Measurement (New) a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2013
- IAS 1 Presentation of Financial Statements (Amendment), a ddaw i rym ar 1 Gorffennaf 2012
- IAS 19 Employee Benefits (Amendment) a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2013
- IAS 32 Financial Instruments: Presentation (Amendment) a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2014
- IAS 27 Consolidated and Separate Financial Statements (Revised), a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2013

Mae'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau newydd canlynol ar gyfer safonau cyfredol yn weithredol yn 2012.

- IFRS 7 Financial Instrument Disclosures (Amendment) a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2011
- IAS 12 Income Taxes (Amendment) a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012

Mae'r Bwrdd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn y dyfodol yn effeithio llawer ar ddatganiadau ariannol Ofcom.

#### B) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg yr ystyriaeth a gafwyd neu sy'n dderbyniadwy yn ystod gweithgarwch arferol Ofcom. Dangosir incwm heb gynnwys treth ar werth, enillion, ad-daliadau na gostyngiadau.

Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd yr incwm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd yn deillio i'r endid yn y dyfodol.

**Cymorth grant**

Mae'r incwm hwn yn cynnwys cymorth grant gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i dalu costau rheoli sbectrwm, dyfarnu sbectrwm, clirio sbectrwm, ôl-gystadleuaeth, budd y cyhoedd, integreiddio gwasanaethau post, asesiadau cyfryngau lleol, cyfranogiad digidol, rhwystro gwefannau, torri

hawlfraint ar-lein a llythrennedd yn y cyfryngau. Caiff cymorth grant a geir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ei ddyrannu a'i gyfateb i'r costau yn y flwyddyn sy'n berthnasol iddo.

Mae'r Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau (SCAP) yn goruchwylio clirio (gan gynnwys lliniaru ymyrraeth bosibl) a chynnal arwerthiant o'r sbectrwm 800MHz a 2.6GHz. Caiff y gwaith clirio ei wneud gan drydydd partïon sy'n cael eu talu drwy grant cyfalaf sydd wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid Clirio Sbectrwm. Caiff SCAP ei gyllido drwy Gymorth grant.

Mae'r rheini sy'n derbyn grantiau yn gofyn am gyllid gan Ofcom ar ôl bodloni amodau'r grant. Mae Ofcom yn cydnabod y costau grant ar ôl derbyn y cais am gyllid. Caiff yr holl gostau eraill eu cydnabod fel gweithgarwch a wneir gan Ofcom.

**Ffioedd gweinyddu gwasanaethau a rhwydweithiau**

Rhoddir cyfrif am incwm ar sail gronnus sy'n cynnwys ffioedd gweinyddol a anfonebwyd gan Ofcom. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian rhwydweithiau a gwasanaethau ei nodi fel incwm gohiriedig ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Ffioedd trwyddedau darlledu**

Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebwyd i'r rheini sy'n dal trwyddedau, ac fe gaiff ei gyfrifo ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian Darlledu ei drin fel incwm gohiriedig ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Ffioedd ymgeisio**

Ni ellir ad-dalu ffioedd Darlledu a Rhwydweithiau na gwasanaethau un-tro, ac felly cânt eu cofnodi fel incwm adeg derbyn cais y rhanddeiliad.

**Incwm arall**

Caiff incwm arall ei gyfrif ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

### C) Derbyniadau a gasglwyd gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, bydd Taliadau Ychwanegol y Ddeddf Darlledu a chosbau a dirwyon y mae Ofcom yn eu codi yn cael eu had-dalu i'r Gronfa Gyfunol. Hefyd, caiff ffioedd trwyddedau y mae Ofcom yn eu codi, sy'n deillio o gyhoeddi neu adnewyddu trwyddedau dan y Deddfau Telegraffiaeth Ddi-wifr, eu had-dalu i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w talu i'r Gronfa Gyfunol.

Ni wneir unrhyw gofnodion yn y Datganiadau Ariannol hyn o ran trafodion sy'n gysylltiedig ag Adran 400, ac eithrio taliadau a ffioedd sydd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Dangosir y rhain fel eu bod yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn y Symiau Taladwy sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

Mae Ofcom yn paratoi cyfres o gyfrifon ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd.

### Ch) Lesoedd

Bydd lesoedd lle bydd y lesddaliwr yn agored i gyfran sylweddol o'r risgiau a'r manteision sydd ynghlwm wrth berchnogaeth yn cael eu trin fel lesoedd gweithredol. Caiff taliadau a wnaed ac a gafwyd dan lesoedd gweithredol eu cydnabod fel Incwm neu Wariant ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Caiff cymhellion lesoedd eu cydnabod fel rhan greiddiol o gyfanswm gwerth y les, dros gyfnod y les pan na ellir ei chanslo.

### D) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli asedau cyfredol.

Mae arweiniad gan y Trysorlys ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn caniatáu i Ofcom ddefnyddio costau hanesyddol dibrisiedig i gynrychioli gwerth presennol asedau nad ydynt yn eiddo sydd ag oes ddefnyddiol fer neu werth isel. Mae holl asedau Ofcom yn perthyn i'r categori hwn. Mae cost hanesyddol yn cynnwys gwariant a gaiff ei briodoli'n uniongyrchol i gaffael yr eitemau.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi fel costau neu eu pennu'n gostau llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion. Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar gwerth dros £2,500 eu cyfalafu.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn deillio i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yng ngwerth llyfr yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff gwerth llyfr y darn a ddisodlir ei ddad-gydnabod. Caiff yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw arall ei gofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn ystod y cyfnod ariannol y mae'n daladwy.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth llyfr dros eu hamcan oes ddefnyddiol.

Wrth asesu amcan oes ddefnyddiol, a gaiff ei adolygu'n flynyddol, rhoddir ystyriaeth i unrhyw drefniadau contract a gofynion gweithrediadol sy'n ymwneud ag asedau penodol.

Caiff dibrisiant ei gyfrifo o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Oni bai fod gofynion gweithrediadol yn pennu fel arall, nodir yn y tabl isod, yn gyffredinol, y cyfnodau dibrisiant ar gyfer y prif gategorïau eiddo, peiriannau a chyfarpar:

| | |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau – Gwelliannau Les | Cyfnod y les |
| Gosodiadau a Ffitiadau – Celfi | 7 mlynedd |
| Offer Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur | 5 mlynedd |

Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Pennir enillion a cholledion ar yr hyn a werthir drwy gymharu'r elw â'r gwerth llyfr, a chânt eu cydnabod yn 'Colledion/ (Elw) ar waredu asedau anghyfredol' yn adran 'Costau gweithredol eraill' y Datganiad Incwm a Gwariant.

### Dd) Asedau anniriaethol

Nodir asedau anniriaethol ar yr union gost, llai amorteiddiad cronedig, gan ddefnyddio'r model ailbrisio lle caiff yr ailbrisiad effaith sylweddol. Cânt eu hadolygu'n flynyddol i weld a oes lleihad yn eu gwerth. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd a ffioedd datblygu a thrwyddedau cysylltiedig.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod ddim ond os gellir adnabod yr ased a grëwyd; os yw'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn creu buddion economaidd yn y dyfodol; ac os gellir mesur cost datblygu'r ased yn ddibynadwy. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff gwariant datblygu ei gofnodi fel cost yn y cyfnod y mae'n daladwy. Nid yw gwariant datblygu a gydnabuwyd yn flaenorol fel cost yn cael ei gydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae costau a briodolir yn uniongyrchol sy'n cael eu cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol.

Caiff amorteiddiad ar gostau datblygu a gyfalafwyd ei nodi ar y datganiad incwm ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Amcangyfrifir mai rhwng tair a phum mlynedd yw'r oes ddefnyddiol.

Mae gwariant datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu systemau cyfrifiadurol a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu'n cynnwys offer maes technegol sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Caiff gwariant ar ymchwil ei ddiddymu fel gwariant a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant. Nid yw amorteiddiad na dibrisiant yn effeithio ar asedau sydd wrthi'n cael eu datblygu neu eu hadeiladu.

### E) Lleihau gwerth asedau

Caiff lleihau gwerth asedau ei gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr yr ased a'i swm adferadwy, os yw'n llai.

Diffinnir swm adferadwy fel y gwerth teg uchaf, llai costau gwerthu, ac amcangyfrif o'i werth mewn defnydd ar ddyddiad yr adolygiad lleihau. At ddibenion asesu lleihad, caiff asedau eu grwpio ar y lefelau isaf lle ceir llifoedd arian y gellir eu hadnabod ar wahân (unedau cynhyrchu arian).

Caiff gwerth llyfr ased ei briodoli'n syth i'w swm adferadwy os yw gwerth llyfr yr ased yn fwy na'i swm adferadwy amcangyfrifiedig.

Cydnabyddir colledion yn ôl y swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr yr ased a'i swm adferadwy.

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth llyfr asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod gwerth llyfr yr asedau wedi lleihau. Caiff lleihad sylweddol ei gydnabod ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Caiff asedau sydd wedi lleihau mewn gwerth eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r lleihad.

### F) Symiau masnach derbyniadwy

Ystyr symiau masnach derbyniadwy yw arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod ar werth teg yn y dechrau, ac yna eu mesur ar gost amorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol, llai darpariaeth ar gyfer lleihad.

### Ff) Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendaliadau a ddelir gan fanciau a blaendaliadau rhent.

### G) Symiau masnach taladwy

Ystyr symiau masnach taladwy yw rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gwaith arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Caiff symiau masnach taladwy eu cydnabod ar werth teg yn y dechrau, ac yna eu mesur ar gost amorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol.

### Ng) Buddion Gweithwyr

#### Cynlluniau Pensiwn

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynlluniau cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau na chânt eu hariannu.

#### Cynlluniau cyfraniadau wedi'u diffinio

Cynllun buddiannau ôl-gyflogaeth yw cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae endid yn talu cyfraniadau penodedig i endid ar wahân ac nid oes ymrwymiad cyfreithiol nac adeiladol arno i dalu symiau ychwanegol. Caiff ymrwymiadau i dalu cyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio eu cydnabod fel gwariant er budd gweithwyr yn y datganiad incwm a gwariant yn unol â'r gwasanaeth sy'n arwain at yr ymrwymiad. Caiff cyfraniadau rhagdalu eu cydnabod fel ased i'r graddau bod ad-daliad ariannol neu leihad mewn taliadau i'r dyfodol ar gael.

Gall staff newydd ymuno â chynllun pensiwn rhanddeiliaid, sy'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio.

#### Cynlluniau buddion wedi'u diffinio

Mae'r cynllun buddion wedi'u diffinio hefyd yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth, ond mae'n wahanol i gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. Caiff ymrwymiad net Ofcom o ran cynlluniau pensiwn buddion wedi'u diffinio ei gyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif swm y budd y bydd gweithwyr wedi'i ennill yn y dyfodol am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol; tynnir disgownt oddi ar y budd hwnnw er mwyn pennu ei werth cyfredol. Caiff unrhyw gostau gwasanaeth yn y gorffennol nas cydnabuwyd a gwerth teg asedau unrhyw gynllun eu didynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r incwm ar y dyddiad adrodd o'r bondiau â sgôr credyd AA sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau ymrwymiadau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull credyd uned disgwyliedig. Os bydd Ofcom ar ei ennill ar ôl gwneud y cyfrifiad, caiff yr ased a gydnabuwyd ei gyfyngu i gyfanswm net unrhyw gostau gwasanaeth yn y gorffennol nas cydnabuwyd a gwerth presennol unrhyw ad-daliadau i'r dyfodol o'r cynllun neu leihad mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Caiff colledion ac enillion actiwaraidd eu cydnabod yn llawn yn y cyfnod y byddant yn codi. Cânt eu cydnabod y tu hwnt i'r datganiad incwm a gwariant a'u cyflwyno yn y Datganiad Newidiadau Ecwiti.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a drosglwyddodd i Ofcom o sefydliadau blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd ac ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun mae wedi cael ei gau ar gyfer croniadau i'r dyfodol er 1 Mehefin 2011.

Mae'r cynllun cyntaf, Cynllun Pensiwn Buddion wedi'u Diffinio Ofcom, yn darparu buddion sy'n gyfwerth i raddau helaeth â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae Ofcom yn cymryd rhan yn y cynllun ar y cyd â'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt) ac mae Ofcom yn un o'r pedwar cyflogwr sy'n cymryd rhan ynddo. Caiff asedau'r cynllun hwn eu dal mewn ymddiriedolaeth a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol dan IAS19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl tybiaethau IAS19, na ellir cydnabod y gwarged ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol endid oni bai fod budd economaidd "ar gael" i'r endid yn sgil y gwarged.

Mae IFRIC 14 yn berthnasol i'r holl fuddion wedi'u diffinio ôl-gyflogaeth a buddion wedi'u diffinio eraill tymor hir i weithwyr. Mae Ofcom yn dilyn y dadansoddiad o'r safon hon.

#### Cynlluniau heb eu cyllido

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i dri chyn-gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-gadeirydd yr Awdurdod Radio a dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau. Mae'r rhain yn gynlluniau na chânt eu hariannu ac fe gyfrifir amdanynt dan IAS 19 gyda darpariaeth wedi'i chynnwys ym mantolen Ofcom ar gyfer prisiad yr actiwari o'r rhwymedigaethau.

**Buddion Gweithwyr Eraill**

**Costau ymddeol yn gynnar**

Yr oedd yr Asiantaeth Radiogyfathrebu ac Oftel yn gweithredu Cynllun Ymddeoliad Cynnar a roddodd fuddion ymddeoliad i rai gweithwyr cymwys. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cafodd rhwymedigaeth yr Asiantaeth ac Oftel i dalu costau'r buddion hyn eu trosglwyddo i Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Pery'r rhwymedigaeth tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol dan y Cynllun Ymddeoliad Cynnar. Mae'r costau ychwanegol hyn yn seiliedig ar werth gostyngol y symiau blynyddol sy'n daladwy ar y dyddiad adrodd, ac maent wedi'u cynnwys mewn darpariaethau. Mae'r gwir symiau sy'n daladwy yn cynyddu'n flynyddol yn unol â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

**Rhwymedigaeth Absenoldeb Cydweithwyr**

Dan Fuddion Gweithwyr IAS 19, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel treuliau cyn gynted â chyfyd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan gydweithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth yn amodol ar hyd at ddeg wythnos. Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflog a chyfraddau trosiant, ei gynnwys fel rhan o'r croniadau. O 1af Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

## H) Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar ac eiddo gwag eu cydnabod: pan fo gan Ofcom rwymedigaeth adeiladol neu gyfreithiol gyfredol yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol; pan fo'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; a phan gafwyd amcangyfrif dibynadwy o'r swm. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Mae Ofcom yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n ymwneud â lle dros ben yn les ei eiddo, llai cyfradd ddisgownt y Trysorlys, sy'n 2.2% ar hyn o bryd. Mae'r darpariaethau'n cynrychioli gwerth presennol net amcan gostau yn y dyfodol ar ôl cydnabod yr incwm rhent eithaf sicr yn y dyfodol. Wrth i'r disgownt ddod i ben, mae hwn wedi'i gynnwys o fewn y costau cyllid eraill yn y datganiad Incwm a Gwariant.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried categori cyfran y rhwymedigaethau. Caiff darpariaeth ei chydnabod hyd yn oed os yw'n bur annhebygol y caiff all-lif unrhyw un eitem ei chynnwys yn yr un categori rhwymedigaethau.

## I) Setlo hawliadau

Gwneir darpariaeth ar gyfer iawndal ac amcan gostau cyfreithiol trydydd parti o ran herio penderfyniadau rheoleiddiol Ofcom a'i sefydliadau blaenorol os bernir ei bod yn debygol y bydd y rhain yn daladwy.

## J) Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

## L) Offerynnau ariannol a risg credyd

**Benthyciadau**

Mae gan Ofcom bwerau cyfyngedig i gael benthyg arian i ariannu amrywiadau tymor byr mewn llif arian.

**Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod**

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendaliadau a ddelir gan fanciau a blaendaliadau rhent. Caiff incwm llog ar arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

**Symiau Masnach Derbyniadwy**

Ni cheir llog ar symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, ac fe'u nodir ar eu gwerth teg. Gwneir darpariaeth os oes tystiolaeth na chaiff yr arian sy'n weddill ei dalu'n llawn.

**Symiau masnach taladwy**

Ni cheir llog ar symiau masnach taladwy ac fe'u nodir ar eu gwerth teg.

### Ll) Treth incwm gyfredol a gohiriedig

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant sy'n rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Gellir asesu Treth Gorfforaeth ar log a dderbynnir, ac o ran incwm rhent net y gwariant ar eiddo sy'n deillio o osod eiddo dros ben.

Ar y dyddiad adrodd, yr oedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol. Daw'r colledion hyn o ganlyniad i ddarpariaethau les beichus ar eiddo a etifeddwyd gan gyrff blaenorol nad oedd mo'u hangen pan ymgorfforwyd Ofcom.

#### Treth Ohiriedig

Darperir treth incwm ohiriedig, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar bob gwahaniaeth dros dro ar y dyddiad adrodd rhwng sylfaen trethi asedau a rhwymedigaethau sy'n berthnasol i weithgareddau trethadwy, a'u gwerth llyfr at ddibenion adroddiadau ariannol.

Cydnabyddir asedau treth ohiriedig ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro y gellir ei didynnu, asedau treth heb eu defnyddio sy'n cael eu dwyn ymlaen a cholledion treth heb eu defnyddio, i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir ei ddefnyddio yn eu herbyn.

#### Cydnabod asedau treth ohiriedig

Caiff gwerth llyfr asedau treth ohiriedig ei adolygu ar bob dyddiad adrodd. Wrth asesu'r tebygolrwydd y bydd elw trethadwy yn deillio ohono, rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol, canlyniadau rhagolygon i'r dyfodol, ac eitemau achlysurol sy'n annhebygol o godi yn y dyfodol. Gan hynny, mae'r asesiad o allu'r Sefydliad i ddefnyddio'r colledion treth a ddygwyd ymlaen yn seiliedig ar farn i raddau helaeth. Os bydd canlyniadau trethadwy yn y dyfodol yn wahanol iawn i'r rheini a ddisgwylid, bydd gwerth llyfr asedau treth gohiriedig yn cynyddu neu'n lleihau, ac mae'n bosibl y caiff hynny effaith sylweddol ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Incwm a Gwariant.

Caiff asedau treth gohiriedig eu mesur yn ôl y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i Ofcom pan gaiff yr ased ei wireddu yn seiliedig ar y cyfraddau treth gweithredol, neu pan gânt eu gweithredu ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

### M) Dadansoddiad fesul segment

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgarwch mewn segment daearyddol neu segment busnes, gan y cynhelir holl weithgarwch Ofcom yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 3 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

### N) Safbwyntiau personol ac ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, y datgeliadau rhwymedigaethau a'r asedau wrth gefn, a'r refeniw a'r treuliau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau eu hunain fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am safbwyntiau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau ar gyfer y datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif rai isod.

Dyma'r safbwyntiau sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Cydnabod refeniw ac asesu refeniw nas biliwyd – polisi cyfrifyddu B
- Defnyddio asedau treth gohiriedig o ran elw trethadwy yn y dyfodol – polisi cyfrifyddu P

Dyma'r prif feysydd lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i werth llyfr asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu K

## 2. Dadansoddiad sectoraidd

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012, ynghyd â'r costau a briodolir. Paratoir y dadansoddiad hwn yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003, ac nid yng nghyswllt Adroddiad Segmentaidd 8 IFRS, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (Q)

| | Sbectrwm rheoli £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Dyfarnu sbectrwm £'000 | Rhwyd-weithiau a gwasan-aethau £'000 | Darlledu £'000 | Rheol-eiddio'r Post £'000 | Incwm arall £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2012 £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedau a gweinyddu | – | – | – | 26,330 | 16,932 | 4,812 | – | **48,074** | 53,467 |
| Ffioedd ymgeisio | – | – | – | 30 | 652 | – | – | **682** | 673 |
| Cymorth grant | 60,346 | 51,046 | 1,177 | – | – | – | 1,952 | **114,521** | 102,422 |
| Incwm arall | – | – | – | – | – | 788 | – | **788** | 719 |
| Incwm Cronedig/ (Gohiriedig) | (702) | (2,876) | (118) | (1,090) | 502 | (1,599) | (214) | **(6,097)** | (14,032) |
| **Cyfanswm refeniw** | **59,644** | **48,170** | **1,059** | **25,270** | **18,086** | **4,001** | **1,738** | **157,968** | **143,249** |
| Rhent ac Incwm arall | 306 | – | – | 129 | 93 | 20 | 9 | **557** | 935 |
| **Incwm Gweithredol** | **59,950** | **48,170** | **1,059** | **25,399** | **18,179** | **4,021** | **1,747** | **158,525** | **144,184** |
| Llog derbyniadwy | 109 | – | – | 46 | 33 | 7 | 4 | **199** | 177 |
| **Cyfanswm incwm** | **60,059** | **48,170** | **1,059** | **25,445** | **18,212** | **4,028** | **1,751** | **158,724** | **144,362** |
| Ad-daliadau benthyciad | – | – | – | – | – | – | – | **–** | – |
| Llog taladwy | – | – | – | – | – | – | – | **–** | – |
| **Incwm gweithredol net** | **60,059** | **48,170** | **1,059** | **25,445** | **18,212** | **4,028** | **1,751** | **158,724** | **144,362** |
| Eiddo beichus ac incwm rhent cronedig | 1,299 | – | – | 550 | 394 | 87 | 38 | **2,368** | 1,059 |
| **Incwm Ariannol** | **61,358** | **48,170** | **1,059** | **25,995** | **18,606** | **4,115** | **1,789** | **161,092** | **145,420** |
| **Cyfanswm costau** | **(61,358)** | **(48,170)** | **(1,059)** | **(25,995)** | **(18,606)** | **(4,115)** | **(1,789)** | **(161,092)** | **(145,420)** |
| **Gwarged ar sail cost ariannol** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012** | **(61,358)** | **(48,170)** | **(1,059)** | **(25,995)** | **(18,606)** | **(4,115)** | **(1,789)** | **(161,092)** | |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 | (73,198) | (15,250) | (2,689) | (28,639) | (20,329) | – | (5,316) | **(145,420)** | |

Mae incwm arall yn cynnwys:

- ymholiadau cystadlaethau, gwaith llythrennedd yn y cyfryngau, gweithgarwch profi diddordeb y cyhoedd, asesiadau cyfryngau lleol a gweithgarwch blocio gwefannau a ariennir drwy gymorth grant;
- gwaith torri hawlfraint ar-lein a ariennir drwy gymorth grant;
- integreiddio Postcomm a ariennir drwy gymorth grant;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyrraeth ar y sbectrwm; ac
- incwm rhent drwy is-osod gofod mewn eiddo gwag.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn nodyn 1(B) y cyfrifon hyn, rhoddir cyfrif am gymorth grant yn y cyfnod y'i derbynnir.

Cafodd y tabl gyferbyn ei baratoi ar sail arian a addaswyd, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant.

Mae ffioedd gweinyddol a thrwyddedau Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian yn unol â'i Ddatganiad Egwyddorion Codi Tâl. Pan geir fwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid perthnasol ac yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom. Pan geir mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, caiff y diffyg ei gasglu gan randdeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

### Cysoni'r gwariant gweithredol â'r alldro gweithredol gwirioneddol

| | Nodiadau | 2012 £'000 | 2011 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredol - Datganiad Incwm a Gwariant** | | **152,910** | **135,948** |
| Addasiadau o ran atebolrwydd ac asedau pensiwn | | **10,430** | 5,340 |
| Costau eiddo gwag | 17 | **537** | 1,101 |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisio | | **(6,372)** | 770 |
| Taliadau rhent gwirioneddol llai gwariant | | **1,523** | 1,156 |
| Addasiadau eraill | | **2,083** | 1,157 |
| Elw o asedau sefydlog | | **(19)** | (52) |
| **Gwariant arian gweithredol** | | **161,092** | **145,420** |
| Clirio Sbectrwm | | **(48,169)** | (15,250) |
| Dyfarnu sbectrwm | | **(1,059)** | (2,689) |
| Incwm Anweithredol | | **(3,124)** | (2,173) |
| **Alldro Costau Gweithredol Gwirioneddol** | | **108,739** | **125,308** |

# 3. Incwm

| | 2012 £'000 | 2011 £'000 |
|---|---|---|
| **Cymorth Grant yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon** | | |
| Rheoli sbectrwm | **59,644** | 71,951 |
| Dyfarnu sbectrwm | **1,059** | 2,689 |
| Clirio Sbectrwm | **48,170** | 15,250 |
| Gorfodi'r gyfraith gystadleuaeth | **596** | 900 |
| Prawf diddordeb y cyhoedd | **62** | 426 |
| Integreiddio'r gwasanaeth post cyn y Cydsyniad Brenhinol | **(406)** | 406 |
| Asesu cyfryngau lleol | **33** | 91 |
| Cyfranogiad digidol | **–** | 271 |
| Blocio Gwefan | **79** | 41 |
| Torri Hawlfraint Ar-lein | **663** | 1,788 |
| Llythrennedd yn y Cyfryngau | **305** | 541 |
| **Cyfanswm cymorth grant gan y llywodraeth** | **110,205** | **94,354** |
| | | |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | **25,270** | 28,151 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | **18,086** | 19,982 |
| Integreiddio rheoleiddio'r gwasanaeth post | **1,194** | – |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Eithriad a Diwygio)(Diwygio) 2011 |

| Ymgynghoriadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2011/12 a oedd yn cynnwys asesiad o'r effaith a lle na chafodd datganiad ei gyhoeddi |
|---|
| Rheolaethau prisiau ar wasanaethau ISDN30 cyfanwerthu |
| Cydfodolaeth gwasanaethau newydd yn y band 800 MHz gyda theledu daearol digidol |
| Ymgynghori a gwybodaeth am amodau trwydded technegol ar gyfer sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz a materion cysylltiedig |
| Adolygiad o wasanaethau cyfnewid |
| Adolygu Gwasanaethau Cyfradd Premiwm - Defnyddio'r fframwaith dadansoddol |
| Ymestyn trosglwyddo sbectrwm i'r sectorau gorsaf daear lloeren a morol |
| Trwyddedu Teledu Lleol – Sut byddai Ofcom yn defnyddio ei bwerau a'i ddyletswyddau newydd sy'n cael eu cynnig gan y Llywodraeth |
| Rheolaeth prisiau ISDN30 cyfanwerthu – Ymgynghoriad pellach |
| Ail ymgynghoriad ar asesiad o gystadleuaeth symudol yn y dyfodol a chynigion ar gyfer dyfarnu sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz a materion cysylltiedig |
| Hysbysiad o gynigion i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau)(Diwygio) 2012 |
| Newidiadau i ddiweddariad adrodd ariannol a rheoleiddio 2011/12 BT a KCOM |
| Newid defnyddwyr – Ymgynghoriad ar y cynigion i newid y prosesau ar gyfer newid darparwyr llais sefydlog a band eang ar rwydwaith copr Openreach |
| Ail ymgynghoriad ar gydfodolaeth gwasanaethau newydd yn y band 800 MHz gyda theledu daearol digidol |
| Trefn awdurdodi ar gyfer ailadrodd GNSS 1164-1215 MHz, 1215-1300 MHz a1559-1610 MHz |
| Hysbysiad o'r amrywiaeth arfaethedig o drwyddedau sbectrwm 1800 MHz Everything Everywhere i ganiatáu defnyddio technolegau LTE a WiMAX |
| Rhifau ffôn daearyddol |
| Sicrhau manteision tymor hir o adnoddau sbectrwm prin – Strategaeth ar gyfer bandiau IV a V UHF |

# Cwynion darlledu, achosion a sancsiynau

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan wrandawyr a gwylwyr a'u datrys yng nghyswllt rhaglenni radio a theledu sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom a'r BBC ac S4C (gyda rhai eithriadau).

Mae'r holl gwynion yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw darlledwr yn methu â chydymffurfio â rheolau'r Cod Darlledu[7], neu godau ac amodau trwyddedau eraill Ofcom.

Mae cwynion unigol y mae Ofcom yn eu derbyn yn cael eu haseinio i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu neu'n ymchwilio i fater neu raglen benodol a gall gynnwys un gŵyn neu ragor. Caewyd cyfanswm o 7,551 achos (a oedd yn cynnwys 21,772 o gwynion) yn y cyfnod dan sylw.

Ar 1 Mehefin 2011, cyflwynodd Ofcom weithdrefnau diwygiedig ar gyfer delio â chwynion darlledu, achosion a sancsiynau[8]. Rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mai 2011, roedd Ofcom wedi delio â chwynion o dan ei weithdrefnau blaenorol. Er mwyn bod yn glir rydym wedi rhoi dadansoddiad o'r cwynion a gafodd eu trin o dan y ddwy set wahanol o weithdrefnau.

## Safonau

Roedd cyfanswm o 7,263 achos (21,484 o gwynion) am safonau mewn rhaglenni teledu a radio.

### Gweithdrefnau blaenorol

Cafodd cwynion a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mai 2011 eu trin o dan weithdrefnau Ofcom ar gyfer delio â chwynion darlledu a oedd mewn grym ar y pryd.

Caewyd cyfanswm o 1,283 achos (7,802 o gwynion) yn ystod y cyfnod hwnnw. Canfu Ofcom:

- fod 140 o achosion wedi arwain at dorri'r Cod Darlledu, codau eraill Ofcom neu amodau trwyddedau eraill;
- bod 30 achos wedi cael eu datrys[9]; a
- nad oedd 1,113 o achosion wedi torri unrhyw amodau neu eu bod tu allan i gylch gwaith Ofcom.

### Gweithdrefnau newydd

**Asesiad cychwynnol o gwynion**

Cafodd cwynion a dderbyniwyd ar ôl 1 Mehefin 2011 eu trin o dan weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio[10].

Bydd Ofcom yn asesu pob cwyn a gaiff. Ar sail asesiad cychwynnol o'r gŵyn ac ar ôl ystyried y cynnwys teledu neu radio perthnasol, bydd Ofcom yn ystyried a yw'r Cod Darlledu wedi cael ei dorri (neu godau eraill Ofcom neu amodau trwydded). Os nad, bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach a bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad hwn yn ei Fwletin Darlledu[11].

Cafodd cyfanswm o 5,980 o achosion (13,682 o gwynion) eu hasesu yn y ffordd hon rhwng 1 Mehefin 2011 a 31 Mawrth 2012. Canfu Ofcom fod:

- 277 o achosion (4,059 o gwynion) wedi codi materion sylweddol a oedd yn galw am ymchwiliad pellach;
- nad oedd 5,203 o achosion (9,030 o gwynion) yn galw am ymchwiliad pellach; a
- bod 500 o achosion (593 o gwynion) tu allan i gylch gwaith Ofcom.

Bydd Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2011 a 31 Mawrth 2012, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 4.5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

## Ymchwiliadau

Os bydd achos yn codi materion a allai fod yn sylweddol, bydd Ofcom yn ymchwilio ymhellach i'r mater i benderfynu a yw'r Cod Darlledu wedi cael ei dorri (neu un arall o godau Ofcom neu amodau trwydded). Gall ymchwiliad gynnwys un neu ragor o achosion cysylltiedig yn cynnwys yr un darlledwr.

7 Ar gael yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/.

8 I gael rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau diwygiedig, edrychwch ar dudalen 22 yr Adroddiad Blynyddol.

9 Mewn rhai achosion, er enghraifft, pan fydd darlledwr wedi cymryd camau priodol ar unwaith i wneud iawn am dorri amodau, gall Ofcom ystyried ei bod yn briodol peidio â chofnodi torri'r amodau, a phenderfynu mai'r canlyniad priodol yw penderfynu bod yr achos wedi'i 'ddatrys'.

10 Ar gael yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/complaints-sanctions/standards/.

11 Ar gael i'w weld yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/.

Cafodd cyfanswm o 239 o achosion eu cwblhau rhwng 1 Mehefin 2011 a 31 Mawrth 2012. Canfu Ofcom fod:

- 104 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi arwain at gofnodi torri'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom neu amodau trwyddedau);
- 27 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi cael eu datrys; a
- nad oedd 108 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi torri'r codau.

Bydd Ofcom yn ceisio cwblhau'r achosion hynny y bydd yn mynd â nhw rhagddynt ar gyfer ymchwiliad cyn pen 50 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2011 a 31 Mawrth 2012, cwblhaodd Ofcom ymchwiliadau cyn pen 34.1 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

## Tegwch a phreifatrwydd

Mae cwynion Tegwch a Phreifatrwydd yn gwynion am driniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddynt). Fel rheol bydd y cwynion yn cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Cafodd cyfanswm o 288 o gwynion a oedd yn ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd eu cau.

### Gweithdrefnau blaenorol

Cafodd cwynion a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mai 2011 eu trin o dan weithdrefnau Ofcom ar gyfer delio â chwynion Tegwch a Phreifatrwydd a oedd mewn grym ar y pryd.

Dyfarnwyd ar gyfanswm o 127 o gwynion yn ystod y cyfnod hwnnw. O blith y cwynion hynny:

- cadarnhawyd 16 o gwynion (tri o'r rheini'n rhannol);
- ni chadarnhawyd 51 o gwynion;
- Cafodd pedwar o gwynion eu datrys (ar ôl i'r darlledwr gymryd camau priodol); ac

Yng nghyswllt 56 o gwynion penderfynwyd peidio â'u pwyso a'u mesur neu ni fwriwyd ymlaen â hwy ar ôl eu pwyso a'u mesur.

### Gweithdrefnau newydd

Cafodd cwynion a dderbyniwyd ar ôl 1 Mehefin 2011 eu trin o dan Weithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd[12].

### Asesu a Phwyso a Mesur

Bydd Ofcom yn asesu pob cwyn Tegwch a Phreifatrwydd mae'n ei gael i benderfynu a ddylid pwyso a mesur y gŵyn. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar ai: y "sawl yr effeithir arno" yw'r achwynydd a'i fod yn gallu cwyno; yw'r mater sy'n destun i'r gŵyn yn destun achos mewn llys barn yn y DU; neu a yw'r gŵyn yn ddisylwedd.

Cafodd cyfanswm o 161 o gwynion Tegwch a Phreifatrwydd eu hasesu yn y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2011 a 31 Mawrth 2012. Penderfynodd Ofcom fod:

- 28 achos wedi cael eu pwyso a'u mesur; ac
- yng nghyswllt 133 o gwynion penderfynwyd peidio â'u pwyso a'u mesur neu ni fwriwyd ymlaen â hwy cyn eu pwyso a'u mesur.

Nod Ofcom yw asesu a phenderfynu a yw am ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ai peidio cyn pen 25 diwrnod o dderbyn y gŵyn ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno. Yn y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2011 a 31 Mawrth 2012, asesodd a phenderfynodd Ofcom a ddylid ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd cyn pen 16.8 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

### Dyfarniadau

Os caiff cwyn Tegwch a Phreifatrwydd ei hystyried gan Ofcom, bydd yn ymchwilio i'r mater ymhellach i benderfynu a gafodd y Cod Darlledu ei dorri ac, os felly, bydd yn cadarnhau'r gŵyn. Bydd Ofcom wedyn yn gwneud ei ddyfarniad terfynol.

- Dyfarnwyd ar gyfanswm o 28 o gwynion yn y cyfnod dan sylw. Penderfynodd Ofcom:
- Cadarnhawyd chwech o gwynion (tri o'r rheini'n rhannol);
- ni chadarnhawyd 15 o gwynion;
- Cafodd dau o gwynion eu datrys (ar ôl i'r darlledwr gymryd camau priodol); ac
- Ni aethpwyd ymlaen â phum cwyn ar ôl eu pwyso a'u mesur.

Nod Ofcom yw cwblhau'r ystyriaeth a'r dyfarniad ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd cyn pen 90 diwrnod gwaith o ystyried y gŵyn. Yn y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2011 a 31 Mawrth 2012, cwblhaodd Ofcom ystyried a dyfarnu cwynion Tegwch a Phreifatrwydd cyn pen 76.0 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

12 Ar gael i'w weld yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/complaints-sanctions/fairness/.

## Sancsiynau

Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod darlledwr wedi torri'r Cod Darlledu neu amod trwydded neu god Ofcom arall, a'i fod yn credu bod yr achos hwnnw'n ddifrifol, yn fwriadol, wedi'i ailadrodd a/neu'n ddi-hid, gall ystyried a yw am roi sancsiwn statudol ar y darlledwr.

Mae'r ystod o sancsiynau sydd ar gael i Ofcom yn cynnwys penderfyniad i: gyhoeddi cyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu rhaglen neu hysbyseb; cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom; cyhoeddi cosb ariannol[13]; cwtogi trwydded neu ei hatal; a diddymu trwydded (nid yw hyn yn berthnasol i'r BBC, S4C na Channel 4).

### Gweithdrefnau blaenorol

Cafodd achosion a ystyriwyd ar gyfer rhoi sancsiwn statudol cyn 1 Mehefin 2011 eu trin o dan weithdrefnau Ofcom ar gyfer delio â sancsiynau darlledu a oedd mewn grym ar y pryd.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mai 2011, penderfynodd y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu roi'r sancsiynau darlledu canlynol:

- Press TV Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Press TV - £100,000 a chyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu'r deunydd a oedd yn torri'r rheolau yn y dyfodol a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad canfyddiadau Ofcom unwaith;
- Satellite Entertainment Limited mewn perthynas â'i wasanaethau Essex Babes, Northern Birds a Live XXX Babes - £90,000;
- Voice of Africa Radio Limited mewn perthynas â'i wasanaeth radio cymunedol Voice of Africa Radio - £1,000; a

More FM Ltd mewn perthynas â'i wasanaeth radio masnachol lleol Total Star – Bridgwater a Gorllewin Gwlad yr Haf – lleihau hyd y drwydded a fydd mewn grym 12 mis.

### Gweithdrefnau newydd

Cafodd achosion a ystyriwyd ar gyfer rhoi sancsiwn statudol ar ôl 1 Mehefin 2011 eu trin o dan weithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried sancsiynau statudol am dorri trwyddedau darlledu[14].

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2011 a 31 Mawrth 2012, penderfynodd Ofcom roi'r sancsiynau statudol canlynol:

- Satellite Entertainment Limited mewn perthynas â'i wasanaethau Sport XXX Girls, Essex Babes a Northern Birds - £130,000;
- Just4Us TV Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Red Light 1 - £60,000, a Playboy TV UK/Benelux Limited mewn perthynas â'i wasanaethau Red Light 2 a Red Light 3 - £50,000;
- Al Ehya Digital Television Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Noor TV - £75,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad canfyddiadau Ofcom unwaith;
- The Light Academy Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Believe TV - £25,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad canfyddiadau Ofcom unwaith; a
- BBA Media Ltd mewn perthynas â'i wasanaeth Westside Radio - £500; a
- Neath Port Talbot (NPT) Broadcasting C.I.C. (y "Trwyddedai") mewn perthynas â'i wasanaeth Afan FM - £500.

13 Caiff yr holl gosbau ariannol a roddir gan Ofcom eu dal mewn cyfrif gyda Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth (GBS) er budd y Trysorlys. Caiff cronfeydd eu trosglwyddo i gyfrif GBS Trysorlys EM i'w defnyddio'n uniongyrchol gan y Trysorlys, neu eu dosbarthu i Gronfeydd Cyfunol perthnasol. Nid yw Ofcom yn defnyddio nac yn cael buddion ariannol o unrhyw gosbau ariannol a geir.

14 Ar gael i'w gweld ar wefan Ofcom yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/complaints-sanctions/procedures-statutory-sanctions/.

# Data ystadegol

## Trwyddedu darlledu

| Trwyddedau teledu a gyhoeddwyd: Categori | 2011/12 | 2010/11 | Wedi'u cyhoeddi |
|---|---|---|---|
| Trwyddedau teledu a gyhoeddwyd | 87 | 125 | 998* |
| Trwyddedau teledu a drosglwyddwyd | 48 | 67 | |

* 910 o drwyddedau TLCS (sy'n awdurdodi cebl, lloeren a rhyngrwyd); 70 DTAS/DTPS (ar gyfer cynnwys ar Freeview); 18 gwasanaeth cyhoeddus (trwyddedau 3 rhanbarthol, 4, 5 a Brecwast)

| Trwyddedau radio a gyhoeddwyd: Categori | 2011/12 | 2010/11 | Wedi'u cyhoeddi |
|---|---|---|---|
| Trwydded Darlledu Sain Lleol | – | 1 | 294 |
| Trwydded Darlledu Sain Cenedlaethol | – | – | 3 |
| Amlblecs Digidol Lleol (Gwasanaeth Amlblecs Radio Lleol) | – | – | 46 |
| Amlblecs Radio Cenedlaethol | – | – | 1 |
| Gwasanaeth Cynnwys Trwyddedadwy Radio | 10 | 6 | 8 |
| Gwasanaeth Rhaglenni Sain Digidol (Lleol) | 13 | 12 | 60 |
| Gwasanaeth Rhaglenni Sain Digidol (Cenedlaethol) | 4 | 3 | 16 |
| Gwasanaeth Ychwanegol Digidol | 1 | 1 | 7 |
| Trwydded Gwasanaeth Radio Ychwanegol | * | – | 1 |
| Trwydded Gwasanaeth Cyfyngedig Tymor Byr | 314 | 321 | – |
| Trwydded Gwasanaeth Cyfyngedig Tymor Hir | 6 | 15 | 89 |
| RSL System Dosbarthu Sain | 1 | – | 11 |
| Radio Cymunedol | 39 | 23 | 198 |

* Daeth yr unig drwydded yn y categori hwn i ben yn ystod y cyfnod hwn ac aeth ymlaen i gael ei ail-ddyfarnu

## Telegyfathrebu

| Cwynion am wasanaethau telegyfathrebu | 2011/12 | 2010/11 | Newid (%) |
|---|---|---|---|
| Adnewyddu contractau awtomatig | 650 | 1,050 | (38) |
| Ffioedd ychwanegol | 4,550 | 5,650 | (19) |
| Cyflymder band eang | 1,400 | 1,400 | 0 |
| Codi am wasanaeth wedi'i ganslo | 3,150 | 4,500 | (30) |
| Delio â chwynion | 14,200 | 15,750 | (10) |
| Mudo | 2,800 | 5,300 | (47) |
| Cam-werthu | 12,550 | 15,300 | (18) |
| Galwadau mud | 16,500 | 10,350 | 59 |
| Arall | 46,350 | 53,450 | (13) |
| **Cyfanswm y cwynion** | **102,150** | **112,750** | **(9)** |

# Rhaglen ymchwiliadau

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion am ymddygiad gwrth gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae'r tabl canlynol yn dangos gweithgareddau Ofcom o ran cynnal ymholiadau ac ymchwiliadau yn ystod 2011/12 a sut yr ydym wedi perfformio o'i gymharu â'n targedau statudol a chyhoeddedig. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012.

Dylid nodi bod nifer yr achosion a gofnodir yn y tabl yn tueddu i fod yn fach ac y gall y Dangosyddion Perfformiad Allweddol fod yn gyfnewidiol yn sgil hynny. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen ymchwiliadau yn ein hadroddiadau chwe-misol: Gweithgarwch Ymchwiliadau Ofcom (http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/competition-bulletins/six-monthly-roundup-complaints/).

Ym mis Gorffennaf 2009, fe ailstrwythurodd Ofcom ei weithgareddau ymchwilio gan rannu'r gwaith rhwng Tîm Ymchwiliadau'r Grŵp Cystadleuaeth a'r Tîm Diogelu Defnyddwyr. Mae'r data yn y tabl isod yn ymdrin â pherfformiad y ddau dîm.

| Gweithgarwch a tharged | Perfformiad yn erbyn targedau | Gweithgarwch sy'n parhau |
|---|---|---|
| **Ymholiadau**<br>• Cwblhau o fewn 15 diwrnod gwaith<br>• Cwblhau o fewn wyth wythnos ar gyfer cyfraith cystadleuaeth | • Cafodd 15 o ymholiadau eu cwblhau yn 2011/12 (arweiniodd chwech at dderbyn anghydfod, roedd dau yn ymwneud â phenderfyniadau roedd rhaid eu cyhoeddi cyn gwneud Gorchymyn gan y CAT, arweiniodd un at ymchwiliad ar ei liwt ei hun ac arweiniodd chwech at ddim camau pellach).<br>• Cwblhawyd naw o'r 15 ymholiad (60%) o fewn y targed | • Roedd un ymholiad yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn ac ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed. |
| **Anghydfodau**<br>• Cwblhau o fewn pedwar mis | • Ymdriniwyd â 11 anghydfod yn ystod y flwyddyn.<br>• Datryswyd pedwar anghydfod yn ystod y flwyddyn.<br>• Cafodd y pedwar anghydfod (100%) eu cwblhau o fewn y targed. | • Roedd saith anghydfod yn dal i gael sylw ar ddiwedd y flwyddyn<br>• Roedd tri o fewn y targed.<br>• Roedd amgylchiadau eithriadol yn berthnasol i bob un o'r pedwar anghydfod arall. |
| **Ymchwiliadau yng nghyswllt y gyfraith cystadleuaeth**<br>• Cwblhau o fewn chwe mis am beidio â thorri amodau neu 12 mis am dorri amodau | • Ni chafodd dim ymchwiliadau eu hagor na'u cau yn ystod y flwyddyn. | • Roedd un ymchwiliad yn dal yn mynd rhagddo ar ddiwedd y flwyddyn sydd wedi mynd y tu hwnt i'r targed. |
| **Rhaglenni gorfodaeth ac ymchwiliadau eraill**<br>• Mae gan ymchwiliadau unigol darged i gael eu cwblhau o fewn pedwar mis ac eithrio ar gyfer achosion dan y Ddeddf Menter neu a ddechreuir gan Ofcom ei hun sydd â tharged i gwblhau o fewn 6 mis Nid oes targedau amser ar gyfer rhaglenni gorfodaeth | • Cafodd un ymchwiliad ei agor a chafodd chwech eu cau yn ystod 2011/12.<br>• Cafodd pump o'r chwech ymchwiliad a gafodd eu cau eu cwblhau o fewn y targed (83%).<br>• Cafodd un rhaglen orfodaeth ei hagor a ni chafodd yr un ei chau yn ystod 2011/12. | • Roedd un ymchwiliad unigol parhaus ar ddiwedd 2011/12 a oedd wedi mynd tu hwnt i'w darged.<br>• Yn ogystal, roedd chwech rhaglen orfodaeth yn dal yn mynd. |

# Peirianneg a gorfodaeth sbectrwm – dangosyddion perfformiad allweddol

### Prif weithgarwch

| Gweithgarwch Rhaglen Waith/Digwyddiad | | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|---|
| Achosion o ymyrraeth a ddaeth i law | Achosion domestig * | 988 | 1,323 |
| | Achosion Busnes | 1,283 | 1,103 |
| | Heb ei nodi | 241 | 544 |
| Baldock: gweithgareddau sbectrwm | | 4,293 | 4,265 |
| Achosion gorfodaeth a agorwyd | | 674 | 752 |
| Archwiliadau cydymffurfio â'r system radio a gwblhawyd | | 215 | 235 |
| Erlyniadau llwyddiannus am weithgarwch troseddol ar y sbectrwm | | 12 | 30 |
| Erlyniadau aflwyddiannus am weithgarwch troseddol ar y sbectrwm | | 0 | 0 |

* Mae Achosion Domestig yn ymwneud ag ymyrraeth sy'n effeithio ar offer telathrebu sy'n cael ei ddefnyddio mewn amgylchedd domestig.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon roeddem wedi cyflwyno Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) newydd i fesur effeithiolrwydd cyflawni ein Gwasanaeth Ymyrraeth. Roedd y KPIs a'r targedau cysylltiedig yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar brofiad cwsmeriaid.

KPI1 Amser cyn yr Ymweliad Cyntaf: Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyrraeth a'r amser bydd ein peiriannwr yn cyrraedd ar y safle i roi diagnosis o'r broblem (ar gyfer yr achosion hynny pan fydd angen ymweliad maes).

KPI 2 Datrys: Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyrraeth a'r amser pan fydd y cwsmer yn cael gwybod bod yr achos wedi'i ddatrys.

### Dangosyddion perfformiad allweddol (achosion ymyrraeth)

| Blaenoriaeth Achos | KPI | Targed | Cyflawnwyd y Targed Ansawdd Gwasanaeth | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 2011/12 | 2010/11 |
| Blaenoriaeth 1 | Ymweliad Cyntaf | 8 awr | 90% | amh. |
| | Datrysiad | 2 ddiwrnod calendr | 100% | amh. |
| Blaenoriaeth 2 | Ymweliad Cyntaf | 18 awr | 94% | amh. |
| | Datrysiad | 3 diwrnod calendr | 97% | amh. |
| Blaenoriaeth 3 | Ymweliad Cyntaf | 2 ddiwrnod gwaith | 92% | amh. |
| | Datrysiad | 6 diwrnod gwaith | 94% | amh. |
| Blaenoriaeth 4 | Ymweliad Cyntaf | 5 diwrnod gwaith | 88% | amh. |
| | Datrysiad | 20 diwrnod gwaith | 97% | amh. |
| Blaenoriaeth 5 | Ymweliad Cyntaf | 15 diwrnod gwaith | 93% | amh. |
| | Datrysiad | 40 diwrnod gwaith | 98% | amh. |
| Blaenoriaeth 6 | Ymweliad Cyntaf | amh. | amh. | amh. |
| | Datrysiad | 60 diwrnod gwaith | 97% | amh. |

# Trwyddedu sbectrwm

## Categori A

| Trwyddedau lle nad oes gofyn aseinio amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 12 |
|---|---|---|---|
| Radio Busnes Ysgafn – Syml DU (dim gorsaf ganolog) | 1,445 | 1,348 | 7,732 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 51 | 61 | 332 |
| Safle Radio Busnes Syml | 606 | 621 | 6,995 |
| Cyflenwyr Radio Busnes Ysgafn | 74 | 49 | 580 |
| Heddlu a Thân | 1 | 0 | 124 |
| **Is gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **2,177** | **2,079** | **15,763** |
| Mesur Lefel Radar | 0 | 0 | 124 |
| CB, Amatur a Morol | 24,409 | 24,487 | 196,257 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **26,586** | **26,566** | **212,144** |
| KPI ar gyfer Categori A (100% mewn 7 niwrnod) | 97% | 99% | – |
| KPI ar gyfer Categori A (CB, Amatur a Morol) (100% mewn 10 diwrnod) | 97% | 99% | – |

## Categori B

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, ond nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 12 |
|---|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | | 34 | 18 | 154 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | | 31 | 35 | 509 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | | 41 | 40 | 436 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | | 46 | 43 | 428 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | | 29 | 43 | 246 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | | 4 | 5 | 80 |
| Cynnyrch Cymorth Morol a Radar | | 2 | 4 | 111 |
| System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol | | 0 | 1 | 11 |
| **Is gyfanswm ar gyfer dadreoleiddio a gosod cynnyrch dan gontract** | | **187** | **189** | **1,975** |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio'n Dechnegol | | 2,689 | 2,705 | 27,096 |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio fesul Ardal | | 47 | 85 | 190 |
| Radar Profi'r Tir | | 23 | 15 | 148 |
| Telemetreg Sganio | | 10 | 2 | 32 |
| Dolenni hunangydlynol | | 8 | 4 | 18 |
| **Is gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | | **2,777** | **2,811** | **27,484** |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | | **2,964** | **3,000** | **29,459** |
| KPI ar gyfer Categori B | 90% mewn 21 diwrnod | 96% | 99% | – |
| | 100% mewn 42 diwrnod | 99% | 99% | – |

## Categori C

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 12 |
|---|---|---|---|---|
| Dolenni Sefydlog | | 1,820 | 1,978 | 33,797 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Barhaol) | | 28 | 24 | 167 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Gludadwy) | | 100 | 87 | 140 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaearol) | | 6 | 8 | 54 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | | **1,954** | **2,097** | **34,158** |
| KPI ar gyfer Categori C | 90% mewn 42 diwrnod | 98% | 99% | – |
| | 100% mewn 60 diwrnod | 99% | 99% | – |

## Trwyddedau profi a datblygu

| | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 12 |
|---|---|---|---|
| Trwydded Datblygu Anweithredol | 382 | 352 | 364 |
| Trwydded Dros Dro Anweithredol | 106 | 129 | 33 |
| **Cyfanswm ar gyfer Profi a Datblygu** | **488** | **481** | **397** |
| KPI ar gyfer Profi a Datblygu (100% mewn 60 diwrnod) | 100% | 100% | – |

## Trwyddedau symudol a band eang di-wifr*

| Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthu neu ddyfarnu'r sbectrwm | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 12 |
|---|---|---|---|
| Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus | | – | 4 |
| Ffonau Symudol 3G | | – | 5 |
| Mynediad Sbectrwm 412 - 414 MHz | | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 1452 - 1492 MHz | | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm Cydamserol 1781 - 1785 MHz | | – | 12 |
| Mynediad Sbectrwm 1785 MHz, Gogledd Iwerddon | | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 3.5, 3.6, 10, 28, 32 a 40 GHz | | – | 12 |
| Band Eang Di-wifr 28 GHz | | – | 15 |
| **Cyfanswm ar gyfer Symudol a Band Eang Di-wifr** | | **–** | **51** |

*Nid yw ffigurau'r trwyddedau a amrywiwyd a/neu a ailgyhoeddwyd, neu a fasnachwyd o un cwmni i'r llall wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn.

### Trwyddedau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

| Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 12 |
|---|---|---|---|
| Ffonau Symudol 2G – Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel | – | – | 8 |
| Ffonau Symudol 3G – Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel | – | – | 9 |
| Mynediad Sbectrwm / Di-wifr 3.4, 3.6, 10 a 28 GHz | 100% | 100% | – |
| Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel | (1 drwydded wedi'i hildio) | (1 drwydded wedi'i hildio) | 9 |
| **Cyfanswm Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel** | | | **26** |

### Trwyddedau sbectrwm difidend digidol

Y sbectrwm a ryddhawyd i'w ddefnyddio mewn ffyrdd newydd yn sgil y newid i'r digidol

| Trwyddedau DDR GI a gyhoeddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 12 |
|---|---|---|---|
| Mynediad Sbectrwm 541-55MHz (Caerdydd) | – | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 758-766MHz (Manceinion) | – | – | 1 |
| **Cyfanswm ar gyfer trwyddedau Difidend Digidol** | **–** | **–** | **2** |

### Trwyddedau sbectrwm annewisol

Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer awyrennau, ac mae'r Cyd-grŵp Rheoli Amleddau (JFMG) yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, ac yn eu hawdurdodi.

| Gweithgarwch Partneriaid | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 12 |
|---|---|---|---|
| Mae'r Cyd-grŵp Rheoli Amleddau'n cyhoeddi Trwyddedau ar gyfer | – | – | 8 |
| Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig | 4,019 | 3,317 | 4,225 |
| KPI ar gyfer y Cyd-grŵp Rheoli Amleddau (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | |
| Mae'r Awdurdod Hedan Sifil yn cyhoeddi Trwyddedau Awyrenegol | 15,074 | 13,608 | 14,226 |
| KPI ar gyfer yr Awdurdod Hedfan Sifil (100% mewn 7 niwrnod) | 75% | 76% | |
| **Cyfanswm** | **19,093** | **16,925** | **18,451** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFANSWM NIFER Y TRWYDDEDAU – POB CATEGORI** | **51,085** | **49,069** | **294,688** |

# Adroddiad Cynaliadwyedd

**Mae'r adran hon yn rhoi data am gynaliadwyedd a'r costau ariannol yn fanylach.**

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | | | 2008/9 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (tunelli CO2e)** | **Cwmpas 1** | Nwy | 218 | 192 | 239 | 143 |
| | | Olew | 41 | 14 | 24 | 26 |
| | | Tanwydd Fflyd | 258,836 | 258,836 | 224,632 | 224,338 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | 1,844 | 1,791 | 1,768 | 1,542 |
| | **Cwmpas 3** | Teithio Busnes | 452,981 | 371,478 | 374,811 | 408,279 |
| | | *Hedfan* | *262,082* | *148,411* | *165,901* | *188,108* |
| | | *Domestig* | *18,189* | *20,152* | *11,470* | *11,393* |
| | | *Taith fer* | *147,748* | *81,415* | *103,391* | *147,357* |
| | | *Taith hir* | *96,146* | *46,844* | *51,040* | *29,358* |
| | | *Trên/bws/tiwb* | *110,735* | *108,692* | *93,083* | *119,998* |
| | | *Car/Beic modur/Beic* | *63,612* | *104,204* | *111,956* | *96,600* |
| | | *Tacsis* | *16,551* | *10,171* | *3,871* | *3,573* |
| **Data defnyddio cysylltiedig** | **Cwmpas 1** | Nwy (kWh) | 925,793 | 941,947 | 1,185,315 | 710,046 |
| | | Nwy fesul FTE (kWh) | 1,083 | 1,083 | 1,650 | 912 |
| | | Olew (litrau) | 13,508 | 4,500 | 7,953 | 8,500 |
| | | Tanwydd Fflyd (litrau) | 96,964 | n/a | 87,320 | 87,206 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan (kWh) | 3,389,442 | 3,291,355 | 3,370,121 | 2,938,500 |
| | | Trydan fesul FTE (kWh) | 3,965 | 3,784 | 4,692 | 3,774 |
| **Dangosyddion Ariannol** | **Cwmpas 1** | Nwy | £32,753 | £36,460 | £38,612 | £19,992 |
| | | Olew | £6,268 | £2,104 | £4,785 | £6,239 |
| | | Tanwydd Fflyd | £112,491 | £112,491 | £109,219 | £123,748 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | £369,056 | £410,760 | £365,542 | £270,130 |
| | **Cwmpas 3** | Teithio Busnes | £987,034 | £820,896 | £627,606 | £713,021 |
| | | *Hedfan* | *£454,839* | *£330,286* | *£194,477* | *£239,722* |
| | | *Trên/bws/tiwb* | *£282,483* | *£258,160* | *£233,081* | *£297,685* |
| | | *Car/Beic modur/Beic* | *£77,176* | *£126,424* | *£150,046* | *£129,466* |
| | | *Tacsis* | *£172,536* | *£106,026* | *£50,002* | *£46,148* |

**Cwmpas 1** – Mae hyn yn berthnasol i ddefnyddio nwy ac olew yn uniongyrchol, a defnydd tanwydd yng ngheir fflyd Ofcom.

Mae'r data am ddefnyddio nwy ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Birmingham, Haydock a Belfast. Ar gyfer 2008/9 mae hyn hefyd yn cynnwys defnydd o swyddfeydd yn Caterham, Peterborough a Livingston. Ar gyfer 2009/10 a 2010/11 mae hefyd yn cynnwys defnydd o swyddfa yn Caterham. Mae'r data am ddefnyddio olew yn berthnasol i swyddfa Ofcom yn Baldock yn unig.

Bydd Ofcom yn talu am danwydd disel ar gyfer ei geir fflyd drwy ddefnyddio cardiau tanwydd, a chaiff y defnydd ei gofnodi a'i fonitro bob mis. Mae defnydd tanwydd ein ceir fflyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw am ein gwasanaethau gorfodi. Nid oedd data am danwydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009/10, felly rydym wedi tybio bod defnydd tanwydd yr un faint ag ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008/09.

**Cwmpas 2** – Mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau trydan i swyddfeydd Ofcom.

Mae'r data am drydan ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Baldock, Belfast, Birmingham, Caerdydd, Haydock a Glasgow. Ar gyfer 2008/9 mae hefyd yn cynnwys defnydd o swyddfeydd ym Mryste, Caterham, Peterborough, Leeds a Livingstone. Ar gyfer 2009/10 a 2010/11 mae hefyd yn cynnwys defnydd o swyddfa yn Caterham. Ar gyfer 2010/11 a 2011/12 mae hefyd yn cynnwys defnydd o'n swyddfa Project Park.

Mae'r defnydd o drydan a nwy yn dibynnu ar amodau'r tywydd.

**Cwmpas 3** – Mae data ariannol teithio busnes wedi dod o'n system cofnodi SAP ac mae'n cynnwys teithio ein holl gydweithwyr ni waeth ble maent wedi'u lleoli. Rydym wedi trosi data ariannol teithio mewn tacsis ac ar drenau i bellteroedd drwy ddefnyddio canllawiau o Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a data ariannol teithio mewn ceir i bellteroedd drwy ddefnyddio polisi treuliau Ofcom. Mae'r data am hedfan wedi dod yn uniongyrchol gan ein darparwr teithio busnes, ac wedi'i gategoreiddio i deithiau domestig, byr a hir yn unol â chanllawiau pellter hedfan Defra.

## Lleihau a rheoli gwastraff

Mae'r data am wastraff ar gyfer yr holl flynyddoedd yn berthnasol i swyddfa Ofcom yn Llundain, ac ar gyfer 2010/11 a 2011/12 mae'n cynnwys data o'n swyddfa Project Park hefyd. Nid yw data manwl am wastraff ar gael ar gyfer swyddfeydd eraill Ofcom, ac nid yw'r defnydd hwn yn sylweddol. Bydd Ofcom yn ailgylchu neu'n llosgi (gan adfer yr ynni) ei holl wastraff ac mae'n gweithredu ar sail peidio ag anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi. Bydd Ofcom yn talu ffi rheoli gwastraff gyffredinol nad oes modd ei rhannu yn ôl y categorïau gwastraff unigol.

| **Lleihau a rheoli gwastraff** | | **2008/9** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (tunelli)** | Cyfanswm gwastraff | 100 | 156 | 150 | 151 |
| | Gwastraff wedi'i anfon i safle tirlenwi | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff wedi'i ailgylchi/ailddefnyddio (gan gynnwys offer TGCh) | 80 | 92 | 83 | 89 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 4 | 10 | 10 | 9 |
| | Gwastraff wedi'i losgi gan adfer ynni | 16 | 54 | 57 | 53 |
| | Gwastraff wedi'i losgi heb adfer ynni | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cyfanswm gwastraff fesul FTE | 0.117 | 0.180 | 0.209 | 0.194 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Cyfanswm gwastraff | £35,557 | £31,591 | £25,649 | £28,094 |

| **Defnyddio Adnoddau Cyfyngedig** | | **2008/9** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (m3)** | Defnyddio Dŵr | | 9,915 | 10,495 | 7,737 |
| | Defnyddio dŵr fesul FTE | | 11.40 | 14.61 | 9.94 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Dŵr | | £22,461 | £23,994 | £19,672 |

## Defnyddio adnoddau cyfyngedig

Mae'r data dŵr ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i swyddfeydd Ofcom yn Llundain, Baldock, Birmingham a Haydock. Ar gyfer 2008/9 mae hefyd yn cynnwys defnydd o swyddfeydd ym Mryste, Caterham, Peterborough a Leeds. Ar gyfer 2010/11 a 2011/12 mae hefyd yn cynnwys defnydd o'n swyddfa Project Park. Caiff costau dŵr ar gyfer y swyddfeydd eraill eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Caiff defnyddio dŵr ei gyfyngu i ddefnydd gweithredol, gan gynnwys y cyfleuster arlwyo ym mhencadlys Ofcom yn Llundain.

Nodiadau

1. Mae'r tabl uchod wedi cael ei baratoi yn unol â chanllawiau a osodwyd gan y Trysorlys yn 'Adrodd am Gynaliadwyedd Sector Cyhoeddus' a gyhoeddwyd yn www.financial-reporting.gov.uk.
2. Mae'r holl wybodaeth yn cydymffurfio â'r flwyddyn ariannol sector cyhoeddus arferol sef 1 Ebrill i 31 Mawrth.
3. Mae ffactorau trosi Defra wedi cael eu defnyddio i gyfrifo ffigurau allyriadau carbon.
4. Ni chaiff allyriadau eu cywiro yn ôl y tywydd.
5. Dim ond mewn adeiladau lle cawn filiau uniongyrchol a phan rydym yn gyfrifol am eu talu byddwn yn adrodd ar ddefnyddio ynni a dŵr.
6. Dim ond yn yr adeiladau lle cawn ddata gan gwmni rheoli gwastraff byddwn yn adrodd ar ein gwastraff.
7. Pan nad oedd biliau cyfleustodau wedi cyrraedd eto, roedd y defnydd wedi cael ei amcangyfrifo ar sail data'r misoedd blaenorol.
8. Mae'r defnydd o nwy a thrydan o swyddfeydd Ofcom ym Mryste, Caterham, Peterborough, Leeds a Livingstonen wedi cael ei gynnwys pan fo'n berthnasol, gan fod y swyddfeydd hyn wedi cau ar adegau gwahanol rhwng 2008 a 2010.

# Geirfa

**2G** Systemau ffonau symudol ail genhedlaeth. Mae'n defnyddio system darlledu digidol ar gyfer cyfathrebu llais, trosglwyddo data'n araf, a gwasanaethau negeseua byr.

**3G** Systemau ffonau symudol trydedd genhedlaeth. Mae'n trosglwyddo data'n gyflym ac yn cefnogi rhaglenni amlgyfrwng megis fideo symud llawn, cynadledda fideo a chysylltu â'r rhyngrwyd, ochr yn ochr â gwasanaethau llais confensiynol.

**Band Eang** Gwasanaeth neu gysylltiad a ddiffinnir fel arfer fel un sydd 'ymlaen drwy'r amser' ac yn darparu lled band mwy na band cul.

**Band Eang symudol** Gwahanol fathau o fynediad rhyngrwyd cyflym di-wifr drwy fodem cludadwy, ffôn neu ddyfais arall.

**BARB** Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd Darlledwyr. Y corff sy'n gweithredu ar draws y diwydiant ac yn mesur gwylio teledu.

**BEREC** Corff o Reoleiddwyr Ewropeaidd mewn Cyfathrebiadau Electronig.

**Bwndelu** Term marchnata sy'n disgrifio pecynnu gwasanaethau cyfathrebu gwahanol gyda'i gilydd gan sefydliadau a oedd yn draddodiadol ond yn cynnig un neu ddau o'r gwasanaethau hynny.

**Cyflymder cysylltiad pennawd** Y cyflymder data uchaf damcaniaethol mae modd ei gyflawni gan fand eang penodol. Mae nifer o ffactorau, megis ansawdd a hyd y llinell ffisegol o'r gyfnewidfa i'r cwsmer, yn golygu na fydd cwsmer penodol efallai'n derbyn y cyflymder pennawd hwn yn ymarferol.

**Cyfraddau did** Y gyfradd caiff gwybodaeth ddigidol ei chludo o fewn sianel gyfathrebu benodol. Fel rheol caiff cyflymder band eang ei fesur mewn Mbit yr eiliad.

**DAB** Darlledu sain ddigidol. Set o safonau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol ar gyfer y dechnoleg sy'n darlledu gwasanaethau amlblecs daearol radio digidol yn y DU.

**Dadfwndelwyd** Cyfnewidfa leol sydd wedi bod drwy ddad-fwndelu dolen leol.

**Darparwr gwasanaeth** Darparwr gwasanaethau cyfathrebu electronig i drydydd partïon, p'un ai dros ei rwydwaith ei hun neu dros un arall.

**DCMS** Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

**Y Ddeddf Cyfathrebiadau** Deddf Cyfathrebiadau 2003, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2003.

**Dolen leol** Y cysylltiad rhwydwaith mynediad rhwng eiddo'r cwsmer a'r gyfnewidfa PSTN leol, fel arfer dolen sy'n cynnwys dwy wifren gopr.

**Dosbarthu defnyddiwr-i-ddefnyddiwr** Y broses o drosglwyddo gwybodaeth, gwasanaethau neu gynnyrch yn uniongyrchol rhwng defnyddwyr neu ddyfeisiau sy'n gweithredu ar yr un lefel hierarchaidd.

**DSL** Llinell tanysgrifio ddigidol. Teulu o dechnolegau y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel DSL, neu xDSL, sy'n gallu trawsnewid llinellau ffôn cyffredin (a elwir hefyd yn 'barau copr pleth') yn llinellau digidol cyflym, ac sy'n gallu ymdopi â gwasanaethau mwy datblygedig megis cysylltiad cyflym â'r rhyngrwyd a fideo ar alwad. Mae ADSL, HDSL (llinell tanysgrifio ddigidol ar gyfer data cyflym) a VDSL (llinell tanysgrifio ddigidol ar gyfer data cyflym iawn) i gyd yn fersiynau ar xDSL).

**EPG** Rhestr electronig o raglenni sy'n dangos yr amserlen, fel arfer caiff ei darlledu ochr yn ochr â gwasanaethau radio neu deledu digidol, i ddarparu gwybodaeth am gynnwys neu amserlen rhaglenni nawr ac yn y dyfodol.

**Fideo ar alwad VoD** Gwasanaeth neu dechnoleg sy'n galluogi gwylwyr teledu i wylio rhaglenni neu ffilmiau pryd bynnag byddant yn dewis gwneud hynny, heb fod wedi'u cyfyngu gan amserlen linol.

**Ffibr i'r adeilad** Math o gyfathrebu ffibr optegol lle bydd y ffibr optegol yn mynd yn syth i eiddo'r cwsmer.

**Ffibr i'r cabinet** Rhwydwaith mynediad sy'n cynnwys ffibr optegol yn ymestyn o'r cwgn mynediad i'r cabinet yn y stryd. Fel rheol, dim ond ychydig gannoedd o fetrau i ffwrdd o eiddo'r tanysgrifiwr y bydd y cabinet yn y stryd. Gan amlaf, pâr copr fydd gweddill y rhwydwaith mynediad rhwng y cabinet a'r cwsmer ond fe ellid defnyddio technoleg arall, technoleg ddi-wifr er enghraifft.

**Ffibr i'r cartref** Math o gyfathrebu ffibr optegol lle bydd y signal optegol yn cyrraedd cartref neu swyddfa'r defnyddiwr.

**Ffôn deallus** Ffôn symudol sy'n cynnig gallu cyfrifiadurol a chysylltedd gwell na ffôn sydd â nodweddion sylfaenol.

**Gosod cynnyrch** Pan fydd darlledwyr masnachol yn cynnwys cyfeiriadau am dâl at gynnyrch a gwasanaethau mewn rhai rhaglenni teledu a radio.

**HDTV** Teledu Manylder Uwch. Technoleg sy'n cynnig lluniau o well ansawdd i wylwyr gyda chydraniad uwch.

**ISP** Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd. Cwmni sy'n darparu mynediad at y rhyngrwyd.

**LTE** (Esblygiad tymor hir). Rhan o ddatblygiad systemau symudol 4G a ddechreuodd gyda rhwydweithiau 2G a 3G.

**LLU (dadfwndelu dolenni lleol)** Proses yw LLU lle bydd y gweithredwyr presennol (sef yn y DU, BT a Kingston Communications) yn darparu eu rhwydwaith lleol (y llinellau sy'n rhedeg o eiddo'r cwsmer i'r gyfnewidfa ffôn) ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfathrebu eraill. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i'r cystadleuwr ddarparu ei offer ei hun yng nghyfnewidfa leol BT/Kingston a sefydlu cysylltiad am-yn-ôl rhwng yr offer hwn a'i rwydwaith craidd.

**Llinell ar les** Cyfleuster trawsyrru sy'n cael ei lesio gan ddefnyddiwr gan gludydd cyhoeddus, ac sy'n benodol ar gyfer traffig y defnyddiwr hwnnw.

**Newid i'r digidol** Y broses o newid y system darlledu teledu neu radio analog i'r digidol.

**Niwtraliaeth net** Yr egwyddor y dylid trin pob traffig ar y rhyngrwyd yn gyfartal, ni waeth beth yw'r cynnwys, y safle na'r llwyfan.

**Radio cymunedol** Mae'n cyfeirio at orsafoedd radio sydd fel rheol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol fach gyda radiws darpariaeth o hyd at 5km ac sy'n rhedeg ar sail ddi-elw.

**RAJAR Cydymchwil i'r Gynulleidfa Radio** Y corff ledled y diwydiant sy'n mesur arferion gwrando ar y radio.

**Rhwydweithiau craidd y genhedlaeth nesaf (NGN)** Rhwydweithiau craidd sy'n seiliedig ar brotocol rhyngrwyd sy'n gallu cefnogi amrywiaeth o wasanaethau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd, fel rheol gan ddisodli hen rwydweithiau lluosog a oedd yn gallu delio ag un gwasanaeth.

**Rhwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf (NGA)** Rhwydweithiau mynediad newydd neu wedi'u huwchraddio a fydd yn caniatáu gwelliannau sylweddol mewn cyflymder band eang ac ansawdd gwasanaeth wrth gymharu â gwasanaethau heddiw. Gall hyn fod yn seiliedig ar nifer o dechnolegau gan gynnwys cebl, di-wifr sefydlog a symudol. Gan amlaf caiff ei ddefnyddio i gyfeirio at rwydweithiau sy'n defnyddio technoleg ffibr optig.

**Y Rhyngrwyd** Rhwydwaith byd-eang o rwydweithiau sy'n defnyddio cyfres gyffredin o safonau (ee y protocol rhyngrwyd) a ddefnyddir gan ddefnyddwyr sydd â chyfrifiadur drwy ddarparwr gwasanaeth.

**Slamio** Pan fydd defnyddiwr yn cael ei symud i gyflenwr gwahanol o wasanaethau cyfathrebiadau heb roi caniatâd.

**Teledu Digidol Daearol** Teledu daearol digidol. Y dechnoleg teledu sy'n cludo'r gwasanaeth Freeview.

**Telegyfathrebu, neu 'Telegyfathrebiadau'** Trosglwyddo llefaru, cerddoriaeth a synau eraill, delweddau gweledol neu signalau dros bellter drwy ddefnyddio trydan, magnetau neu electro-magnetau.

Ofcom

contributor to the
Olympic and Paralympic Games

**Ofcom**
Office of Communications/
Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
**www.ofcom.org.uk**

Switsfwrdd:
**+44 (0)300 123 3000** neu
**+44 (0)20 7981 3000**

Ffacs:
**+44 (0)20 7981 3333**

Ffôn testun:
**+44 (0)20 7981 3043**

Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom:
**+44 (0)300 123 3333** neu
**+44 (0)20 7981 3040**

**Yr Alban:**
39 St Vincent Place
Glasgow G1 2ER

Ffôn: **0141 229 7400**
Ffacs: **0141 229 7433**

**Cymru:**
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ

Ffôn: **029 2046 7200**
Ffacs: **029 2046 7233**

**Gogledd Iwerddon:**
Landmark House
5 Cromac Quay, The Gasworks
Ormeau Road, Belfast BT7 2JD

Ffôn: **028 9041 7500**
Ffacs: **028 9041 7533**

OF 516 (Gorffennaf 2012)